



**Cyfoeth  
Naturiol**  
Cymru  
**Natural  
Resources**  
Wales

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018/19



Noddir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Sponsored by  
**Welsh Government**

# Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd .....	3
Adroddiad ar Berfformiad.....	4
Trosolwg .....	4
Dadansoddi Perfformiad .....	15
Adroddiad Atebolrwydd.....	42
Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol .....	42
Adroddiad y Cyfarwyddwyr .....	42
Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifydd.....	48
Datganiad Llywodraethu.....	49
Adroddiad Cydnabyddiaeth a Staff (wedi'i archwilio).....	58
Adroddiad Seneddol ac Archwilio (wedi'i archwilio) .....	69
Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.....	70
Datganiadau Ariannol .....	80
Atodiad 1 Adroddiad Amgylcheddol Corfforaethol.....	119



# Rhagair y Cadeirydd

Ers ymuno â Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Tachwedd y llynedd, mae'r arbenigedd, yr ymrwymiad a'r angerdd a ddangoswyd gan fy nghydweithwyr wedi gwneud argraff aruthrol arnaf – ac felly hefyd graddfa aruthrol y gwaith y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei wneud ledled Cymru. Mae wedi bod yn gyfnod anodd i lawer yn dilyn beirniadaeth sy'n aml braidd yn annheg o waith rhyfeddol sy'n cael ei wneud ar draws ein holl gyfrifoldebau. Felly hoffwn ddiolch iddynt i gyd am bopeth y maent yn ei wneud.

Rydym yng nghanol newid arwyddocaol sydd â'r nod o wella sut yr ydym yn gweithredu, gan weithio'n agosach gyda chymunedau a bod yn fwy ymatebol i'n holl gwsmeriaid. Mae'r rhaglen yn mynd rhagddi yn dda ac er bod llawer mwy i'w wneud rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol.

Hoffwn i ni dyfu ein heffaith a gwireddu ein potensial llawn – mae angen i ni gael ein hystyried fel partner o ddewis yr ymddiriedir ynddo ac sy'n angenrheidiol i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i bobl ac amgylchedd Cymru.

Nid wyf yn ddall i'r heriau, ond nid wyf i chwaith eisiau i ni gollu synnwyr o bersectif. Rydym eisoes yn gwneud cyfraniad sylweddol at amgylchedd, economi a diwylliant Cymru. Ond gydag arweinyddiaeth gryfach, synnwyr mwy eglur o gyfeiriad, ac ailosod cysylltiadau yn seiliedig ar ymddiriedaeth a bod yn agored ag amrywiaeth eang o bartneriaid a rhanddeiliaid, credaf y gallwn dyfu'r cyfraniad hwnnw fwy fyth.

Syr David Henshaw  
Cadeirydd Dros Dro



# Adroddiad ar Berfformiad

## Trosolwg

Ar y tudalennau canlynol, mae ein Prif Weithredwr, Clare Pillman, yn cynnig ei safbwynt ar ein perfformiad eleni ac rydym yn amlinellu diben ein sefydliad, ein prif swyddogaethau a chyfrifoldebau, a'n cyd-destun deddfwriaethol newidiol, yn ogystal ag esbonio sut yr ydym wedi rheoli darpariaeth ein hamcanion eleni.



## Datganiad y Prif Weithredwr

Yn dilyn fy mlwyddyn gyntaf fel Prif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru, rwy'n falch o gyflwyno ein Hadroddiad a Chyfrifon Blynyddol diweddaraf. Pan ddechreuais fel Prif Weithredwr, roeddwn yn egniol ac yn frwdfrydig iawn ynghylch y cyfle o fy mlaen, i arwain sefydliad â photensial enfawr ar adeg pan nad yw'r amgylchedd erioed wedi bod mor bwysig. Ers hynny, rwyf wedi dysgu llawer iawn ac rwy'n dal i deimlo ei bod yn fraint fawr fod yn gwneud swydd sydd mor heriol ac sy'n cynnig y fath ysbrydoliaeth a boddhad

Rydym wedi wynebu ein cyfran o heriau, ac rwy'n cymryd pob un ohonynt o ddifrif a ddim yn cuddio rhagddynt. Rydym yn gwneud

cynnydd da o ran gwella llywodraethu cyffredinol yn y sefydliad a gweithredu argymhellion adolygiad Grant Thornton o werthiannau pren. Fodd bynnag, bydd yn cymryd cryn amser i waredu ein hunain yn llwyr o broblemau dwfn a hirsefydlog sy'n bodoli ers y cyfnod cyn i Cyfoeth Naturiol Cymru gael ei sefydlu mewn rhai achosion.

Rydym yn cyflwyno telerau ac amodau newydd ar gyfer ein gwerthiannau pren, wedi datblygu prosesau mewnol newydd a hyfforddi ein staff, ac wedi rhoi amser sylweddol i adnewyddu a gwella ein perthynas gyda'n cwsmeriaid pren. Ac rydym wedi datblygu strwythur newydd ar gyfer y maes hwn o'r busnes, gyda phenaethiaid newydd





stewardiaeth fasnachol a thir a fydd yn cryfhau'r tîm ac yn cynorthwyo ein staff, gan greu diwylliant y gallant ffynnu ynddo. NRW's remit is broad and deep and I do not want these issues to detract from some of the excellent work we do and the benefits we are delivering for the environment and people of Wales.

Rwyf wedi bod wrth fy modd o weld y gwaith arloesol yr ydym wedi ei wneud ar lygredd cloddfeydd metel hanesyddol, gan wella ansawdd ddŵr a chynefinoedd i fywyd gwyllt. Rwyf wedi bod yn falch o weld y gwerth y mae ein staff yn ei ychwanegu wrth reoleiddio diwydiant mawr fel Tata Steel – gan wella ansawdd aer lleol. Rydym wedi gwneud gwaith ardderchog ar adfer cynefinoedd mewn prosiect fel ffeniau Ynys Môn a chyfargorsydd – gan helpu bywyd gwyllt prin a gwella'r broses storio carbon. Rydym hefyd wedi gwella amddiffynfeydd rhag llifogydd i drigolion Crindau, Pontarddulais a'r Rhath ac wedi dechrau ymgysylltu â chymunedau o amgylch Llyn Tegid ar welliannau angenrheidiol i'r gronfa ddŵr.

Chwaraeodd y tywydd ei ran yn ystod y flwyddyn, o'r tanau gwyllt yn yr haf sych i'r llifogydd a achoswyd gan Storm Callum ym mis Hydref. Gweithiodd ein timau bob awr o bob dydd yn ystod y digwyddiadau hyn gyda'n partneriaid mewn awdurdodau lleol a gwasanaethau brys i gyfyngu'r effaith ar gymunedau ac, yn achos y tanau, i geisio cyfyngu'r effaith drychinebus ar ein hystad goed a'n bywyd gwyllt mewn coetiroedd. Gallai'r effeithiau wedi bod hyd yn oed yn fwy difrifol heb ein gwaith.

Rydym yn gweithio ar flaen y gad, gan orfod gwneud penderfyniadau amhoblogaidd ac anodd yn aml, o fewn paramedrau deddfwriaethol llym. Eleni, rydym wedi sicrhau ymgymeriadau gorfodi ar gyfer gollyngiad olew Valero yn Nant-y-caws, gan sicrhau bod £150,000 yn mynd yn uniongyrchol o Valero i Afonydd Cymru i wella cynefinoedd afon, gan osgoi achosion llys costus lle byddai'r dirwyon yn mynd yn syth i Drysorlys y DU. Rydym hefyd wedi cymryd camau yn erbyn safleoedd gwastraff nad oeddent yn cydymffurfio



Diwrnod #TîmCyfoeth 2018

â'u trwyddedau amgylcheddol, fel Porthmadog Skips a Clwyd Breakers, gan glirio safleoedd a sicrhau bod dim rhagor o ddifrod a risg amgylcheddol i gymunedau lleol.

Rydym yn cydnabod bod penderfyniadau fel y drwydded forol ar gyfer gwaredu gwaddodion carthu o waith adeiladu Hinkley C yn Nhiroedd Caerdydd a thrwydded amgylcheddol i Biomass UK No.2 Limited yn y Barri yn amhoblogaidd ymhlith rhai yn y gymuned. Rydym yn cydnabod y gallwn ac y dylem wneud mwy i ymgysylltu â chymunedau sy'n cael eu heffeithio ac rydym yn gweithio i wella'r agwedd bwysig hon ar ein gwaith

Yn fewnol, rydych yn dechrau creu diwylliant newydd yn Cyfoeth Naturiol Cymru. Roeddwn yn falch ac wedi fy llonni gan ein Diwrnod Tîm Cyfoeth Naturiol Cymru cyntaf erioed ym mis Hydref 2018, pan ddaeth dros 600 o aelodau ein tîm at ei gilydd yn Aberystwyth i ddatlu'r hyn yr ydym yn ei wneud a phwy ydym ni, ac i gysylltu â'n gilydd ynghylch ein gweledigaeth a'n gwerthoedd a rennir.

Mae ein rhaglen Cynllunio'r Sefydliad wedi golygu newid a phryder sylweddol i lawer o staff ac rwy'n hynod falch o sut y maent wedi parhau i roi o'u gorau i'r swydd feunyddiol er gwaethaf yr ansicrwydd y gallent fod wedi ei deimlo. Mae'r strwythur newydd wedi ei gynllunio i gyflawni yn lleol, i sicrhau safonau uchel cyson ledled Cymru gyfan. Mae wedi ei gynllunio i fod yn hyblyg a chydnerth yn wyneb heriau'r dyfodol. Ac mae wedi ei gynllunio i gynorthwyo staff i gael gyrfaedd diddorol a llawn boddhad gyda Cyfoeth Naturiol Cymru. Rwy'n falch fod y rhaglen hon wedi cyrraedd ei chymau olaf bellach a gallwn ganolbwyntio yn ystod y flwyddyn nesaf

ar greu'r sefydliad y gwn y gall Cyfoeth Naturiol Cymru ei fod a chyflawni mwy dros yr amgylchedd a phobl Cymru.

Ni allwn gyflawni ein holl uchelgeisiau ar ein pen ein hunain, felly mae datblygu perthynas well gyda'r sefydliadau yr ydym yn gweithio â nhw yn hanfodol. Pa un a yw hynny'n golygu trafod adar gyda'r RSPB yn yr eira yn Llyn Efyrynwy, cytuno i weithio'n agosach i wella afonydd gydag Afonydd Cymru, gweld potensial ynni'r gwynt ym Mhen-y-cymoedd gyda Vattenfall, neu gyfarfod fwy neu lai pob sefydliad partner mewn pedwar diwrnod yn Sioe Frenhinol Cymru, rwy'n falch o ddweud ein bod wedi ein cysylltu'n well gyda'n partneriaid nawr nag yr oedd ar yr adeg hon y llynedd. Mae hyn yn hanfodol wrth i ni gynnal a chanolbwyntio ein perthynas gyda phob un o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac ailadeiladu ein perthynas gyda'r diwydiant pren.

Mae tîm Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflawni bob dydd dros yr amgylchedd - gan helpu bywyd gwyllt, diogelu pobl a chymunedau, a helpu'r economi. Gyda strwythurnewydd, gwell cyfeiriad, gwerthoedd wedi eu hadnewyddu a diwylliant sy'n gwella, rwy'n sicr y gallwn wneud Cyfoeth Naturiol Cymru y sefydliad gwych y mae arnom ei angen. Un sy'n gallu chwarae rhan hanfodol yn ymateb Cymru i argyfyngau hinsoddol ac amgylcheddol allweddol a gwneud y gwahaniaeth yr ydym ni i gyd ei eisiau i amgylchedd Cymru, ei bywyd gwyllt a'i phobl.

# Cyflwyno Cyfoeth Naturiol Cymru...

Rydym yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Ein diben craidd yw Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a chymhwyso egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy fel y'u nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Cymru yw'r wlad gyntaf yn y byd i greu un sefydliad sy'n cyfuno llawer o'r dulliau sydd eu hangen i helpu i reoli ein hadnoddau naturiol yn gydynol ac mewn ffordd integredig.

Mae adnoddau naturiol yng Nghymru yn wych - mynyddoedd a choetiroedd garw, tirweddau a morlinau hardd, a bywyd gwylt anhygoel. Maent yn hanfodol i'n goroesiad ac yn rhoi i ni y pethau sylfaenol sydd eu hangen arnom i fyw: aer glân, dŵr glân a bwyd. Maent yn creu swyddi i filoedd o bobl fel ffermwyr, coedwigwyr a gweithredwyr twristiaeth, gan greu cyfoeth a ffyniant.

## Mae ein swyddogaethau a'n cyfrifoldebau yn cynnwys:

**Cynghorydd**  
i Lywodraeth Cymru  
ac i ddiwydiant,  
tirfeddianwyr / rheolwyr  
tir, y cyhoedd ehangach  
a'r sector gwirfoddol

**Rheoleiddiwr**  
safleoedd diwydiant  
a gwastraff, y môr,  
coedwigoedd a  
Safleoedd Dynodedig  
i amddiffyn pobl a'r  
amgylchedd naturiol

**Dynodwr**  
Safleoedd o Ddiddordeb  
Gwyddonol Arbennig  
(SoDdGAau), Ardaloedd  
o Harddwch Naturiol  
Eithriadol (AHNEau) a  
Pharciau Cenedlaethol a  
datgan Gwarchodfeydd  
Natur Cenedlaethol

**Ymatebwr**  
i fwy na 9,000 o  
ddigwyddiadau  
amgylcheddol a  
adroddir y flwyddyn fel  
ymatebwr brys Categori  
1

**Ymgynghorai**  
statudol  
ar fwy na 6,800 o  
geisiadau cynllunio y  
flwyddyn

**Rheolwr** 7% o  
arwynebedd tir Cymru,  
yn cynnwys Ystad Goetir  
Llywodraeth Cymru,  
Gwarchodfeydd Natur  
Cenedlaethol ac  
amddiffynfeydd rhag  
llifogydd, a rhedeg  
cyfleusterau hamdden a  
labordy

**Partner, addysgwr**  
a galluogwr  
yn cynorthwyo a hwyluso  
gwaith sefydliadau eraill  
a helpu pobl i ddysgu yn  
yr amgylchedd naturiol  
ac amdano

**Casglwr**  
tystiolaeth, gan  
fonitro'r amgylchedd,  
comisiynu a gwneud  
gwaith ymchwil,  
datblygu a rhannu  
gwybodaeth, a chadw  
cofnodion cyhoeddus

**Cyflogwr**  
tua 1,900 o staff yn  
ogystal â chontractwyr  
a gwirfoddolwyr

# CNC mewn rhifau 2018/19

## Hyrwyddo amgylchedd Cymru a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

Hyfforddwyd



1,400

o staff mewn Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

Aelod o bob un o'r 19 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru

## Sicrhau bod tir a dŵr yng Nghymru yn cael eu rheoli'n gynaliadwy ac mewn ffordd integredig



Proseswyd 4,189 o drwyddedau amgylcheddol

Achrediad Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig

Rheoli 7% o dir Cymru

## Gwella cydnherthedd ac ansawdd ein hecosystemau

Yn gyfrifol am y 12 milltir forol o'r morlin



Cyhoeddwyd 1,292 trwyddedau rhywogaeth

Rheoli dros 70 Gwarchodfa Natur Genedlaethol



## Lleihau'r risg i bobl a chymunedau o beryglon amgylcheddol fel llifogydd a llygredd

Yn cynnal 319 milltir o amddiffynfeydd perygl llifogydd

119,723 o adeiladau wedi eu cofrestru i dderbyn ein rhybuddion llifogydd



Derbyniwyd adroddiadau o 9,225 o ddigwyddiadau amgylcheddol

## Helpu pobl i fyw bywydau iachach a mwy cyflaw



Rheoli 42 o lwybrau beicio mynydd



Rheoli 3 canolfan ymwelwyr yn cynnwys Park Fforest Coed y Brenin

Mae Coed y Brenin yn derbyn

140,000 o ymwelwyr y flwyddyn, gyda 80,000 yn defnyddio'r llwybrau beicio

Hybu busnes llwyddiannus a chyfrifol, gan ddefnyddio adnoddau naturiol heb eu difrodi

Ymatebwyd i 6,841 o ymgynghoriadau cynllunio

Incwm o £26.3miliwn o bren



63 o erlyniadau am droseddau amgylcheddol

## Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad rhagorol sy'n darparu gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaena

Enillwyd y Safon Iechyd Corfforaethol Arian 19th ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall yng Nghymru

ISO14001: ardystiwyd yn 2015

4.8% Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau



# Ein tirwedd ddeddfwriaethol newidiol


Yn y blynyddoedd diwethaf, mae dau ddarn allweddol o ddeddfwriaeth yng Nghymru wedi cael effaith sylweddol ar yr hyn yr ydym yn ei wneud ac, yn fwy arwyddocaol, sut yr ydym yn ei wneud. Bydd natur gynyddol gydgysylltiedig y Deddfau hyn a'n gwaith hefyd yn caniatáu i ni addasu ac integreiddio ein hadrodd yn y blynyddoedd i ddod.

Newidiodd cyflwyniad **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** ein diben craidd, gan ein hymrwymo i gymhwyso naw egwyddor Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn ein holl waith. Cryfhaodd hefyd ein dyletswydd i gymryd camau dros natur, gan ein cyfarwyddo i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth lle bynnag y bo'n bosibl wrth gyflawni ein holl waith a rhoi amserlen ar waith ar gyfer cynllunio, adrodd ac adolygu gofynion i ddangos ein cydymffurfiad â'r ddyletswydd hon.


Newidiodd Deddf gynharach, **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**, bwyslais ein gwaith cynllunio, llywodraethu a darparu i sicrhau ein bod yn gwneud ein cyfraniad at ei saith Nod Llesiant i Gymru mor fawr â phosibl, ac yn gweithredu ei phum dull o weithio wrth gyflawni ein dyletswyddau.

Mae datblygiad parhaus y ddwy Ddeddf wedi arwain at ganllawiau statudol i gyrff sector cyhoeddus, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, sydd wedi egluro cynhyrchion a disgwyliadau ychwanegol. Cyflwynwyd ein Datganiad Llesiant ac amcanion

'Newidiodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, bwyslais ein gwaith cynllunio, llywodraethu a darparu.'



llesiant cychwynnol gennym yn 2017, ac fe'u hadolygwyd wrth i ni gynnwys ein staff a'n rhanddeiliaid i lunio ein Cynllun Corfforaethol hyd at 2022. Mae'r dogfennau hyn yn amlinellu ein hamcanion sefydliadol hirdymor lefel uchaf i gyflawni ein diben a sicrhau bod ein cyfraniad at Nodau Llesiant Cymru mor fawr â phosibl. Byddwn yn adolygu ein hamcanion eto y flwyddyn nesaf yn dilyn y gyfres gyntaf o Ddatganiadau Ardal a Chynlluniau Llesiant gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i sicrhau bod ein hamcanion yn dal i fod yn addas i'r diben.



Eleni, roedd canllawiau statudol newydd i weithredu Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn cynnwys fframwaith eglur ar gyfer ymsefydlu amcan ac egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn ein gwaith ac mae'n dangos bod Datblygu Cynaliadwy (fel y'i diffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015) yn cael ei weithredu'n ymarferol ar yr un pryd.

I ddangos sut yr ydym yn ymsefydlu amcan ac egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, byddwn yn defnyddio adroddiadau blynyddol yn y dyfodol i wneud y canlynol:

- cynnig tystiolaeth o sut yr ydym yn cyflawni ein diben drwy ein swyddogaeth a'n gweithrediadau

- dangos unrhyw wrthdaro rhwng ein diben a'n swyddogaethau;
- dangos sut yr ydym yn diwygio ein polisiâu gweithredol i ymsefydlu rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

I fwrw ymlaen â hyn, rydym wedi sefydlu rhaglen i fodloni'r ymrwymiad hwn, gan gydnabod y bydd ymsefydlu ein diben newydd ar draws ein holl ddyletswyddau a swyddogaethau yn cymryd amser. Rydym wedi blaenoriaethu'r meysydd canlynol i ddechrau'r broses: Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, Rheoliadau Asesu Effaith Amgylcheddol (Coedwigaeth) a phenderfyniadau Glastir, trwyddedu morol, a rheoli perygl llifogydd.





## Adrodd ar ein Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnherthedd Ecosystemau



Rydym yn un o fwy na 200 o awdurdodau cyhoeddus a ddiffinnir yn adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 y mae'n rhaid iddynt geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth lle bynnag y bo'n bosibl wrth gyflawni eu swyddogaethau yng nghyswllt Cymru. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid i ni geisio hybu cydnherthedd ecosystemau hefyd.

Mae'r ddyletswydd adran 6 wedi cael ei datgan gan Lywodraeth Cymru fel ysgogwr deddfwriaethol allweddol i sicrhau bod cyfraniad y sector cyhoeddus mor fawr â phosibl at fodloni amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur - ymrwymiad cenedlaethol Cymru i atal a gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth o dan y Confensiwn Rhyngwladol ar Amrywiaeth Fiolegol..

### Beth ydym ni wedi ei wneud i gydymffurfio?

Ystyriaeth o fioamrywiaeth ar lefel gorfforaethol

Rydym wedi integreiddio ein cynllun ar gyfer cydymffurfio â dyletswydd bioamrywiaeth adran 6 i'n cynlluniau sefydliadol, a'r ymrwymadau lefel uchel yn ein Cynllun Corfforaethol hyd at 2022 yw'r sail ar gyfer ein cynllun adran 6.

Gan adeiladu ar y cynllun lefel uchel hwn yn ystod 2017, ceisiwyd safbwyntiau ein Bwrdd, aelodau staff a rhanddeiliaid i greu Natur Hanfodol, llyw strategol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer bioamrywiaeth hyd at 2022. Cyhoeddwyd Natur Hanfodol yn

2018 ac fe'i lanswyd yn gyhoeddus gan ein Prif Weithredwr, ac mae'n nodi ein dyheadau, ein blaenoriaethau a'n ffyrdd o weithio i wrthdroi'r dirywiad i fioamrywiaeth. Mae'n haen ychwanegol o ymrwymiad, ymsefydlu a chynllunio sefydliadol sy'n gweithio ochr yn ochr â'r Cynllun Corfforaethol. Bwriedir iddo lywio ein gwaith ar draws yr ystod lawn o swyddogaethau Cyfoeth Naturiol Cymru wrth i ni ymdrechu i sicrhau cymaint o effeithiau cadarnhaol â phosibl o'n penderfyniadau ni a rhai pobl eraill ar fioamrywiaeth ac ecosystemau.





Gweithredu ar gyfer bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau Mae gennym amrywiaeth eang o ddyletswyddau a phwerau sy'n ymwneud â bioamrywcynefinoedd, rhywogaethau a geoamrywiaeth.<sup>4</sup> Ni yw corff cadwraeth natur statudol Cymru ac rydym yn gynghorydd annibynnol arbenigol seiliedig ar dystiolaeth i'r llywodraeth ac eraill. Ni yw hyrwyddwr Cymru dros fioamrywiaeth a'r amgylchedd,<sup>5</sup> ac rydym yn chwarae rhan flaenllaw o ran arloesi a llywio polisi'r llywodraeth ar gadwraeth natur a bioamrywiaeth. Ond ceir mwy na hynny i swyddogaeth Cyfoeth Naturiol Cymru dros natur. Mae'r gwaith yr ydym yn ei wneud ar draws ein hamrywiaeth o swyddogaethau statudol yn hanfodol i sicrhau gwelliannau i fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau, gan gynnwys rheoli perygl llifogydd, rheoli coedwigaeth a choetir, a rheoleiddio prosesau diwydiannol, amaethyddiaeth, rheoli gwastraff, adnoddau dŵr, pysgodfeydd a hamdden.

Mae'r gwaith aruthrol a wnaed ar draws Cyfoeth Naturiol Cymru yn y blynyddoedd diwethaf i ymsefydlu Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, a datblygu gwell dealltwriaeth, ymwybyddiaeth a chymhwysiad sefydliadol o nodweddion cydnerthedd trwy ein holl swyddogaethau, hefyd wedi gwneud cyfraniad enfawr at ein dyletswydd bioamrywiaeth adran 6.

Golwg agosach ar ein cyfraniad I ddangos dyfnder a lled ymrwymiad Cyfoeth Naturiol Cymru i gynnal a gwella bioamrywiaeth, a hybu cydnerthedd ecosystemau, rydym wedi amlygu mesurau perfformiad allweddol ac astudiaethau achos yn y ddogfen hon. Bydd deunydd atodol yn dangos ymhellach ein cyfraniad at

ddyletswydd bioamrywiaeth adran 6 ar gael ar wefan Natur Hanfodol yn ddiweddarach eleni

## Archwilio ac adolygu ein gwaith


Rydym wedi ymrwymo yn ein Cynllun Busnes 2019/20 i gynnal archwiliad o ymwybyddiaeth, ystyriaeth a gweithrediad staff Cyfoeth Naturiol Cymru o ran bioamrywiaeth wrth wneud penderfyniadau a chynllunio. Nod yr archwiliad yw creu sail dystiolaeth y gallwn ei defnyddio i asesu ein cyfraniad presennol at fioamrywiaeth.

Bydd canfyddiadau ein hadroddiad blynyddol adran 6, yn y ddogfen hon ac ar ein gwefan, yn cyfrannu at yr archwiliad a'r sail dystiolaeth a gynhyrchir o ganlyniad. Bydd yr argymhellion yr ydym yn eu llunio yn seiliedig ar y dystiolaeth hon yn llywio datblygiad a darpariaeth hyfforddiant, canllawiau a gwybodaeth yn y dyfodol ar draws y sefydliad i ymsefydlu a gwella ein gwaith ar fioamrywiaeth ymhellach.

## Rheoli ein risgiau a'n problemau

Fel sefydliad â swyddogaethau a chyfrifoldebau amrywiol, ceir sawl maes allweddol yr ydym yn ei gydnabod fel risgiau a phroblemau i'w rheoli i liniaru eu heffaith ar ddarpariaeth ein gwaith. Fel yr amlinellir yn ddiweddarach yn ein

Datganiad Llywodraethu, caiff risgiau i ddarpariaeth ein hamcanion eu nodi, eu hasesu, eu rheoli, eu hadolygu a'u cofnodi trwy gofrestrau risg. Fodd bynnag, gellir nodi ein risgiau allweddol drwy'r categorïau canlynol: risgiau mewnol, allanol a strategol.



Amlygir y risgiau allweddol canlynol ar ein cofrestr risg gorfforaethol fel rhai sy'n arwyddocaol i fodloni'r amcanion corfforaethol canlynol:

- Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru i fod yn sefydliad rhagorol
- Lleihau risg peryglon amgylcheddol i bobl a chymunedau
- Gwella cydnerthedd ac ansawdd ein hecosystemau

- **Llesiant, iechyd a diogelwch ein staff:** oherwydd natur amrywiol a chymhleth ein gwaith gweithredol, mae llesiant, iechyd a diogelwch ein staff ac eraill sy'n gweithio i ni ac ar dir yr ydym yn ei reoli yn hollbwysig i ni. Rydym yn darparu hyfforddiant a chymorth i staff y mae angen ei wella yn barhaus. Rydym yn gwybod bod ysbryd

isel ymhlith y staff a'r dymuniad am gyfnod o sefydlogrwydd yn faterion pwysig y mae angen i ni roi sylw iddynt. Wrth i ni ddynesu at gwblhau proses Cynllunio'r Sefydliad, byddwn yn cyflwyno rhaglen i gefnogi ein strwythur newydd a rhoi hwb i'r ymdeimlad #TîmCyfoeth. Caiff gwaith gweithredol arferol ei gefnogi gan gyfres o asesiadau risg a nodiadau cyfarwyddyd gweithredol eglur

- **Llywodraethu mewnol:** mae cydymffurfriad â pholisïau a ffyrdd o weithio mewnol wedi bod yn destun craffu sylweddol ers ein hymddangosiad yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a chyhoeddi Adolygiad Grant Thornton o Lywodraethu Gwerthiannau



Pren. Rydym yn ymwybodol fod cydymffurfiad gwael a sicrwydd cyfyngedig mewn rhai meysydd busnes wedi gadael y sefydliad yn agored i fwy o berygl o dwyll. Mae ein prosiect ymateb i Grant Thornton yn cynnwys ffrwd waith i ystyried gwelliannau i faterion diwylliannol a phroses ehangach.

- **Gosod amodau ar gyfrifon ariannol yn y dyfodol** : rydym wedi ceisio sicrwydd pellach ynghylch cywirdeb a rheoleiddra ein gweithrediadau pren o ran penderfyniadau hanesyddol ac wedi gwneud gwelliannau i'n polisïau, ein prosesau a'n gweithdrefnau. Fodd bynnag, ceir perygl o hyd y bydd amodau yn cael eu gosod ar ein Hadroddiad a Chyfrifon Blyneddol yn y dyfodol

- **Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd**: caiff llawer o'n gwaith ei lywodraethu gan ddeddfwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd ac felly gallai unrhyw newidiadau effeithio ar ein cyllid yn ogystal â gofynion ein gwaith. Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid i baratoi ar gyfer newidiadau i ddeddfwriaeth ar lefel Cymru a'r DU. Ochr yn ochr â chael effaith ar ein gwaith ein hunain, rydym yn cydnabod y gallai newidiadau posibl newid sut y mae eraill yn gweithredu, e.e. o ran arferion rheoli gwastraff ac ati, ac felly rydym yn paratoi ar gyfer cynnydd yn nifer y digwyddiadau amgylcheddol yng Nghymru y bydd angen i ni ymateb iddynt yn rhan o'n swyddogaeth ein hunain.





# Crynodeb o Berfformiad

Ein cyfrifoldeb ni yn Cyfoeth Naturiol Cymru yw gofalu am adnoddau naturiol Cymru a'r hyn y maent yn ei ddarparu i ni: er mwyn helpu i leihau'r risg i bobl ac adeiladau o lifogydd a llygredd; i ofalu am fannau arbennig ar gyfer llesiant, bywyd gwylt a phren; ac i weithio gydag eraill i'n helpu ni i gyd eu rheoli yn gynaliadwy.

Ni fu 2018/19 heb ei heriau. Mae Adroddiadau a Chyfrifon Blyneddol blaenorol wedi derbyn barn amodol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghylch ein gweithrediadau masnachol, sydd wedi arwain at graffu cyhoeddus dwys ar ein sefydliad, ac mae ailgynllunio'r sefydliad yn llwyr wedi golygu cyfnod ansefydlog i'n staff, sydd eisiau rhoi o'u gorau dros amgylchedd naturiol Cymru.

Rydym wedi troi pob carreg wrth geisio cael at wraidd y problemau yn ein gweithrediadau coedwig masnachol. Comisiynwyd Grant Thornton gennym i gynnal adolygiad annibynnol trylwyr. Rydym yn derbyn canfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad yn llawn wrth iddo amlinellu'r gwelliannau sydd eu hangen i'n gwaith llywodraethu contractau, adrodd ariannol, llywodraethu sefydliadol a diwylliant sefydliadol ac rydym wedi sefydlu prosiect annibynnol sy'n atebol i'r Bwrdd i roi'r camau ar waith yn gyflym.

Yn fewnol, mae ein rhaglen Cynllunio'r Sefydliad wedi arwain at gymeradwyo

strwythur cwbl newydd a datblygiad polisïau, prosesau a systemau newydd i'w ategu, gan gynnwys y broses o baru staff â swyddi neu staff yn ymgeisio am swyddi yn y strwythur newydd. Er mwyn creu sefydliad sy'n gallu addasu a gweithio ar lefel leol gan gymhwyso egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, mae newidiadau i swyddi a thimau wedi arwain at lawer iawn o ansicrwydd i staff yn ychwanegol i barhau i gyflawni eu swyddi arferol.

Maes gwaith arall lle cafwyd heriau mawr eleni fu ein hymgysylltu cyhoeddus. Mae llawer o'n gwaith yn denu lefel sylweddol o ddiddordeb, ac weithiau pryder ynghylch materion lleol. Denodd ein penderfyniad i gyflwyno trwydded forol i weithredwyr sy'n adeiladu Gorsaf Pŵer Niwclear Hinkley 'C' a thrwydded amgylcheddol i ddatblygwyr gwaith biomas yn y Barri, ynghyd â'n cynlluniau rheoli llifogydd yn y Rhath, Caerdydd, feirniadaeth drwm gan wleidyddion yn ogystal â chymunedau lleol. Rydym yn cydnabod bod angen i ni wneud mwy yn y dyfodol. Rydym yn datblygu strategaeth gyfathrebu newydd yn 2019/20 ac yn ymateb i Gyfarwyddyd Gweinidogol i adolygu ein gweithgareddau ymgysylltu cymunedol. Byddwn yn cymhwyso'r gwersi yr ydym yn eu dysgu i ymgysylltu cyhoeddus yn y dyfodol.

Fodd bynnag, rydym wedi cynnal ein gweithgareddau craidd i sicrhau bod cynnydd tuag at y nodau yn ein cynllun corfforaethol yn parhau i gael ei wneud:

- **ymateb** i ddigwyddiadau llifogydd a llygredd;;
- **adeiladu a chynnal** cynlluniau lliniaru llifogydd a chynorthwyo cymunedau trwy waith ymwybyddiaeth o lifogydd;
- **gwarchod a hybu** cydnerthedd ecosystemau;
- **rheoli** coedwigoedd a gwarchodfeydd natur;
- **darparu cyngor a chyfarwyddyd** i ddatblygwyr a rheolwyr tir;
- **cyflwyno** caniatâd, trwyddedau a chydsyniadau a sicrhau cydymffurfiaid â'u hamodau;
- **annog** busnesau i weithredu yn gynaliadwy
- **datblygu** cynlluniau ynni adnewyddadwy;
- **darparu a chasglu** tystiolaeth wyddonol.

Gwnaed y canlynol gennym eleni hefyd:

- ailbwysleisiwyd ein hymrwymiad i gadwraeth natur trwy lansio Natur Hanfodol, ein llyw strategol i sicrhau bod bioamrywiaeth yn ganolog i'n gwaith;
- cyhoeddwyd adroddiad ar ddiben a swyddogaeth Ystad Goetir Llywodraeth Cymru dros y 25 mlynedd nesaf;
- ymatebwyd i Storm Callum a digwyddiadau amgylcheddol eraill, gan helpu i leihau'r effaith y gall y digwyddiadau hyn ei chael ar bobl, adeiladau a busnesau;
- cynhaliwyd ein diwrnod #TîmCyfoeth cyntaf, gan ddod â dros 600 o'n staff at ei gilydd; ac
- enillwyd Safon Iechyd Corfforaethol Arian.



Rydym yn gwybod bod llawer i'w wneud o hyd. Y flwyddyn nesaf, bydd angen i ni barhau i ddatblygu ein sefydliad, cynorthwyo staff a gweithredu ein strwythur newydd. Bydd gennym bwyslais brwd ar ymateb i ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, gan fynd i'r afael ag anghenion amgylchedd naturiol Cymru a chyhoeddi ein Datganiadau Ardal cyntaf a'n Hadroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol II interim.

## Dadansoddi Perfformiad

Mae ein dadansoddiad o berfformiad yn disgrifio sut yr ydym yn dylunio a chraffu ar ein fframwaith perfformiad; mae'n darparu gwybodaeth am ein mesurau a'n targedau allweddol ac enghreifftiau mwy manwl o sut yr ydym yn gweithio tuag at fodloni ein Hamcanion Llesiant.


Fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, ein prif swyddogaeth yw cyflawni ein cyfrifoldebau statudol a bodloni'r nodau a sefydlwyd ar ein cyfer gan Weinidogion Cymru. Caiff ein dyletswyddau allweddol eu pennu trwy ddull canlyniad hirdymor (ein Hamcanion Llesiant) a Llythyr Cylch Gwaith blynyddol i benderfynu ar agweddau ar ein gwaith sydd angen pwyslais penodol. Caiff y rhain eu hymgorffori yn ein Cynllun Corfforaethol a'n Cynllun Busnes blynyddol.

Bydd ein fframwaith perfformiad yn datblygu dros y blynyddoedd nesaf i ddangos cynnydd yn erbyn bodloni ein Hamcanion Llesiant, i rannu sut yr ydym yn defnyddio naw egwyddor Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn ein gwaith ac i ddisgrifio sut y byddwn yn mynd i'r afael â blaenoriaethau o Bolisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru a Chynlluniau Llesiant y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Newidiwyd ein gwaith monitro perfformiad lefel uchel eleni o dair gwaith y flwyddyn i bedair, felly caiff ein cynnydd ei fonitro gan ein Bwrdd a Llywodraeth Cymru bellach ac fe'i cyhoeddir ar ein gwefan bob tri mis.

Mae tudalennau canlynol yr adroddiad hwn yn amlinellu enghreifftiau o sut yr ydym yn gweithio i fodloni ein Hamcanion Llesiant yn ogystal â'n gwybodaeth perfformiad allweddol eleni. Maent hefyd yn dangos sut yr ydym yn gweithio tuag at wneud rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.

## O'r 35 o fesurau ar ddangosfwrdd Cynllun Busnes eleni:





# Amcan Llesiant 1

## Hyrwyddo amgylchedd Cymru a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

Ein nod yw hybu'r amgylchedd naturiol ym mhopeth yr ydym yn ei wneud - yn y wybodaeth yr ydym yn ei darparu, o ran cynorthwyo Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, ac wrth roi rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar waith ar draws ein holl waith - er mwyn helpu pobl i wneud y mwyaf o'r manteision y mae'n eu cynnig yn ogystal â'i werthfawrogi er ei fwyn ei hun nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

### Ein mesurau

- Gweithio gydag eraill i ddatblygu gweledigaeth 2050 a rennir ar gyfer amgylcheddnaturiol Cymru
- Gweithio gydag eraill i ddatblygu ein Datganiadau Ardal
- Darparu'r Cynllun Galluogi Carbon Bositif a lleihau ein hól troed carbon
- Ansawdd ein sail dystiolaeth
- Gweithio ar y cyd trwy brosiectau
- Gweithio ar y cyd trwy ein cyllid Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy achymorth arall i gynorthwyo sefydliadau allanol

### Canlyniadau 2018/19

- Mae gwaith tuag at weledigaeth 2050 a rennir yn parhau
- Dosbarthwyd 2 ddiweddariad rhanddeiliaid cenedlaethol ar y ddarpariaeth oDdatganiadau Ardal
- Cymeradwywyd ein Cynllun Galluogi Carbon Bositif
- Cwblhawyd 9 prosiect datgarboneiddio
- Mabwysiadwyd Codau Ymarfer a Safonau tystiolaeth newydd
- Mae 76 o brosiectau partneriaeth ar y gweill
- Cymeradwywyd 64 o brosiectau blaenoriaeth Rheoli Adnoddau Naturiol ynGynaliadwy

### Engbreiffiau o'n gwaith yn ystod 2018/19:

#### Mynd i'r afael â'r heriau amgylcheddol yr ydym yn eu hwynebu yng Nghymru



Rydym yn cyd-gynhyrchu saith Datganiad Ardal, gan weithio gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid â chymhwyso egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy wrth i ni eu datblygu. Bydd y rhain yn nodi cyfleoedd a heriau lle gall yr amgylchedd lleol helpu i fynd i'r afael

ag amrywiaeth eang o broblemau neu eu hatal rhag gwaethygu yn y lle cyntaf. Bydd angen cymorth arnynt i ymsefydlu rheoli cynaliadwy mewn cynlluniau a phrosesau a helpu i ddarparu'r blaenoriaethau ym Mholisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru, gan geisio mynd i'r afael â'r heriau amgylcheddol yr ydym yn eu hwynebu yng Nghymru.

Ceir Datganiadau Ardal ar gyfer saith ardal ddaearyddol ledled

Cymru, chwech o leoedd ar y tir a'r amgylchedd morol o amgylch Cymru a byddant yn cynnig sail dystiolaeth a chyfres o gynhyrchion a dulliau eraill i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac eraill eu defnyddio er mwyn cynllunio a darparu newidiadau a gwelliannau ledled Cymru. Yn ystod 2018/19, rydym wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid allanol a'n staff i godi ymwybyddiaeth o Ddatganiadau Ardal ac iddechrau nodi themâu sy'n dod i'r amlwg a all fod yn rhan annatod wedyn o gynlluniau llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'n cynlluniau mewnol ein hunain. Mae gennym system ar-lein newydd - o'r enw Granicus - ar gyfer diweddariadau Rhanddeiliaid Cenedlaethol, ac mae ein Dull Ymgysylltu ar gyfer Datganiadau Ardal yn cael ei ddatblygu i gofnodi sgysiau rhanddeiliaid a helpu i nodi cyfleoedd.

## **Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn hyrwyddo'r amgylchedd naturiol!**

Rydym yn defnyddio cyfle'r ffaith mai ni yw'r unig gorff cyhoeddus sy'n aelod o bob un o'r 19 o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fel ffordd arall o hyrwyddo'r amgylchedd naturiol a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ledled Cymru.


- Rydym yn cadeirio Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam ac yn arwain rhai is-grwpiau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Rydym yn cynorthwyo (gan gynnwys trwy gyfraniadau ariannol) ddatblygiad cydweithredol yr ymatebion i'r 19 o Gynlluniau Llesiant ac amcanion llesiant trwy fentrau, prosiectau a chynigion penodol. Er enghraifft, yng Nghasnewydd, rydym yn helpu i hwyluso grwpiau sy'n ystyried Seilwaith Gwyrdd a Theithio Cynaliadwy ar gyfer y ddinas; rydym yn darparu cymorth penodol i rai

Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ynghylch eu hamcan newid yn yr hinsawdd (e.e. Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen); a chyfrannwyd gennym at adroddiadau blynyddol cyntaf y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a ddisgwyliwyd ym mis Mai/Mehefin 2019.

- Rydym yn cymryd rhan weithredol yn rhwydwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru / Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac mewn digwyddiadau penodol, e.e. gweithdy diweddar yn archwilio'r berthynas rhwng Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Rydym yn datblygu cylch lle mae Datganiadau Ardal yn cael eu llywio gan asesiadau a chynlluniau llesiant cyntaf y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, ac yna bydd y Datganiadau Ardal cyntaf a gwblheir yn llywio fersiynau o asesiadau a chynlluniau llesiant yn y dyfodol.

## **Cadw ein staff yn rhan o bethau ac yn gyfredol**

Yn fewnol, rydym yn cynorthwyo'r gwaith o ymsefydlu Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy ar draws ein sefydliad drwy ein fframwaith datblygu proffesiynol parhaus. Rydym wedi dylunio a chyflwyno cwrs deuddydd i'r holl staff i godi ymwybyddiaeth ac ysgogi camau gweithredu i ymsefydlu ein diben newydd. Mae dros 1,400 o staff wedi cwblhau'r hyfforddiant ac mae hyn wedi arwain at newid sylweddol i bwyslais ein gwaith i ymsefydlu Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy ymhellach. Un o'r ffyrdd y mae'r diben cyffredinol yn cael ei symud ymlaen ar draws ein swyddogaeth a'n gweithrediadau felly yw trwy gynorthwyo staff unigol i gymryd camau bach yn eu swyddi eu hunain yn dilyn yr hyfforddiant.



**Un o geir trydan ein fflyd**

Tynnwyd sylw at yr hyfforddiant fel esiampl o “newid syml” gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhan o'i rhaglen <https://futuregenerations.wales/cy/the-art-of-the-possible/>.

## Beth nesaf?

### Cadw'r pwyslais ar yr amgylchedd naturiol

Gan ymateb i ymadawriad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac yn cynghori wrth iddynt ddatblygu dull newydd i gynorthwyo rheolwyr tir yn ariannol er mwyn helpu i gyflawni amcanion Cymru ar gyfer yr amgylchedd naturiol ac economi carbon isel.

### Mae Datganiadau Ardal ac Adroddiadau ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol ar eu ffordd

Byddwn yn darparu yn 2019/20, mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid, saith Datganiad Ardal ar gyfer arwynebedd

tir a morol y glannau Cymru. Bydd cyhoeddiad interim o'r ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol ar gael, gan adeiladu ar ein hasesiad cyntaf o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a nodwyd yn yr adroddiad cyntaf, a gyhoeddwyd yn 2016.

### Datblygu cyfleoedd ar gyfer datgarboneiddio ac ynni adnewyddadwy

Byddwn yn defnyddio ein Cynllun Carbon Bositif i gefnogi darpariaeth targedau datgarboneiddio ac ynni adnewyddadwy Llywodraeth Cymru trwy ddefnyddio ein dysgu i gynorthwyo Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach i droi'n garbon isel.



# Amcan Llesiant 2

Sicrhau bod tir a dŵr yng Nghymru yn cael eu rheoli'n gynaliadwy ac mewn ffordd integredig

Gall dull cwbl integredig o reoli tir a dŵr yn gynaliadwy yng Nghymru sicrhau manteision lluosog ar draws pob sector – ffermio, coedwigaeth, pysgodfeydd a'r amgylchedd trefol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn digwydd eto. Ein nod yw rhoi'r dull hwn ar waith ar y tir a'r dŵr yr ydym yn eu rheoli ein hunain ac annog yr holl reolwyr tir a dŵr i fabwysiadu dull Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy.

## Ein mesurau

- Gweithredu cynlluniau rheoli basnau afon
- Mynd â phren a reolir yn gynaliadwy i'r farchnad (gan gynnwys contractau prenhirdymor)
- Ailstocio tir ar gyfer rheoli coedwig cynaliadwy
- Cadw ardystiad coedwig yn erbyn Safon Sicr Coetiroedd y DU
- Proses drwyddedu (% yn brydlon, a datblygu ar gyfer ansawdd)
- Safleoedd o ddiddordeb mawr i'r cyhoedd (datblygiad hirdymor)
- Rhaglen cronfeydd dŵr

## Canlyniadau 2018/19

- Mae ailneilltuo staff i'r Ymchwiliad Pysgodfeydd wedi golygu ein bod ar ei hôl hi oran gweithredu mesurau Cynllun Rheoli Basnau Afon
- Cyhoeddwyd ein hymgyngoriad ar y cylch nesaf o Gynlluniau Rheoli BasnauAfon 2021 – 2027
- 796,000 m<sup>3</sup> o bren a reolwyd yn gynaliadwy wedi ei anfon i'r farchnad
- 1,035 hectar wedi ei ailstocio ar gyfer rheoli coedwig cynaliadwy
- Cadwyd ardystiad Safon Sicr Coetiroedd y DU. Penderfynwyd ar 96% o geisiadau am drwydded yn unol â'r terfyn amser
- Adolygiad ar y gweill o'n Datganiad Cyfranogiad Cyhoeddus
- Dim ond 74% o gronfeydd dŵr Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n bodloni gofynion statudol

## Enghreifftiau o'n gwaith yn ystod 2018/19

### Llwyddiant Dyfroedd Ymdrochi

Mae gwneud yn siŵr fod dyfroedd ymdrochi Cymru yn ddiogel ac yn lân i bobl a bywyd gwyllt yn rhan sylweddol o'n gwaith. Yn 2018, roedd holl ddyfroedd ymdrochi Cymru yn cydymffurfio 100% â safonau'r UE am y tro cyntaf ers 2015.

Cymerir samplau o leiaf chwe gwaith yn ystod y tymor ymdrochi, sy'n

para o fis Mai tan fis Medi, a chânt eu profi i ganfod eu lefel ansawdd dŵr gyfartalog ac fe'u dosberthir yn "Rhagorol", "Da", "Digonol" neu "Gwael". Dangosodd canlyniadau 2018 fod pob un o'r 104 o safleoedd a gafodd eu monitro wedi sicrhau dosbarthiad 'Digonol', 'Da' neu 'Rhagorol'.

Bydd ein gwaith yn parhau, mewn partneriaeth ag eraill, fel bod safonau



Family -friendly forest estates

dŵr ymdrochi yn cael eu cynnal ac yn parhau i wella pan fo angen, gan gefnogi twristiaeth a gweithgareddau lleol ar hyd y morlin.

## Lansiad Diben a Swyddogaeth Lansiad Ystad Goetir Llywodraeth Cymru



Ym mis Gorffennaf 2018, cyhoeddwyd adroddiad gennym ar ddiben a swyddogaeth Ystad Goetir Llywodraeth Cymru dros y 25 mlynedd nesaf. Mae Ystad Goetir Llywodraeth Cymru yn nodwedd o dirwedd Cymru sy'n cael ei thrysori. Mae'n gorchuddio mwy na 126,000 hectar – mae hynny bron i 6% o arwynebedd tir cyfan y wlad – ac yn oddeutu 40% o goetiroedd Cymru. Mae'n gartref i amrywiaeth ryfeddol o blanhigion ac anifeiliaid, gan gynnwys rhai o'r mwyaf prin yn y DU.

Mae Ystad Goetir Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu tua 850,000 tonnall o bren y flwyddyn – gan gefnogi miloedd o swyddi yn uniongyrchol a chyfrannu at economi Cymru yn

ogystal â'n helpu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd trwy gadw carbon wedi ei storio. Rydym yn gweithio i ddatblygu potensial ynni'r gwynt a dŵr yr Ystad Goetir, sydd o gymorth pellach i leihau allyriadau nwyon tŷ gwyr.

Ac mae'n denu nifer enfawr o ymwelwyr – ar gyfer gweithgareddau antur, gwyllo bywyd gwylt, dysgu awyr agored neu fyfyrion tawel – a phopeth arall rhwng y ddau begwn fwy neu lai..

Mae'r adroddiad yn cynnwys:

- Datganiad eglur ar ddiben a swyddogaeth Ystad Goetir Llywodraeth Cymru;
- Rhestr o 10 o flaenoriaethau allweddol ar gyfer rheoli'r ystad; Trosolwg o'r ystad a'r manteision y mae'n eu cynnig;
- Trafodaeth am y prif heriau a chyfleoedd o edrych i'r dyfodol – er enghraifft o ran y newydd yn yr hinsawdd, plâu a chlefydau;
- Esboniad o sut y bydd y diben a'r swyddogaeth yn cael eu darparu,

mewn partneriaeth ag eraill, a sut y bydd cynnydd yn cael ei fonitro dros amser.

Mae cyfres o astudiaethau achos ategol yn dangos y manteision llesiant lluosog a gynhyrchir gan Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, a sut y mae'r rhain yn cyfrannu at ddarpariaeth gwaith Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy.

## Cadwyd Achrediad Safon Sicr Coetiroedd y DU

Llwyddasom i gadw ein hachrediad Safon Sicr Coetiroedd y DU eleni, sy'n golygu y gallwn farchnata ein pren fel pren o ffynhonnell gynaliadwy, ond sydd hefyd yn dangos ein bod yn Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy ar y tir yr ydym yn ei reoli.

Mae'r Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd<sup>®</sup> a'r Rhaglen Cymeradwyo Ardystio Coedwigoedd yn darparu safonau rheoli coedwig rhyngwladol, gan gynnwys meini prawf economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Safon Sicr Coetiroedd y DU yw'r safon rheoli coedwig a gymeradwyir gan y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd a'r Rhaglen Cymeradwyo Ardystio Coedwigoedd ar gyfer y DU. Mae ardystio fel mesur o reoli coedwig cynaliadwy yn cydfynd â darpariaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd

## Rheoli Cronfeydd Dŵr

Rydym yn rheoli a chynnal 40 o gronfeydd dŵr ac rydym yn gweithio i warchod diogelwch pobl, adeiladau a'r amgylchedd i lawr yr afon o'n cronfeydd dŵr rhag rhyddhad dŵr heb ei reoli o gyforgronfeydd mawr a'r canlyniadau, a allai fod yn drychinebus, a fyddai'n deillio o hynny.

Mae hwn yn faes gwaith cymharol newydd i ni ac rydym yn darparu rhaglen o waith i sicrhau bod yr holl

gronfeydd dŵr yr ydym yn eu rheoli yn cydymffurfio â Deddf Cronfeydd Dŵr 1975. Mae hyn wedi cynnwys gwaith mawr yng nghronfeydd dŵr Gwydir, ger Betws-y-coed (Llyn Cyfty, Llyn Sarnau, Llyn Goddionduon a Llyn Tynymynydd). Mae'r gwaith yn cynnwys cryfhau argloddiau, adeiladu goferydd newydd a gwella mynediad at y cronfeydd dŵr.

Ein nod yw sicrhau cydymffurfiad 100% erbyn diwedd haf 2019: yn anffodus, mae Dawnus Construction yn mynd i ddwylo'r gweinyddwyr wedi golygu bod gennym sawl prosiect heb gontractwr. Mae camau ar y gweill i benodi contractwyr eraill.

## Cydweithio i ddiogelu'r tir yr ydym yn ei reoli

Mae ein Tîm Rheoli Tir y De-orllewin yn cydweithredu â Heddlu Dyfed-Powys ac eraill i ymdrin â throseddau gwledig ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn enwedig rêfs heb eu hawdurdodi a gyrru oddi ar y ffordd anghyfreithlon gan gerbydau 4x4s a beiciau modur.

Gan weithio fel aelod craidd o ddau grŵp Partneriaeth Troseddau Gwledig, mae dull wedi ei gryfhau a mwy cydgysylltiedig yn caniatáu i ni gasglu a rhannu gwybodaeth a pharhau i wella cyfathrebiad rhwng partneriaid lleol i geisio atal y digwyddiadau hyn yn y lle cyntaf. Mae sawl gweithrediad ar y cyd, gan dargedu penwythnosau Gwyliau Banc yn arbennig, wedi galluogi ein staff a'r heddlu i gydgyssylltu eu gweithgareddau yn y cyfnod cyn y penwythnosau trwy Skype a chasglu gwybodaeth, datganiadau i'r wasg a negeseuon cyfryngau cymdeithasol. Mae ein staff hefyd 'ar lawr gwlad' yn gweithio gyda'r heddlu fin nos / dros nos i fonitro ar gyfer unrhyw weithgarwch anghyfreithlon ac rydym wedi cyflwyno mesurau 'caledu targed' mewn rhai coedwigoedd i





leihau'r posibilrwydd o weithgarwch anghyfreithlon. Mae pedwar rēf anghyfreithlon wedi cael eu hatal hyd yn hyn ac ymdriniwyd â sawl trosedd arall gan yr heddlu, y cwbl yn atal difrod i goedwigoedd, cynefin bywyd gwyllt hanfodol, a chostau trwsio a glanhau gormodol i'r trethdalwr. Mae'r camau gweithredol â phwyslais penodol hyn a chodi ymwybyddiaeth mewn cymunedau lleol wedi cael croeso cadarnhaol gan asiantaethau allanol a rhanddeiliaid.

Bydd ymarferion gweithredol ar y cyd a chyfarfodydd Partneriaeth Troseddau Gwledig yn parhau trwy gydol 2019 i sicrhau dull mwy cydgysylltiedig fyth rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a Heddlu Dyfed-Powys, gan gyfrannu gwybodaeth a gweithio gyda'n partneriaid i fynd i'r afael â phroblemau troseddau gwledig.

## Beth nesaf?

### Gofalu am ddŵr Cymru

Yn 2019/20, byddwn yn datblygu ac yn gweithredu Cynlluniau Rheoli Basnau Afon trwy ymchwilio a chamau lleol a Chymru gyfan i adfer dyfroedd, atal dirywiad a gwella eu hansawdd.

Trwy Fforwm Rheoli Tir Cymru a'i is-grŵp ar lygredd amaethyddol, byddwn yn ystyried dulliau system gyfan ar gyfer rheoli tir yn well ac yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i weithredu cyfres o fesurau i fynd i'r afael â llygredd dŵr amaethyddol, gan

gynnwys rheoleiddio, mentrau gwirfoddol ac arloesi.

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod cynlluniau busnes cwmnïau dŵr yn cyflawni canlyniadau effeithiol i'r amgylchedd a gwell perfformiad amgylcheddol

### Y tir yr ydym yn ei reoli

Ymhlith llawer o weithgareddau yn 2019/20, byddwn yn dechrau darparu ein rhaglen creu coetir newydd uchelgeisiol trwy wneud y canlynol:

- Gwella cyfradd creu coetir newydd drwy ein cynllun gweithredu
- Cychwyn ein prosiect plannu coetir newydd
- Coffáu 100 mlynedd o goedwigaeth a diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf trwy ein prosiect Plannu Canmlwyddiant
- Cynllunio a marchnata 700,000m<sup>3</sup> o bren trwy gystadleuaeth agored trwy e-werthiannau
- Buddsoddi £5.2 miliwn mewn uwchraddio strwythurau ar y tir yr ydym yn ei reoli i sicrhau rheolaeth ddiogel a chyfrifol barhaus, gan gydymffurfio â Deddf Cronfeydd Dŵr 1975
- Datblygu a mynd ar drywydd cyfleoedd ar gyfer ynni adnewyddadwy, fel ffermydd gwynt, ynni'r haul, ynni dŵr, storio batris a pharciau ynni

# Amcan Llesiant 3

Gwella cydnerthedd ac ansawdd ein hecosystemau  
Nododd ein Hadroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2016 na fydd llawer o ecosystemau yn ddigon hyblyg i ymdrin â'r newid yn yr hinsawdd a phwysau eraill yn y dyfodol ac felly efallai na fyddant yn gallu darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen arnom – fel aer a dŵr glân. Rydym yn dynodi safleoedd arbennig fel Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, er enghraifft – ond mae ein gwaith yn llawer ehangach na hyn. Ein nod yw cymryd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau i ystyriaeth yn ein holl swyddogaethau, gweithgareddau a phenderfyniadau a helpu cyrff cyhoeddus eraill i wneud yr un fath.

## Ein mesurau

- Gweithredu 'Natur Hanfodol' – adfer, creu a gwella cynefinoedd a gwellabioamrywiaeth
- Datblygu cydnerthedd ecosystemau trwy wella statws cadwraeth y nodweddion ar safleoedd gwarchodedig gan weithio gyda'n partneriaid
- Cynlluniau adfer afonydd a chysylltedd a chynefin pysgodfeydd
- Monitro a mynd i'r afael â phroblemau iechyd coed a phlanhigion

## Canlyniadau 2018/19

- Lansiodd Natur Hanfodol
- Crëwyd hyfforddiant a chanllawiau bioddiogelwch i staff Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cwblhawyd 87% o'n rhaglen waith flynyddol i wella statws cadwraeth nodweddion safleoedd gwarchodedig
- Comisiynwyd 5 o 8 o gynlluniau adfer afonydd a gynlluniwyd
- Rydym yn parhau i weithredu strategaeth Llywodraeth Cymru, Phytosphoraramorum: Strategaeth ar gyfer Cymru

## Engbreiffiau o'n gwaith yn ystod 2018/19

### Natur Hanfodol

Mae ein llesiant a llesiant cenedlaethau'r dyfodol yn dibynnu'n llwyr ar yr amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth. Yn llythrennol, ni allwn fyw hebddynt. Hefyd, mae gan fioamrywiaeth ei gwerth cynhenid ei hun yn ogystal â bod yn hanfodol i lesiant pobl.

Ym mis Gorffennaf 2018, lansiodd Natur Hanfodol: Gwneud y cysylltiadau rhwng bioamrywiaeth, y bobl a'r lleoedd yng Nghymru – ein Llyw Strategol ar gyfer Bioamrywiaeth. Rydym yn nodi ynddo sut yr ydym yn dymuno cysylltu pobl a bioamrywiaeth,



ymsefydlu ystyriaeth o fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau ar draws ein holl waith, gwella ein dull o ymdrin â safleoedd gwarchodedig, a gweithio ag eraill i gynnal a gwella bioamrywiaeth.

Ers ei lansio, defnyddiodd Natur Hanfodol fel sail a chatalydd ar gyfer trafodaethau gyda staff a rhanddeiliaid Cyfoeth Naturiol Cymru i fwrw ymlaen â'n agenda bioamrywiaeth a datblygu cyd-ddealltwriaeth well o'r hyn y mae angen ei wneud i'w chyflawni. Trwy ein proses Cynllunio'r Sefydliad, rydym wedi cyflwyno gwell strwythurau a systemau llywodraethu i droi'r ymrwymadau a'r camau lefel uchel a fynegwyd yn Natur



Hanfodol yn bethau gwirioneddol i'w cyflawni yn ein cynlluniau busnes a chyflawni blynyddol, sy'n ceisio bodloni ein Hamcanion Llesiant a'n cynllun adran 6 felly.

Rydym yn cynnwys ac yn cydweithredu â phartneriaid bellach i ddatblygu camau i gyflawni'r blaenoriaethau hyn yn ein cynlluniau gwaith ein hunain. Mae bioamrywiaeth yn parhau i ddirywio. Mae ein Hadroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol wedi nodi nad oes unrhyw ecosystem yng Nghymru ar hyn o bryd yr aseswyd bod ganddi gydnerthedd da ac ni fydd llawer yn ddigon hyblyg i ymdrin â phwysau, sy'n cynnwys y newid yn yr hinsawdd ac effaith rhywogaethau estron goresgynnol. Oni bai y gallwn atal a gwrthdroi'r dirywiad hwn a chynyddu cydnerthedd ein hecosystemau, bydd ein llesiant ni a llesiant cenedlaethau'r dyfodol yn dioddef.

## Prosiect Cyforgorsydd LIFE



Rydym wedi ymgymryd â phrosiect pwysig i warchod cynefin prin, gan ymladd y newid yn yr hinsawdd a gwella ansawdd dŵr.

Mae cyforgorsydd wedi cael eu newid gan ganrifoedd o dorri mawn a draenio. Nawr, gyda chyllid LIFE yr UE, gall Cyfoeth Naturiol Cymru weithio gydag eraill i wella eu cyflwr fel bod cyforgorsydd Cymru yn parhau i greu mawnog newydd a storio mwy o garbon.

Bydd y prosiect LIFE ar gyfer Cyforgorsydd Cymru gwerth pedair miliwn o bunnoedd yn adfer dros 900 hectar, neu tua 3.5 milltir sgwâr o gyforgors - rhai o gynefinoedd mwyaf prin a phwysig Cymru. Mae'r ymgyrch i'w hadfer yn cynnwys eu hailwlychu, torri rhywogaethau ymledol, cael gwared ar brysgwydd a chyflwyno pori





ysgafn – y cwbl mewn partneriaeth â chymunedau lleol, tirfeddianwyr a chontractwyr.

Bydd y prosiect yn gwella cyflwr saith o'r cyforgorsydd pwysicaf yng Nghymru, gan gynnwys Cors Fochno a Chors Caron yng Ngheredigion. Bydd gwaith adfer hefyd yn cael ei wneud ar safleoedd ger Trawsfynydd, Abergwaun, Crosshands, Crucywel a Llanfair-ym-Muallt. Mae'r safleoedd hyn yn gartref i blanhigion ac anifeiliaid prin, gan gynnwys gweirlöyn mawr y waun a'r rhosmari gwyllt eiconig. Bydd adfer yn helpu i frwydro'r newid yn yr hinsawdd drwy storio llawer iawn o garbon a gwella ansawdd dŵr mewn afonydd lleol. Ac maent yn lleoedd gwych i ymweld â nhw i fwynhau natur a manteision fod yn egniol yn yr awyr agored.

## Cydbwyso ein penderfyniadau

Gall ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy i sicrhau'r manteision mwyaf posibl tuag at gyflawni nodau llesiant Cymru fod yn her ond yn un lle'r ydym yn ceisio defnyddio ein swyddogaethau lluosog i sicrhau'r cydbwysedd bregus o reoli'r amgylchedd yn cael ei sicrhau. Rydym yn ymdrechu i ddefnyddio'r dystiolaeth fwyaf cyfredol a safbwyntiau cymaint o grwpiau rhanddeiliaid ag y gallwn wrth wneud penderfyniadau, er ein bod yn gwybod bod safbwyntiau yn aml yn groes i'w gilydd.

Rydym wedi gweld heriau i'n penderfyniadau eleni:

- Sefydlwyd Ymchwiliad Lleol gan Arolygiaeth Cynllunio Cymru ar ran Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2019 i ystyried ein cynnig i Lywodraeth Cymru i weithredu is-ddeddfau pysgota newydd a fyddai'n atal yr hawl i ddal a rhyddhau eogiaid a sewin ledled Cymru. Mae trefniadau cyfredol wedi cael eu hymestyn tan gasgliad yr ymchwiliad.

- Sefydlwyd achos Adolygiad Barnwrol yn herio'r broses a ddilynwyd wrth wneud ein hargymhelliad i beidio ag adnewyddu lesioedd ar gyfer hawliau saethu fferantod ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru yn dilyn llyw gan Weinidog yr Amgylchedd ar safbwynt Llywodraeth Cymru fel trefeddiannydd yr ystad yr ydym yn ei rheoli.
- Cafodd cam tri Cynllun Lliniaru Llifogydd y Rhath yng Nghaerdydd ei oedi oherwydd gwrthwynebiad lleol sylweddol i gynlluniau i gael gwared ar goed lleol a chamau i gynnal adolygiad annibynnol o'n gwaith ar y cynllun.

Ni wnaed y penderfyniadau hyn ar chwarae bach, ond fel cynghorydd, rheoleiddiwr a rheolwr tir rydym yn mabwysiadu dull seiliedig ar dystiolaeth o ymdrin â'n holl weithgareddau ac mae'n rhaid i ni geisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn unol â'n diben craidd. Yn y dyfodol, rydym yn gwybod bod angen i ni wneud mwy gyda rhanddeiliaid lleol i sicrhau bod dealltwriaeth o dystiolaeth a gofynion ein penderfyniadau ond hefyd i'w cynnwys cymaint â phosibl yn y broses o wneud penderfyniadau.

## Cael gwared ar rwystrau i gysylltedd

Er mwyn gwella ymfudiad pysgod ar afon Taf, gwnaed gwaith i gael gwared ar gored Ynysowen, yn Aber-fan yn y de-ddwyrain, gan adeiladu sianel llif isel a gosod gwaith amddiffyn glannau i sicrhau y byddai potensial cynefin rhannau uchaf y cwrs dŵr yn cael ei wireddu'n llawn.

Gwnaed buddsoddiad sylweddol i fynd i'r afael â rhwystrau i lwybrau pysgod ymfudol sy'n bresennol ar afon Taf dros y degawd diwethaf. Mae hyn yn cynnwys llwybr pysgod mawr ar gored canol tref Merthyr Tudful a

Ilwybrau pysgod ar gored Llandaf, cored Blackweir a chored Radur yng Nghaerdydd. Cored Ynysowen oedd y rhwystr mawr olaf ar yr afon a chaniataodd y cam o fynd i'r afael â hi i rannau uchaf afon Taf ddod yn gwbl hygyrch i bob rhywogaeth pysgod am y tro cyntaf mewn tua 200 mlynedd. Ailgyflwynodd y prosiect gysylltedd yr afon ac mae llwybr gwell yn bosibl bellach i bysgod ymfudol symud heb rwystr o Gaerdydd i fyny i Ferthyr Tudful a'r tu hwnt. Yn rhan o'n gwaith, cynorthwywyd y gymuned leol hefyd trwy wella'r llwybr nesaf at yr afon a darparwyd cyllid gennym i wella rhywfaint o dir nesaf at yr afon ar gyfer defnydd amwynder lleol. Mae'r gwaith hwn yn cefnogi adfywiad de-ddwyrain Cymru, gan helpu i wella cydnerthedd amgylcheddol ac uchelgeisiau cymunedol ac economaidd yr ardal.

## Beth nesaf?

### Gwrthdroi'r dirywiad i fioamrywiaeth

Ein pwyslais yn 2019/20 fydd ymsefydlu ein llyw strategol Natur Hanfodol ar gyfer bioamrywiaeth ar draws ein swyddogaethau i ysgogi gwrthdroad i'r dirywiad i fioamrywiaeth a helpu cyrff cyhoeddus eraill i wneud yr un fath. Yn benodol trwy:

- Ddefnyddio cyllid Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol ychwanegol (£0.3 miliwn ar hyn o bryd) i ddarparu'r rhaglen flynyddol o gamau blaenoriaeth o gynlluniau rheoli gwarchodfeydd, gan gynnwys rheoli cadwraeth hanfodol
- Gweithredu canlyniad yr ymchwiliad lleol i gyflwyno Is-ddeddfau Pysgota i hybu adferiad poblogaethau o eogiaid yn ein dyfroedd croyw ochr yn ochr â'n gwaith i hybu rheoli tir gwell mewn dalgylchoedd agored i niwed
- Darparu £2 filiwn arall i gynorthwyo camau yn darparu manteision ar gyfer bioamrywiaeth a datblygu cydnerthedd ecosystemau trwy ein mecanweithiau grantiau.



Gwaith cadwraeth hanfodol ar dir CNC

# Amcan Llesiant 4

## Lleihau'r risgiau i bobl a chymunedau gan beryglon amgylcheddol megis llifogydd a llygredd

Rydym yn darogan, monitro a rhoi cyngor ynglŷn â'r tebygolrwydd o lifogydd ac, yn ogystal â datblygu cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd, yn cynorthwyo cymunedau lleol i leihau eu risgiau. Yn yr un modd, rydym yn rheoleiddio safleoedd diwydiannol a safleoedd gwastraff a rhoi cyngor iddynt, i leihau'r tebygolrwydd y bydd llygredd yn cyrraedd yr amgylchedd naturiol ehangach – ac, wrth gwrs, rydym yn ymateb i ddigwyddiadau amgylcheddol sy'n digwydd er gwaethaf ein hymdrechion gorau. Gangeisio bod yn gadarn ond yn deg, byddwn yn ymchwilio i ddigwyddiadau a defnyddioein holl amrediad o bwerau i fynd i'r afael â throseddau amgylcheddol pan fydd angen.

## Ein mesurau

- Cyflawni gwasanaeth effeithiol ac effeithlon ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau
- Cynnal 99% o asedau rheoli perygl llifogydd CNC mewn lleoliadau perygl uchel yn eu cyflwr targed
- Rhaglen Gyfalaf Rheoli Risg Llifogydd
- Mynd i'r afael â throseddu amgylcheddol fel bygythiad i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy
- Effaith safleoedd diwydiant a gwastraff

## Canlyniadau 2018/19

- Rydym yn asesu ac yn ymateb i ddigwyddiadau o fewn ein meini prawf dosbarthu, fodd bynnag mae yna broblem yn y system o ran adrodd sydd angen newidiadau yn 2019/20.
- Cafodd 97% o'n hasedau rheoli perygl llifogydd mewn lleoliadau perygl uchel eucynnal yn eu cyflwr targed
- Mae 1,541 eiddo nawr yn elwa ar lefel gyson o amddiffynfeydd rhag llifogydd oherwydd ein gwaith cynnal a chadw cyfalaf.
- Rydym yn parhau i ddatblygu ein prosesau gorfodi a rhannu ein blaenoriaethau gorfodi gyda phartneriaid gorfodi allweddol.
- Mae gwaith y parhau i sicrhau cydymffurfio amgylcheddol gyda nifer cynyddol o safleoedd gwastraff a diwydiant sy'n perfformio'n wael.

## Engreifftiau o'n gwaith ni yn ystod 2018/19

### Gwella ein hymgysylltiad lleol

Daeth risgiau iechyd posibl i drigolion lleol i'r amlwg eleni yn sgil y gwaith hysbys o waredu gwaddodion ger Bae Caerdydd o waith yn gysylltiedig ag adeiladu gorsaf bŵer Hinkley 'C' yng Ngwlad yr Haf. Roedd y pryderon hyn hefyd yn ymwneud â'n rôl i gynnwys

a hysbysu cymunedau o'r risgiau amgylcheddol posibl y maent yn eu hwynebu.

Wrth gyflwyno'r drwydded forol yn 2014, roedd yn rhaid i ddeiliad y drwydded samplu'r gwaddodion a'u profi yn unol â safonau rhyngwladol. Roedd hyn yn cynnwys profion



cemegol a radiolegol a barnwyd bod y gwaddodion yn ddiogel i'w gwaredu ac na fyddent yn beryglus i bobl na'r amgylchedd. Roedd trigolion lleol a grwpiau gweithredu yn bryderus iawn pan ddechreuodd y gwaith yn 2018 ac ym mis Hydref, rhoddwyd Cyfarwyddyd Gweinidogol i CNC i gynnal mwy o waith ymgysylltu a chyfathrebu ynghylch y mater.

Wedi i ni adolygu ein gweithgareddau, rydym yn cydnabod bod disgwyliadau'r cyhoedd o ran cyfranogi yn uwch o lawer nawr nag yr oeddynt chwe blynedd yn ôl pan ystyriwyd y cais yn wreiddiol. Felly mae angen i sefydliadau cyhoeddus, gan gynnwys ni, ymateb i'r galw am fwy o ryngweithio a chyfathrebu mewn cysylltiad â materion lleol. Byddwn yn defnyddio'r argymhellion o'n hadolygiad i edrych ar gynnwys mwy o ymgysylltu a chydweithredu â thrigolion lleol a phartneriaid, er enghraifft grwpiau ffocws a mwy o wybodaeth hygyrch, ymhob cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu sy'n gysylltiedig â thrwyddedau tebyg yn y dyfodol.

## Lleihau'r risg o lifogydd i bobl ac eiddo



Mae cymhwyso ein hegwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy mewn perthynas â Rheoli'r Risg o Lifogydd yn hanfodol wrth gymryd camau ataliol nawr ar gyfer lles Cymru yn y tymor hir. Mae lleihau'r risg o lifogydd i bobl ac eiddo yn rhan greiddiol o'n gwaith a gwnawn hynny drwy ein rhaglen gyfalaf Rheoli Risg Llifogydd.

Yn 2018/19, gwnaethom leihau'r risg o lifogydd yn llwyddiannus i 591 eiddo ym Mhontarddulais, Pont Robin (Rhuddlan) a'r Rhath. Mae ein prosiectau cynnal a chadw cyfalaf yn cynnig gwarchodaeth i dros 1500 eiddo mewn lleoliadau fel Ffynnon Taf, Llanbadarn, Aberystwyth, Trefynwy a Chaerffili. Gwnaethom barhau gyda gwaith adeiladu mawr yng Nghrindau, Llanfair Talhaearn a Chornel Friog, a datblygu gwaith i'r dyfodol mewn lleoliadau fel Llyn Tegid, Rhydaman, Stephenson Street, Aberafon Dyfi a Dyffryn Conwy, gan sicrhau bod ein cynllun tymor canolig ynparhau i symud ymlaen.



Mae ein rhaglen modelu yn sylfaen i'n cynllun tymor canolig a bu hyn yn parhau i ddatblygu prosiectau ledled y wlad, gan alluogi cynlluniau posibl i ddatblygu dros y tymor canolig mewn lleoliadau sy'n uchel ar y Gofrestr Cymunedau mewn Perygl (fel Llyswry Pill (Casnewydd), Rhyl a Phrestatyn) yn ogystal â lleoliadau sydd wedi'u heffeithio gan lifogydd yn ddiweddar fel Llangefni a Dwyran ar Ynys Môn.

Llynedd, gwnaethom hefyd

- greu 55 hectar o gynefin cynllun gweithredu bioamrywiaeth, gan ragori ar ein targed cychwynol o 30 hectar, ac aethom ymlaen i ddatblygu prosiectau ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod. Mae'r cynlluniau yn cynnwys
  - cau ffosydd ac adfer mawndiroedd ym Mryn Egan, Eryri;
  - datblygu ein dealltwriaeth o Reoli Perygl Llifogydd yn Naturiol yn Ffrwd Wylt, Port Talbot;
  - creu system o wlybtiroedd sy'n gweithio yn Afon Merin, Ceredigion; a
  - adolygu ein gofynion monitro gwasgfa arfordirol.
- datblygu gwelliannau i Systemau TGCh Rheoli Perygl Llifogydd fel Lefelau Afonydd Ar-lein, AMX, ein System Rhybudd Llifogydd ac Amcangyfrif Amllder Llifogydd Cymru.
- parhau i ddatblygu uwchraddiad allweddol o'n System Delemetreg yn ogystal â chyflwyno system Aseu Bygythiad Llifogydd Cymru.

## Ymateb i Danau Fforestydd

Gall tanau gwyllt fod yn beryglus iawn i drigolion yr ardal, ein swyddogion, y diffoddwyr tân sy'n gorfod eu tacllo, a bywyd gwyllt lleol. Yn haf 2018, bu i danau ddiffeithio Twmbarlwm yng nghoedwig Cwmcarn dros daith wythnos gan ddinistrio 250 hectar o goetir, yr un maint yn fras â 250 o gaeau rygbi.

Cafodd hofrenyddion, drôns, peiriannau cloddio a thractorau eu defnyddio fel rhan o ymateb amlasiantaethol a oedd yn cynnwys CNC, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a Heddlu Gwent. Bu staff CNC yn gweithio am oriau maith yn torri strimynnau atal tân o amgylch yr ardaloedd dan sylw, gan gynorthwyo diffoddwyr tân o Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru a fu'n tacllo'r tân ei hun.

Achosodd hyn lawer o niwed amgylcheddol gan ddinistrio degau o filoedd o goed a oedd newydd eu plannu, gan ddadwneud blynyddoedd o waith a buddsoddiad. Roedd ardaloedd mawr yn cael eu hailblannu gyda choed llydanddail brodorol a chonwydd ar gyfer cynhyrchu pren, yn dilyn gwaith cwmpo coed ar raddfa fawr i daclo lledaeniad y clefyd llarwydd. Yn ôl pob tebyg, fe fyddai unrhyw fywyd gwyllt a oedd ar lwybr y tân wedi'i ladd ac fe fyddai eu cynefinoedd a'u ffynonellau bwyd wedi'u dinistrio. Fe allai poblogaethau rhai mathau o blanhigion ac anifeiliaid gymryd blynyddoedd i adfer.

Gwyddom hefyd pa mor bwysig yw'r holl ardal i drigolion lleol sy'n ei defnyddio i ymlacio a gwneud ymarfer corff. Caewyd y safle hyd nes yr oeddem wedi archwilio'r llwybrau troed a'r llwybrau beicio i gyd, ac er ein bod wedi'u hail-agor erbyn hyn, bydd y tân hwn yn cael effaith economaidd enfawr ar fusnesau'r ardal, twristiaeth a'r pwrs cyhoeddus wrth i ni geisio ail-adeiladu ailblannu a gwneud iawn am golledion 2018.

Byddwn yn parhau gyda'n gwaith, ond yn ddi-os mae'r tân hwn wedi arwain at gam enfawr yn ôl yn hanes coedwig Cwmcarn a'n hymdrechion ail-blannu. Ond byddwn yn siarad gyda'r gymuned i weld sut y gallwn ei chynnwys yn y gwaith o blannu coetir newydd a'n helpu i ddal fyny.

## Ymateb i dywydd eithafol

Mae ymateb i ddigwyddiadau llifogydd difrifol a allai beryglu bywyd, a rhoi gwybod i eraill amdanynt, yn rhan greiddiol o'n rôl fel ymatebwr Categori 1 yn unol â'r Ddeddf Argyfyngau Sifil. Daeth Storm Callum â gwyntoedd cryfion a glaw trwm a pharhaus drwy Dde Cymru ym mis Hydref a barodd i lefelau afonydd lleol godi'n sydyn. Yn ei anterth, cyhoeddwyd 35 Rhybudd Llifogydd a 42 Rhybudd - Byddwch yn Barod. Cafwyd dros 200mm o lawiad mewn 60 awr dros fryniau De Cymru, sy'n sylweddol ogofio mai'r glawiad cyfartalog misol i fis Hydref yw tua 150mm.

Roedd ein timau ymateb brys allan yn gwirio bod amddiffynfeydd llifogydd yn gweithio'n iawn, yn clirio gyliau a ffosydd ac yn gosod amddiffynfeydd dros dro i warchod cymunedau cymaint â phosibl. Dan do, bu staff yn brysur yn cynnal ein systemau rhagfynegi a monitro hanfodol, ynghyd â diweddarau ein gwefan, ac ymgysylltu â'r cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol. Edrychwyd ar dudalennau llifogydd ein gwefan hanner miliwn o weithiau, a chyrhaeddodd ein negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol dros 110,000 o bobl, gyda 20,000 yn ymgysylltu â'r negeseuon hynny (hoffi / rhannu / cynnig sylwadau ac ati).

## Cadw'n ddiogel yn yr amgylchedd naturiol

Mae cadw'r cyhoedd, ein staff a chontractwyr yn ddiogel wrth iddynt fyw eu bywydaua chyflawni eu gwaith yn gyfrifoldeb y byddwn yn ei gymryd o ddifrif. Dyma pam ein bod yn gweithio gyda chymunedau ac awdurdodau lleol cyn, yn ystod ac yn dilyn prosiectau mawr i leihau amharu ar eraill.

- Eleni, yn dilyn wyth mis o orfod rheoli traffig a chau'r ffordd ar

adegaau, rydym wedicwblhau prosiect Gwaith Coed a Sefydlogi Llechwedd Bont Evans a oedd yn golygu cael gwared ar rai coed pinwydd Douglas mawr iawn a sefydlogi'r llechwedd ar hyd cefnffordd yr A487 ger Ceinws, i'r gogledd o Fachynlleth. Mae'r coed yn yr ardal hon yn mynd yn fwyfwy ansefydlog oherwydd eu hoedran, uchder, pwysau, cyflwr, patrymau tyfu, gwyntoedd uchel, a natur serth y safle. Roedd y perygl o goed a malurion yn disgyn ar y ffordd yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, a gallai arwain at gau ffyrdd heb gynllunio hynny ac o bosibl, damwain fawr.

- Rydym hefyd wedi ailagor llwybrau a llwybrau troed hynod boblogaidd gyda'r cyhoedd yn Fforest Fawr ger Caerffili yn dilyn gwaith sylweddol dros 18 mis i gael gwared â choed llarwydd heintiedig. Mae tua 4,000 o goed llarwydd wedi'u tynnu o ardal 25 hectar o'r goedwig. Bydd y goedwig nawr yn cael ei monitro wrth iddi ddod at ei hun, a disgwyliwn weld y rhywogaethau coed brodorol sydd ar ôl yn adfywio'n naturiol i ailgyflenwi'r ardaloedd lle cafodd y coed eu cwmpo.

## Beth nesaf?

Flwyddyn nesaf, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â gweithgaredd gwastraff anghyfreithlon fel rhan o waith cydymffurfio effeithiol â rheoliadau gan weithio ag eraill i gefnogi cymunedau sy'n dioddef a busnesau cyfreithlon.



# Amcan Llesiant 5

## Helpu pobl i fyw bywydau mwy iach a bodlon

Yn ogystal â darparu amrediad eang o gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden ar y tir rydym ni ein hunain yn ei reoli, rydym yn gweithio gyda phartneriaid i annog pobl i ddefnyddio'r awyr agored ledled Cymru a gwella eu hiechyd a'u llesiant. Rydym yn cefnogi prosiectau cymunedol ac yn helpu pobl i ddysgu am werth yr amgylchedd naturiol, ei bwysigrwydd mewn bywyd o ddydd i ddydd, a'i ran yn niwylliant a threftadaeth Cymru.

## Ein mesurau

- Datblygu mesurau ar y cyd â Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Datblygu a lansio ein cynllun lleoliadau Cyfle erbyn Mawrth 2019
- Hybu hamdden yn yr awyr agored gan arwain at gynnydd yn nifer yr ymwelwyr â Llwybr Arfordir Cymru a'r Llwybrau Cenedlaethol
- Gweithredu ar ansawdd aer

## Canlyniadau 2018/19

- Mae mesurau ar y cyd â Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru wrthi'n cael eu datblygu
- Lanswyd ein cynllun lleoliadau newydd, sy'n cefnogi: prentisiaethau, myfyrwyr o bob lefel, ymchwil a gwirfoddolwyr
- Cytunwyd ar Strategaeth Hybu a Chynllun Gweithredu Llwybr Arfordir Cymru
- Lanswyd Pecyn Cymorth Busnes Llwybr Arfordir Cymru
- Rydym yn cyfrannu at gamau gwella ansawdd aer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Casnewydd a Chastell-nedd Port Talbot
- Rydym yn gweithio â 6 ysgol gynradd yng Nghaerdydd i wella ansawdd aer yn eu hardal

## Enghreifftiau o'n gwaith ni yn ystod 2018/19:

### Cydweithio i gynnal ein hamgylchedd naturiol



Mae ymgysylltu â'r amgylchedd naturiol a dysgu amdano yn elfen allweddol o ran gwneud yr hyn a allwn i helpu sicrhau Cymru iachach. Rydym bob amser yn ceisio cysylltu ein gweithredoedd arferol gyda chyfleoedd i gynnwys cymaint o bobl ag y gallwn.

Gwyddom fod ailblannu coed derw yn yr ardaloedd y cawsant eu casglu fel mes yn golygu eu bod yn gweddu'r amodau lleol ac o fudd mawr i'r bywyd gwyllt lleol. Mae ein prosiect Miri Mes Blyneddol yn rhoi cyfle i bobl fynd allan a dysgu am ein hamgylchedd naturiol, wrth helpu i'w warchod ar yr un pryd

drwy gasglu mes i ni ein defnyddio yn eu cynlluniau ailblannu yn y dyfodol.

Eleni, casglodd ysgolion a grwpiau cymunedol eraill 500kg o fes sy'n ddigon i blannu 115 o gaeau pêl-droed gyda choed derw. Mae'r mes hyn wedi'u gyrru i feithrinfa'r Comisiwn Coedwigaeth yn Swydd Gaer lle byddant yn tyfu'n lasbrennau cyn i ni eu hailblannu yng nghoetiroedd a choedwigoedd Cymru. Gwyliwch ein fideo ar You Tube i weld beth wnawn ni gyda'r mes a gasglwyd, a sut fydd prosiect Miri Mes yn cyfrannu at raglen CNC o blannu tua 4 miliwn o goed, sy'n cynnwys 35 rhywogaeth o goed conwydd a llydanddail, yng Nghymru eleni.

## Mynediad i'r awyr agored



Cydnabyddir fwyfwy fod cael mynediad i'r awyr agored yn ffordd i bobl helpu eu hunain i ofalu am eu hiechyd corfforol a meddyliol a'u lles. Eleni, rydym wedi canolbwyntio ar greu deunyddiau i helpu pawb fwynhau'r awyr agored a'r safleoedd yr ydym yn eu rheoli.

- Gwnaethom lansio gwefan newydd sbon Llwybr Arfordir Cymru sy'n amlygu'r llwybr 870 milltir o gyrion Caer i Gas-gwent ac sy'n rhannu dolenni i'r gweithgareddau, llety a busnesau lleol sy'n gallu ychwanegu at yr ymweliadau ar hyd y llwybr a helpu pobl i fanteisio i'r eithaf ar y llwybr gwych hwn.
- I helpu gydag ymgyrch Blwyddyn y Môr Croeso Cymru, gwnaethom gyhoeddi ein taflen Deg o leoedd arbennig ger y Môr, sy'n dewis deg lle arbennig y gofalwn amdanynt o amgylch morlin Cymru i bobl eu harchwilio. Yn eu plith mae cymysgedd o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol gyda thwyni tywod, coedwigoeddger traethau ac unig Barth Cadwraeth Morol Cymru. Ym mhob lle, mae llwybrau cerdded

a phaneli gwybodaeth sy'n helpu ymwelwyr i fanteisio i'r eithaf ar ymweliad gan gynnwys cyfle i fwynhau crwydro'r arfordir ar ddwy olwyn ar y llwybrau beicio yng Nghoedwig Niwbwrch.

## Plannu ein dyfodol



Mae creu coetir yn ffordd syml i helpu pawb gysylltu gyda'n hamgylchedd naturiol. Eleni, rydym wedi dathlu degfed pen-blwydd cynllun Plant! sef menter plannu coed i blannu coeden lydanddail am bob plentyn sy'n cael ei eni neu ei fabwysiadu yng Nghymru. Daeth y syniad gwreiddiol gan ferch ysgol a ysgrifennodd at ei Aelod Cynulliad yn awgrymu y byddai plannu coeden yn ffordd dda o wneud i bobl feddwl am eu hamgylchedd a sut y gallant helpu i ofalu amdano, ac ers 2008, rydym wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i greu 15 o goetiroedd newydd ledled Cymru a phlannu mwy na 380,000 o goed.

Mae pob babi'n cael tystysgrif yn fuan ar ôl iddynt gael eu geni neu eu mabwysiadu yn dweud bod coeden wedi ei phlannu ar eu cyfer, a chânt wybod lleoliad y coetir sy'n cynnwys eu coeden nhw.



Plannu coed derw, prosiect Miri Mes



## Datblygu a rhannu sgiliau a phrofiad



Fel sefydliad, rydym wedi ymrwymo i helpu datblygu gweithlu medrus i Gymru, gan helpu'r rhai sy'n dychwelyd i fyd gwaith yn ogystal â datblygu sgiliau a phrofiad ar gyfer y dyfodol. Eleni rydym wedi adolygu a lansio dull gweithredu newydd o safbwynt lleoliadau gwaith sy'n gysylltiedig â'n gwaith.

Mae cymryd rhan mewn lleoliadau yn gwneud cyfraniad sylweddol i lwyddiant ein sefydliad wrth roi cyfle hefyd i bobl ennill sgiliau gwerthfawr a rhannu profiad ac arbenigedd. Bydd hefyd yn galluogi eraill i hyrwyddo rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol ac ecosystemau ynghyd â'u buddion a gwerth.

Mae ein tudalen gwe newydd nawr yn rhoi gwybodaeth am leoliadau â thâl i brentisiaethau ac ymgeiswyr addysg uwch yn ogystal â chyfleoedd lleoliadau di-dâl ar gyfer lleoliadau gwaith cyffredinol, profiad gwaith i fyfyrwyr, ymchwil a gwirfoddolwyr.

## Beth nseaf?

Flwyddyn nesaf, byddwn yn canolbwyntio ar wella iechyd a llesiant trwy ddefnyddio ein hamgylchedd naturiol, trwy weithio ar draws ein swyddogaethau a'r tir a'r dŵr a reolwn i:

- Paratoi arweiniad strategol ar seilwaith gwyrdd, tirwedd a chreu lleoedd a sefydlu rhaglen seilwaith gwyrdd.
- Datblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ar hyrwyddo deilliannau iechyd yn yr amgylchedd a gweithio mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chwaraeon Cymru i fynd i'r afael â lefelau anweithgarwch corfforol yng Nghymru.
- Datblygu Polisi Strategol ar gyfer Gwella Iechyd a Llesiant..
- Buddsoddi £1.7m mewn gwaith partneriaeth i wireddu Rhaglen Llwybr Arfordir Cymru a Rhaglen Llwybrau Cenedlaethol; cynghori ar fuddion y rhaglenni.
- Datblygu a gweithredu ein Cynllun Teithio Egniöl a Chynaliadwy, gan gynnwys camau i ennill achrediad "Cyflogwr Ystyriol i Feicwyr", ac i gynyddu dewisiadau teithio egniöl a chynaliadwy i staff wrth iddynt gymudo a theithio ar fusnes.





# Amcan Llesiant 6

## Hyrwyddo busnesau llwyddiannus a chyfrifol sy'n defnyddio adnoddau naturiol heb eu difrodi

Rydym am i Gymru gael ei gweld fel lle gwyd i wneud busnes, gan groesawu twf gwyrdd, sectorau newydd, ymchwil ac arloesedd. Yn ogystal ag ein gweithgareddau masnachol ein hunain, rydym am annog busnesau i ddefnyddio adnoddau mewn ffordd effeithlon a gweithio tuag at economi gylchol. Rydym yn defnyddio ein pwerau rheoleiddiol – trwyddedu a monitro i wirio cydymffurfiaeth a gorfodi – i amddiffyn yr amgylchedd naturiol ac i sicrhau nad yw busnesau cyfreithiol yn cael eu tanseilio

## Ein mesurau

- Incwm masnachol (cefnogi Rheoli Adnoddau Naturiol yn gynaliadwy; datblygiad tymor hir)
- Rhaglen Ynni Adnewyddadwy
- Ymgynghori ar gynllunio (ymateb & ansawdd/bodddhad)

## Canlyniadau 2018/19

- Gwnaethom dderbyn £26.3m o werthu pren o'r Ystâd Goed
- Mae prosiect ynni gwynt 57.4 megawat Gorllewin Coedwig Brechfa bellach yn gwbl weithredo
- Mae'r gwaith o osod tyrbinau yng Nghoedwig Clocaenog ar y gweil
- Ymatebwyd i 97% o ymatebion i ymgynghoriadau cynllunio statudol o fewn yr amserlen y cytunwyd arni

## Enghreifftiau o'n gwaith yn ystod 2018/19

### Wylfa Newydd

Mae gweithio gyda phrosiectau seilwaith mawr ledled Cymru a'u heffaith ar yr amgylchedd naturiol yn rhan arall sylweddol o'n rôl. Un o'r prosiectau mwyaf yn y blynyddoedd diwethaf yw Gorsaf Bŵer Niwclear Wylfa Newydd yn Ynys Môn. Mae CNC, a'n cyrff etifeddol, wedi bod yn gweithio gyda Horizon Nuclear Power, datblygwr prosiect gorsaf bŵer newydd Wylfa Newydd, ers 2010. Roedd y prosiect £12 biliwn yn gobeithio adeiladu dau Adweithydd Dŵr Berw Uwch ger y safle presennol lle daeth cynhyrchu pŵer i ben yn 2015. Byddai'r rhain yn cynhyrchu 2900 megawat o drydan i'r Grid Cenedlaethol mewn cymhariaeth â'r 980 megawat a gynhyrchai'r orsaf wreiddiol.

Byddai'r rhain yn cynhyrchu 2900 megawat o drydan i'r Grid Cenedlaethol mewn cymhariaeth â'r 980 megawat a gynhyrchai'r orsaf wreiddiol.

Yn dilyn trafodaethau cyn-ymgeisio dwys dros gyfnod o flynyddoedd, gwnaethom dderbyn ar 1 Mehefin 1 2018, Gais Cynllunio Horizon (Gorchymyn Cydsyniad Datblygu) i'r Arolygiaeth Gynllunio a Cheisiadau Trwydded Amgylcheddol a Thrwydded Forol i CNC. Daethom i gytundeb ariannol gyda datblygwyr i sicrhau fod gennym yr adnoddau a'r gwytnwch technegol priodol i gefnogi'r prosiect. Roedd gennym 18 o staff cyfwerth ag amser llawn yn gweithio ar y prosiect, a 30+ o arbenigwyr technegol yn eu cefnogi hwythau.

Mae'r penderfyniad ar ddechrau 2019 i roi'r gorau i'r cynlluniau yn Ynys Môn yn golygu bod Horizon wedi tynnu nôl holl geisiadau am drwyddedau gan CNC ac eithrio'r ddau sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag adeiladu'r safle - y Drwydded Fodol ar gyfer adeiladu cyfleusterau dadlwytho a'r harbwr a'r Drwydded Amgylcheddol sy'n ymwneud â gollyngiadau dŵr o waith adeiladu. Rydym wedi cytuno i barhau i ddelio gyda'r rhain oni bai bod Horizon yn methu ymateb i gais am ragor o wybodaeth gan CNC.

### **Amddiffyn yr amgylchedd a busnesau cyfreithlon**



Mae ein camau gorfodi yn parhau i helpu amddiffyn yr amgylchedd wrth weithio i sicrhau chwarae teg i fusnesau cyfreithlon. Eleni, gwnaethom ddiddymu trwydded iard sgrap yng Ngogledd Cymru i'w atal rhag llyfru'r amgylchedd lleol a sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r safonau a ddisgwyliwn gan safleoedd gwastraff. Er gwaethaf ymdrechion cyson gan ein swyddogion i hybu cynlluniau i lanhau'r safle, roedd y gweithredwr yn parhau i dorri telerau ei drwydded amgylcheddol, ac roedd y safle wedi ei labelu yn un o'r safleoedd gwastraff gwaethaf yng Nghymru. Roedd ein swyddogion wedi canfod llygredd o'w gweladwy, o'w hylifau heb gael eu storio'n iawn, dyn cynllun atal tân ar gyfer y safle yn ogystal â gwastraff wedi'i storio yn y manau anghywir heb y seilwaith cywir.

O ganlyniad, bu'n rhaid i ni ddiddymu'r drwydded sy'n golygu na ellir bellach storio na datgymalu ceir sydd wedi cyrraedd diwedd eu bywyd ar y safle. Dylai pawb ddeallbod rhaid i ni gydymffurfio â thelerau trwydded amgylcheddol, oherwydd mae methu â gwneud hynny, fel yn yr achos hwn,

yn torri'r gyfraith ac mae'n bosibl y bydd canlyniadau difrifol iddyn nhw a'u busnes

Eleni, mae 63 o erlyniadau am droseddau gwastraff, ansawdd dŵr a physgodfeydd, wedi gweld llysoedd yn gosod dirwyon gwerth £267,269.66 a dyfarnu costau o £40,307.49 i CNC. Mae rhagor o wybodaeth am ein gwaith gorfodi a sut ydym yn rheoleiddio ar ein gwefan.

### **Datblygu cyfleoedd i Ystâd Goed Llywodraeth Cymru**

Mae manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu rôl Ystâd Goed Llywodraeth Cymru i gefnogi busnes hefyd yn un o'n hamcanion. Mae Coedwig Beddgelert yn Eryri eisoes yn gartref i 16 o gabanau gwyliau ac mae trafodaethau yn parhau gyda Forest Holidays ynghylch datblygu ein safle yng Ngarwnant, ger Merthyr Tudful. Mae'n rhaid i unrhywddarpar ddatblygiad gydbwysu manteision y datblygiad gydag amddiffyn ein hamgylchedd naturiol arbennig. Mae'n bwysig cydnabod ein bod yn perfformio dwy rôl neilltuol a gwahanol yn hyn o beth, fel hwylusydd a rheoleiddiwr ac rydym yn ofalus iawn wrth arfer y cyfrifoldebau neilltuol hyn.

Fel hwylusydd, mae'r datblygiad yn ymateb i'r uwch gytundeb sydd eisoes yn bodoli rhyngom ni a Forest Holidays. Amcangyfrifir y byddai'r darpar ddatblygiad hwn o'r Ystâd Goed yn cyfrannu i'r buddion cymdeithasol ehangach, gan gynnwys buddsoddiad o £10 miliwn heb ei sybsydeiddio a chreu 40 o swyddi newydd ger ardal sy'n dioddef amddifadedd economaidd.

## Beth nesaf?


Bydd gwaith sylweddol yn 2019/20 yn cefnogi'r broses o gyflawni targedau datgarboneiddio ac ynni adnewyddadwy Llywodraeth Cymru trwy

- Gweithio i adnabod cyfleoedd ar gyfer ynni haul a phŵer gwynt y gellir o bosibl eu cynnwys yn Atlas Ynni Llywodraeth, ein Datganiadau Ardal, a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Byddwn yn cyhoeddi Asesiad Sensitifrwydd Tirweddau i help sicrhau bod y datblygiad priodol yn digwydd yn y man priodol.
- Datblygu a mynd ar drywydd cyfleoedd ar gyfer ynni

adnewyddadwy, fel ffermydd gwynt, haul, pŵer dŵr, storio batris a pharciau ynni, ynghyd â'n rhaglen ynni adnewyddadwy ein hunain.

- Darparu cyngor ar gyflenwi a gweithredu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru gan gynnwys sicrhau bod ein cyngor ar ynni adnewyddadwy morol yn gymesur â'r effaith bosibl.

06





# Amcan Llesiant 7

## Datblygu CNC yn sefydliad rhagorol sy'n darparu gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf

Rydym am fod y sefydliad gorau y gallwn fod ar gyfer ein staff, ein cwsmeriaid a'r amgylchedd naturiol. Mae hyn yn golygu ein bod wedi mynd trwy newidiadau sylweddol fel sefydliad. Bydd cwblhau'r ailstrwythuro staff yn haf 2019 yn ein caniatáu i ganolbwyntio ar ddatblygu ein sefydliad i gefnogi staff a chwsmeriaid i gyflawni amcanion personol a busnes.

## Ein mesurau

- Gwreiddio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy drwy hyfforddiant, polisïau, canllawiau a symleiddio prosesau
- Rhoi ein prosiect dylunio sefydliad newydd ar waith
- Boddhad cwsmeriaid
- Adolygiad Annibynnol o Gontractau Coed
- Gwella ein sefydliad fel lle i weithio ynddo
- Rhoi gwybod am ddigwyddiadau Llesiant, Iechyd a Diogelwch

## Canlyniadau 2018/19

- Derbyniodd 1400 o staff hyfforddiant rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadw
- Cwblhawyd yr ymgynghoriad ar ein Dylunio Sefydliad newydd cyn cynnal cyfnod gweithredu estynedig
- Lansiodd Strategaeth Cwsmeriaid CNC
- Cwblhawyd adolygiad annibynnol o gontractau coed a chytunwyd ar gamau dilynol i fynd i'r afael â'r argymhellion
- Lansiodd ein gwerthoedd sefydliadol newydd
- Yn anffodus, cafwyd 5 Digwyddiad Colli Amser lle cafodd aelodau o staff eu hanafu neu fynd yn sâl wrth wneud eu gwaith

## Engbreffiau o'n gwaith ni yn ystod 2018/19:

### Methu a mynd ati i geisio unioni'r sefyllfa

Rydym eisiau bod yn sefydliad sy'n gweithredu'n ddidwyll i wneud gwahaniaeth i'r amgylchedd naturiol ac i'n cwsmeriaid. Rydym yn gwybod nad ydym wedi gwneud hynny yn y blynyddoedd diwethaf wrth ddyfarnu contractau pren.

Eleni, rydym wedi edrych o dan bob carreg wrth geisio mynd i wraidd y problemau ynein gweithgareddau pren masnachol, a dyna pam ein bod wedi galw ar Grant Thornton yn haf 2018 i gynnal adolygiad annibynnol trylwyr.

Rydym yn derbyn eu casgliadau a'u hargymhellion yn llwyr, ac eisoes wedi'u cynnwys o fewn camau penodol ar gyfer gwella.

Rydym yn rhoi pwys mawr ar hyn ac yn gwybod fod yn rhaid i ni gael hyn yn iawn. Rydym wedi sefydlu prosiect annibynnol sy'n adrodd i'r Bwrdd er mwyn rhoi'r camau gweithredu ar waith heb oedi. Mae rheolwr prosiect gyda chefnidir caffael proffesiynol yn arwain y prosiect, ac mae'n gweithio ar draws CNC i roi'r camau gweithredu ar waith. Mae pawb y mae'n effeithio arnynt yn gwbl ymrwymedig.

Rydym eisoes yn gwneud cynnydd mewn llawer cyfeiriad:

- Rydym wedi ysgrifennu dogfen Safonau Llywodraethu Gwerthiant Pren newydd, sy'n ymdrin â'r holl feysydd yn argymhellion Grant Thornton ac yn cymryd lle dogfennaeth a luniwyd cyn sefydlu CNC. Rydym wedi hyfforddi staff ar ddefnyddioa chymhwyso'r safonau newydd a byddwn yn adolygu effeithlonrwydd y ddogfen yn flynyddol.
- Mae ein perthynas â'r diwydiant pren yn bwysig iawn a gwnaethom ddechrau'r broses o ailosod y berthynas hon yn ein cyfarfod cyswllt cwsmeriaid pren blynyddol ym mis Ionawr. Yn y cyfarfod, rhoddwyd y newyddion diweddaraf iddyntar ganfyddiadau'r adroddiad, ein cynllun gweithredu a'r gwelliannau yr ydym eisoes yn eu gwneud. Byddwn yn parhau i roi'r newyddion diweddaraf iddynt wrth i ni wneud cynnydd..
- Mae'r holl staff yn derbyn hyfforddiant Cyfraith Gyhoeddus ac mae timau perthnasol hefyd wedi cael hyfforddiant Cymorth Gwladwriaethol.
- Ym mis Rhagfyr 2018, gwnaethom gyflwyno amodau a thelerau newydd i holl gontractiau pren newydd.

## Dylunio sefydliad ar gyfer y dyfodol



Rydym wedi cynnal rhaglen uchelgeisiol i ail-ddylunio rolau a strwythurau ein sefydliad er mwyn gwireddu ein hamcan o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Er mwyn gwneud hynny, rydym wedi addasu ein gweithrediadau i roi pwyslais ar ddarpariaeth leol.

Gwnaethom gynnal ymgynghoriad yn haf 2018 ar ein darpar ddyluniad, gan ystyried sylwadau staff ac undebau llafur cyn cymeradwyo strwythur terfynol ym mis Hydref. Rydym wedi bod yn rhoi'r strwythur ar waith ers hynny gyda staff yn mynegi diddordeb

mewn rolau ac yn cael eu paru â rolau yn y strwythur newydd a fydd yn weithredol ar 1 Gorffennaf 2019. Mae gwaith mawr hefyd ar y gweill o ran ail-ddatblygu ac addasu polisïau, prosesau a systemau i ategu'r strwythur newydd a'i rolau.

## Creu #TeamCyfoeth

Yn dilyn canlyniadau gwael yr arolwg staff, rydym yn gwybod bod llawer i'w wneud i gefnogi a hybu morâl ymhlith ein staff. Mae hynny'n bwysicach fyth o gofio bod cymaint o newid mawr wedi digwydd i bawb eleni.

Mae creu ethos tîm yn bwysig i ni, felly ym mis Hydref, daeth tua 600 ohonom ynghyd yn Aberystwyth i fwynhau ein Diwrnod #TîmCyfoeth cyntaf erioed. Bu'n ddiwrnod prysur iawn gyda phobl yn teithio o bob cwr o Gymru i fod yno ac eraill yn gwyllo ar ffrydiau byw yn ein swyddfeydd. Roedd y diwrnod yn cwmpasu agweddau amrywiol ar CNC gyda chyfle i staff arddangos eu gwaith a gwaith ein rhwydweithiaustaff a grwpiau mewnol; sgysiau a gweithdai rhyngweithiol; ein gwobrau staff cyntaf igydnabod llwyddiannau unigol a tîm ein cydweithwyr talentog ac amrywiol yn ogystal â phrif araith gan Richard Parks, cyn chwaraewr rygbi dros Gymru sydd bellach yn anturiaethwr awyr agored. Rydym eisoes wedi gofyn i'n staff drwy gyfrwngarolygon a gweithgorau am syniadau ar gyfer digwyddiad 2019 yn y gobaith o drefnudiwrnod mwy a gwell fyth!

## Y gwerthoedd sy'n cael eu harddel gennym, a'r gwerth a gynigiwn

Yn ein diwrnod tîm, gwnaethom hefyd lansio ein gwerthoedd corfforaethol newydd. Wrth wrando ar ein harolygon pobl, grwpiau staff a chyfarfodydd tîm, ac ati, roeddem yn gweld nad oedd ein gwerthoedd gwreiddiol yn adlewyrchu gwerthoedd craidd a disgwyliadau

ein staff. Felly aethom ati i lunio ein Coeden Gwerthoedd newydd a chredwn fod y goeden hon nawr yn ein cynrychioli ni, fel pobl, a'r hyn sy'n bwysig i ni.

## Cefnogi ein lles, iechyd a diogelwch

Cafodd ein gwaith i gefnogi lles, iechyd a diogelwch ein staff ei gydnabod yn ffurfiol ym mis Mawrth pan ddyfarnwyd Safon Iechyd Corfforaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru i ni - Y Wobr Arian. Dyma gamp anhygoel ar ein cynnig cyntaf! Bu aseswyr yn ystyried ein tystiolaeth o bolisiau a chynlluniau cyfredol a'n ffyrdd o weithio yn erbyn eu fframwaith o beth all/dylai sefydliad ei wneud i helpu a chefnogi staff. Bu tîm Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn siarad gyda staff ym Mangor fel rhan o'n hasesiad. Roeddem yn gweithio tuag at gyflawni'r 'Efydd' fel man cychwyn er mwyn i ni allu gwella, ond ar ôl gweld yr holl enghreifftiau gwych o fentrau lleol - ystafelloedd lles, clybiau llyfrau, grwpiau cerdded a sinema, cwisiau amser cinio - a'r polisiau sydd gennym ar waith, roedd cymaint o dystiolaeth ar gael. Byddwn nawr ynaddasu cynlluniau er mwyn ymgeisio am y Wobr Aur yn y dyfodol.

## Arfogi #TîmCyfoeth i'r dyfodol

Gan weithio â chwsmeriaid a defnyddwyr busnes, rydym wedi cyflwyno Systemau Gweithredu Windows 10 i wella'r profiad defnyddio i staff a moderneiddio ein sylfaen TG yn barod ar gyfer cyfnod nesaf esblygiad CNC. Mae 1,650 o liniaduron wedi cael eu darparu i ddefnyddwyr mewn 31 o leoliadau gwahanol ledled Cymru, gyda defnyddwyr yn cyfrannu at y broses o ddewis gliniaduron a thabledi, a sefydlwyd Grŵp Defnyddwyr TGCh hefyd. Mae 90% o gymwysiadau CNC ar gael mewn "Siop Cymwysiadau" sy'n golygu bod modd i staff eu gosod eu hunain.

## Beth nesaf?

### Datblygu ein sefydliad

Yn 2019/20 byddwn yn parhau gyda gwaith sylweddol ar ddatblygu ein sefydliad, gan gydnabod bod ein staff wrth wraidd ein gallu i gyflawni popeth y gallwn ei wneudi Gymru a'n hamgylchedd naturiol. Byddwn yn canolbwyntio ar:

- Gwella ein gweithdrefnau llywodraethu a chydymffurfio mewnol mewn cysylltiad â gwerthiant pren, a rhoi sicrwydd bod y materion sy'n codi o adolygiad Grant Thornton yn cael eu datrys gan ddefnyddio mesurau tymor byr, tymor canolig a thymor hir.
- Darparu cefnogaeth i reolwyr ac arweinwyr tîm newydd gan gynnwys sefydlu fframwaith cymhwysedd i holl staff.
- Datblygu Cynllun Gweithlu Strategol sy'n hwyluso llwybrau gyrfa a llywio rhaglennidatblygu yn ogystal â bod yn ffocws ar gyfer recriwtio.
- Datblygu Strategaeth Cyfathrebu newydd i gefnogi ein cyfnod cyflenwi newydd, gan gynnwys offer archwilio y gallwn eu defnyddio i ymgysylltu ac ymgynghori yn well.
- Cyflenwi a gweithredu Fframwaith Rheoli Risg newydd i'r sefydliad.
- Gweithredu ein cynllun gwaith Strategaeth Cwsmeriaid trwy sefydlu gwaelodlin i fesur profiad ein cwsmeriaid gyda'n gwasanaethau a chyflenwi 13 prosiect erbyn mis Mawrth 2020 gyda chyllid o £0.6m.
- Datblygu ein system rheoli Llesiant, Iechyd a Diogelwch i sicrhau ardystiad ISO45001.



# Adroddiad Atebolrwydd

Mae ein Hadroddiad Atebolrwydd yn amlinellu prif nodweddion y ffordd yr ydym yn rheoli ein sefydliad. Ar y tudalennau canlynol mae ein Hadroddiad Llywodraethiant Corfforaethol yn egluro pwy yw ein Bwrdd a'n uwch dîm rheoli, sut maen nhw'n gweithio a'r trefniadau llywodraethiant sydd ar waith er mwyn sicrhau bod ein hadnoddau'n cael eu rheoli a'u goruchwyllo'n effeithiol er mwyn cyflawni ein hamcanion.

Mae ein Hadroddiad Tâl a Staff yn disgrifio sut yr ydym yn ymdrin â thâl y Bwrdd a'r uwch reolwyr yn ogystal â rhoi trosolwg o gyfansoddiad niferoedd ein staff.

Mae ein Hadroddiad Atebolrwydd Seneddol ac Archwilio yn dwyn ynghyd ofynion ychwanegol er mwyn dangos ein hatebolrwydd i Lywodraethau Cymru a'r DU, rheoleidd-dra gwariant a'r farn derfynol gan ein Harchwilydd.

## Adroddiad Llywodraethiant Corfforaethol

### Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Cyflogwyd pum cyfarwyddwr gweithredol a dau gyfarwyddwr a oedd, ynghyd â'r Prif Weithredwr yn ffurfio'n Tîm Gweithredol yn ystod 2018/19. Gadawodd ein Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl ddiwedd Gorffennaf 2018 ac oherwydd y newidiadau disgwylidig yn sgil ein Dyluniad Sefydliadol newydd, ni wnaethom ailbenodi'r swydd hon.


Swydd	Deiliad y swydd	Hyd gwasanaeth
Prif Weithredwr	Clare Pillman	26 Chwefror 2018 – presennol
Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol	Kevin Ingram	1 Ebrill 2013 – presennol
Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu	Ceri Davies	1 Ebrill 2013 – presennol
Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau (y Gogledd a'r Canolbarth)	Tim Jones	1 Ebrill 2013 – presennol
Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau (y De)	Gareth O'Shea	27 Ebrill 2015 – presennol
Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl	Ashleigh Dunn	17 Tachwedd 2014 – 31 Gorffennaf 2018
Cyfarwyddwr Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Gwybodaeth	Catherine Love (née Smith)	22 Ebrill 2014 – presennol
Cyfarwyddwr y Portffolio Trawsnewid	Niall Reynolds	1 April 2013 – presennol

## Rheoli ein harian 2018/19

### Cyllid


Cyfanswm ein hincwm am y flwyddyn oedd £76 miliwn. Yn ogystal, darparodd Llywodraeth Cymru £107 miliwn o Gymorth Grant a grantiau eraill tuag at ystod o ganlyniadau, a chafodd £39 miliwn ohono ei ddyrannu i reoli perygl llifogydd ac arfordiroedd. Yn y datganiadau ariannol, caiff Cymorth Grant ei drin fel cyfraniad ganawdurdod sy'n rheoli ac nid fel ffynhonnell incwm. Mae'r siart isod yn dangos sut y dyrannwyd cyfanswm ein cyllid.

Yn 2018/19 bu gostyngiad yn ein cyllid o £185 miliwn i £183 miliwn gyda'r gostyngiad mwyaf yng ngrantiau Llywodraeth Cymru (£11 miliwn). Bu gostyngiad o £3m yn ein harian grant craidd o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol, ond rydym wedi derbyn cyllid ychwanegol ar gyfer blaenoriaethau newydd. Bu cynnydd cyffredinol mewn taliadau (£2 miliwn) yn ymwneud ag addasiad 'anariannol' o £2m er mwyn adlewyrchu'r incwm y bydd angen ei godi yn y dyfodol i dalu am gost lawn y gwaith cyfalaf sy'n cael ei wneud ar gronfeydd drwy'r tâl tynnu dŵr - fel arall maent wedi'u cadw ar yr un lefel ariannol â'r flwyddyn ariannol flaenorol. Cynyddodd incwm masnachol ac incwm arall hefyd o £7 miliwn eleni yn bennaf oherwydd y farchnad bren lewyrchus. Dangosir hyn yn y graff isod.



- Grant Llywodraeth Cymru - £107 miliwn
- Taliadau £39miliwn
- Incwm Masnachol ac Incwm Arall - £35 miliwn
- Ewropeidd ac Allanol Arall - £2 miliwn


### Cyllid yn ôl Blwyddyn Ariannol



## Sut y gwnaethom wario ein harian


Cyfanswm ein gwariant oedd £201 miliwn. Gellir gweld y dadansoddiad manwl yn ôl categori gwariant yn y Datganiadau Ariannol ac fe'i dangosir isod hefyd.

Yn 2018/19, cynyddodd ein gwariant o £192 miliwn i £201 miliwn. Mae'r newid yn y gwariant o ganlyniad i nifer o amgylchiadau gan gynnwys cynnydd yng ngwerth y pren a werthwyd, cytundeb gweithredu cronfeydd dŵr a chostau staff yn cael eu gwrthbwysu gan ostyngiad yn lefel y cynlluniau rheoli cyfalaf risg llyfogydd ac arfordirol. Dangosir hyn yn y graff isod.




- Costau Staff - £90 miliwn
- Gwariant ar Waith Cyfalaf yn ystod y flwyddyn - £18 miliwn
- Gwariant arall £93 miliwn

## Gwariant yn ôl Blwyddyn Ariannol



Mae'r graff yn dangos sut y gwariwyd yr arian yn ôl cyfarwyddiaeth. Cafodd 49% o'n gwariant ei wario yn ein timau Gweithrediadau, tra bod 21% arall wedi'i wario yn ein timau Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu. Mae 10% wedi'i gategoreiddio fel arian a reolir yn ganolog sy'n ymwneud â symudiadau anariannol fel dibrisiant. Roedd yr 20% arall yn wariannau ar draws ein hadrannau gwasanaethau corfforaethol, sydd wedi'u meincnodi yn erbyn cyrff eraill yn y sector cyhoeddus.



- Gweithrediadau Gogledd a Chanolbarth Cymru
- Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu
- Gweithrediadau De Cymru
- Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol
- Dan Reolaeth Ganolog
- Swyddfa'r Prif Weithredwr




## Rheoli ein harian

Yn 2018/19, cafodd ein cyllid ‘craidd’ gan Lywodraeth Cymru ei ostwng o £3m ond cawsom arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i fynd i’r afael â materion fel lledaeniad y clefyd iechyd coed ac ymgorffori rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Gwnaethom hefyd ddefnyddio ein taliadau a’n hincwm masnachol wrth ymgymryd â’n gweithgareddau. Cafodd ar yr holl ddyraniadau cyllideb eu craffu a’u cymeradwyo gan y Tîm Gweithredol a’r Bwrdd. Rydym hefyd wedi elwa o farchnad lewyrchus dros ben ac mae ein gwerthiannau pren (> £26 miliwn) dros £7 miliwn yn fwy na’r flwyddyn ariannol ddiwethaf.

## Edrych i’r dyfodol

Rydym wedi cyhoeddi ein Cynllun Busnes ar gyfer 2019/20 sy’n gosod ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Mae ein Cynllun Corfforaethol presennol yn rhedeg hyd at 2022. Rydym wedi gosod ein cynlluniau ar sail rhagdybiaethau ariannu o ran Cymorth Grant, taliadau ac incwm masnachol. Mae incwm o daliadau’n tueddu i fod yn gymharol sefydlog, ond mae’n fwy anodd rhagweld ein hincwm masnachol gan ei fod yn sensitif iawn i newidiadau yn y gyfradd gyfnewid sydd wedi effeithio ar brisiau ein pren. Nid ydym yn gwybod beth fydd ein dyraniadau Cymorth Grant ar gyfer 2020/21 ymlaen ond mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi arwyddion cyllid tymor hwy yn y dyfodol a fydd o gymorth gyda’n cynllunio ariannol. Rydym newydd weithredu dyluniad sefydliadol newydd sy’n cymryd i ystyriaeth y gostyngiadau diweddar yn y cyllid Cymorth Grant a’r cynnydd yn yr incwm coed. Bydd y strwythur hwnnw’n hyblyg er mwyn ymateb i newidiadau yn y cyllid yn y dyfodol.

Mae’r tabl isod yn dangos y bwlch rhwng incwm (gan gynnwys cyllid gan Lywodraeth Cymru) yn erbyn gwariant ar sail rhagdybiaethau ynghylch lefelau ariannu a chwyddiant.



## Asedau anghyfredol

Gwerth ein hasedau anghyfredol oedd £1,036 miliwn ar 31 Mawrth 2019, cynnydd o 9% (£87 miliwn) o’i gymharu â’r flwyddyn ariannol ddiwethaf. Y gyfran fwyaf arwyddocaol yw gwerth yr ystâd goetir Llywodraeth Cymru sydd i gyfrif am £903 miliwn o’r cyfanswm. Mae’n ofynnol i ni gynnal ailbrisiad annibynnol o dir, adeiladau, ystâd goedwig ac asedau biolegol bob pum mlynedd a bydd hwn yn cael ei gynnal nesaf yn 2020/21. Yn y cyfamser, bydd ein hasedau anghyfredol, pan fyddant yn cael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol, yn cael eu hailbrisiu gan ddefnyddio’r mynegeion priodol.

## Taliadau masnachol a thaliadau eraill

Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad i dalu 95% o gyflenwyr o fewn 30 diwrnod a'n nod yw gwella ar y targed hwn lle bynnag y bo'n bosibl. 96% oedd y perfformiad ar gyfer y flwyddyn gyfan. Yn 2017/18 roedd yn 97%. Mae hyn yn helpu i leddfu llif arian busnesau yn yr hinsawdd economaidd heriol sydd ohoni.

## Perfformiad dyledwyr

Mae ein rheolaeth effeithiol barhaus o ddyled fasnachol wedi ein galluogi i wella'r ddyled fasnachol ymhellach unwaith eto, gyda nifer cyfartalog y diwrnodau y mae'n cymryd i gwsmeriaid dalu wedi gostwng i 2.6 diwrnod o'i gymharuag 11 diwrnod yn 2017/18.

Mae ein rheolaeth o ddyled reoleiddiol hefyd wedi gwella o ran casglu dyledion - o 2.4% o'r taliadau a godwyd yn 2017/18 i 1.86% yn 2018/19.

Roedd ein darpariaeth ar gyfer colled credyd disgwylidig ar gyfer dyled yn £0.4 miliwn ar 31 Mawrth 2019.

## Busnes Gweithredol

Mae'r Datganiad o Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2019 yn dangos ecwiti trethdalwyr positif o £981 miliwn. Bydd ein rhwymedigaethau'n cael eu hariannu yn y dyfodol gan Gymorth Grant Llywodraeth Cymru a'r defnydd o incwm y dyfodol. Rydym eisoes wedi derbyn cymeradwyaeth am gyllid ar gyfer 2019/20. Felly, mae'n briodol mabwysiadu sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

## Rheoli ystadau

Rydym yn rheoli ystâd goedwig gyhoeddus Cymru ar ran Gweinidogion Cymru yn unol â'n polisi caffael a gwaredu a'n Cynllun Menter.

Rydym yn cyflwyno Cynlluniau Adnoddau Coedwig (FRP) yn lle'r Cynlluniau Dylunio Coedwig (FDP) blaenorol. Mae'r cynllun adnoddau coedwig yn ddogfen reoli graidd a ddefnyddir ar Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru. Mae'n nodi cynigion ar gyfer rheoli coetir yn y dyfodol yn unol â pholisi ac arfer cyfredol. Mae'r rhain yn gynlluniau pellgyrhaeddol, gyda phwyslais cryf ar sicrhau manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, ac yn ymgorffori'r dull ecosystem o reoli tir. Mae'r cynlluniau'n cael eu cymeradwyo am gyfnod cychwynnol o ddeng mlynedd, gyda'r cyfnod y tu hwnt (50+ mlynedd) yn cael ei gymeradwyo'n amlinellol. Mae hyn yn caniatáu adolygu a diwygio'r ddogfen os oes angen. Mae'r cynlluniau i gyd yn cynnwys gweledigaeth hirdymor ar gyfer y coetir hwnnw ac yn creu fframwaith ar gyfer datblygu rhaglenni gwaith manwl.

Rheolir y gwarchodfeydd natur cenedlaethol i gyd, gan gynnwys y rhai sy'n eiddo i neu a reolir gan CNC, y rhai a reolir drwy drefniadau partneriaeth, a'r rhai a reolir gan drydydd partïon, yn unol â chynllun rheoli cymeradwy. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys amcanion cadwraeth ar gyfer pob nodwedd o ddiddordeb cydnabyddedig ac yn nodi'r prosiectau a'r rhaglenni gwaith angenrheidiol.

Mae'r cynlluniau am gyfnod o 5 mlynedd ac yn cael eu hadolygu'n flynyddol a'u gwirio gan ein tîm Rheoli Cadwraeth, drwy raglen dreigl o adolygiadau ac archwiliadau amgylcheddol.

## Pensiynau

Datgelir y rhwymedigaeth pensiwn yn y Datganiadau Ariannol sy'n seiliedig ar Safon Gyfrifyddu Ryngwladol (IAS) 19. Mae'r rhwymedigaeth ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol wedi cynyddu o £32 miliwn i £56 miliwn yn ystod y flwyddyn.

Mae hyn yn wahanol i'r sail a ddefnyddir ar gyfer cyfrifiadau cyllido. Cynhaliwyd ailbrisiad ffurfiol diwethaf y gronfa ar 31 Mawrth 2016 ac roedd yn dangos sefyllfa gyllido gyffredinol o 103%.

## Archwilwyr

Caiff ein cyfrifon (yn cynnwys Rhanbarthau Draenio Mewnol) eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Y ffi archwilio ar gyfer 2018/19 oedd £224,476, sy'n cynnwys ffi ychwanegol o £35,595 ar gyfer yr archwiliad o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

## Adrodd corfforaethol

Mae'r adroddiadau blynyddol a'r cynlluniau canlynol hefyd ar gael ar ein gwefan: Cangosfwrdd Corfforaethol 2018/19

Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol 2015 - 2020

Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2018/19

Dadansoddiad o'r Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau

Adroddiad Amgylcheddol Corfforaethol 2018/19

Adroddiad Blynyddol Llesiant, Iechyd a Diogelwch 2018/19

Adroddiad Monitro Blynyddol 2018/19 yr Iaith Gymraeg

## Adrodd amgylcheddol

Mae ein system rheoli amgylcheddol (EMS) yn helpu i ddatblygu Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i fod yn sefydliad ardderchog drwy gynnal ein hardystiad ISO14001:2015, ein hardystiad coetir yn erbyn Safon Sicrwydd Coetir y DU a thrwy leihau ein heffaith amgylcheddol a'n hól troed carbon. Mae ein Hadroddiad Amgylcheddol Corfforaethol (gweler Atodiad 1) yn ymwneud yn bennaf â chynaliadwyedd amgylcheddol, yn hytrach na gweithredoedd neu ganlyniadau cynaliadwyedd ehangach. Gellir gweld adroddiadau sy'n ymwneud â chynaliadwyedd ehangach drwy gydol ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon. Eleni, rydym wedi:

- cwrdd â'n targed i leihau ein hól troed carbon o 5% mewn perthynas â'r defnydd o ynni mewn adeiladau a ddefnyddir gennym a theithio ar fusnes
- cadw ein hardystiad coetir (Safon Sicrwydd Coetir y DU) ar gyfer Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru a gaiff ei rheoli gennym, yn dilyn archwiliadau allanol a gwiriadau annibynnol
- cwblhau 75% o'r targed archwilio rheolaeth Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a sicrhau bod unrhyw gamau gwella a nodwyd wedi cael eu gweithredu
- nodi nifer y staff sy'n cerdded, sy'n beicio ac sy'n defnyddio trafndiaeth gyhoeddus ar gyfer teithio i'r gwaith ac ar fusnes



## Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu Mae paragraff 23 (1) o'r Atodlen i Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 yn gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru gynhyrchu datganiad o gyfrifon bob blwyddyn ariannol, ar y ffurf a'r sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Caiff y cyfrifon eu paratoi ar ffurf cronïadau, a rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa Cyfoeth Naturiol Cymru ac o'r incwm a gwariant, y newidiadau yn ecwiti trethdalwyr, a'r llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol. Wrth baratoi'r cyfrifon, rhaid i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac, yn benodol, rhaid iddo wneud y canlynol:

- cadw at y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys ei Mawrhydi, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisiâu cyfrifyddu priodol yn gyson
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol
- nodi a ddilynwyd y safonau cyfrifyddu perthnasol a nodwyd yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol, a datgelu ac egluro unrhyw amrywiadau materol yn y datganiadau ariannol
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw
- cadarnhau nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad oedd archwilwyr Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwybodol ohoni, a chymryd pob cam i wneud ei hunan yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sicrhau bod archwilwyr Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwybodol o'r wybodaeth honno
- cadarnhau bod yr Adroddiad Blyneddol a'r Cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, a chymryd cyfrifoldeb personol amdanynt ac am y dyfarniadau sydd eu hangen i bennu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol Llywodraeth Cymru wedi dynodi Prif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru fel ei Swyddog Cyfrifyddu. Cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr, fel Swyddog Cyfrifyddu, yw sicrhau priodoldeb a rheoleiddra'r cyllid cyhoeddus y mae'n atebol amdano; cadw cyfrifon priodol; gweinyddu mewn modd darbodus ac economaidd; osgoi gwastraff a gorwario; a sicrhau bod yr holl adnoddau'n cael eu defnyddio mewn modd effeithlon ac effeithiol, fel y nodwyd yn y Memorandwm ar gyfer Swyddog Cyfrifyddu Cyfoeth Naturiol Cymru.

# Datganiad Llywodraethu

Mae'r Datganiad hwn yn nodi'r strwythurau llywodraethu, y trefniadau rheoli risg a'r gweithdrefnau rheoli mewnol sydd wedi gweithredu o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol 2018/19 ac yn cyd-fynd â chanllawiau Trysorlys EM a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.


Fel Swyddog Cyfrifyddu dirprwyedig Cyfoeth Naturiol Cymru, fy rôl i hefyd yw diogelu arian cyhoeddus ac asedau sefydliadol drwy roi trefniadau ar waith ar gyfer llywodraethu ein materion ac arfer ein swyddogaethau'n effeithiol. Gallaf gadarnhau bod y wybodaeth yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg o sut mae'r sefydliad wedi cyflawni ei swyddogaethau eleni. Cadarnhaf hefyd nad oes unrhyw wybodaeth heb ei chasglu wedi ei dwyn at fy sylw nac unrhyw wybodaeth yr wyf yn ymwybodol ohoni nad yw wedi ei dwyn at sylw Swyddfa Archwilio Cymru.

## Ein strwythur llywodraethu

Penodir aelodau ein Bwrdd gan Weinidogion Cymru, yn unol â'r Cod Ymarfer i Benodiadau Gweinidogaethol mewn Cyrff Cyhoeddus, ac felly mae ein cadeirydd yn atebol i Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig.

Mae gennym 13 aelod Bwrdd ar hyn o bryd, dan arweiniad ein Cadeirydd gydag 11 aelod anweithredol a minnau fel aelod gweithredol o'r Bwrdd. Bu newidiadau sylweddol i gyfansoddiad ein Bwrdd eleni. Yn dilyn ymddiswyddiad Diane McCrea ym mis Gorffennaf 2018, penodwyd Syr David Henshaw fel Cadeirydd dros dro am 12 mis o 1 Tachwedd 2018. Yn yr hydref, daeth pump o'n haelodau anweithredol gwreiddiol i ddiwedd eu tymor, gyda Dr Ruth Hall CB, Dr Madeleine Havard, Andy Middleton, Nigel Reader CBE a Syr Paul Williams yn rhoi'r gorau iddi ar ddiwedd mis Hydref 2018. Yn dilyn ymarfer recriwtio gan Lywodraeth Cymru, penodwyd y pum aelod anweithredol a ganlyn o 1 Tachwedd 2018: Catherine Brown, Julia Cherrett, Dr Rose Plummer, Yr Athro Steve Ormerod, Yr Athro Peter Rigby a gyda Geraint Davies yn ymuno ar 1 Ionawr 2019.

Er mwyn cyflawni ein dyletswyddau, rydym yn cyfarfod fel Bwrdd llawn gyda gwaith craffu ychwanegol yn cael ei gynnal gan dri phwyllgor statudol ac un grwp ymgynghorol. Bydd ein Tim Gweithredol yn rhoi diweddariadau strategol a gweithredol i'n Bwrdd a Phwyllgorau ar gyfer craffu a gwneud penderfyniadau yn ôl yr angen.



Cadeirir pob un gan aelod o'r Bwrdd ac mae'n cynnwys o leiaf dri aelod Bwrdd arall. Nid oes gennym Bwyllgor Enwebiadau gan fod ein haelodau'n cael eu penodi gan Weinidogion Cymru. Adolygwyd aelodaeth pob pwyllgor ym mis Tachwedd 2018. Mae'r adrannau canlynol yn amlinellu meysydd ffocws gwaith a phresenoldeb ein Bwrdd a'n Pwyllgorau.

## Cyfarfodydd Bwrdd

Gwnaethom gynnal chwe chyfarfod deuddydd ledled Cymru eleni, yn ogystal â nifer o sesiynau datblygu eraill. Mae eitemau sefydlog ar ein hagenda yn cynnwys y canlynol: llesiant, iechyd a diogelwch; adroddiadau ar gyllid a pherfformiad yn ystod y flwyddyn; a diweddariadau strategol a gweithredol gan y Cadeirydd, y Pwyllgor, Pwyllgorau a Grwpiau'r Bwrdd. Rydym yn cyhoeddi amrywiaeth eang o wybodaeth am ein gwaith ar ein gwefan, gan gynnwys papurau i'w hystyried gan y Bwrdd cyn y cyfarfodydd hynny a gynhelir yn gyhoeddus. Mae holl ddyddiadau cyfarfodydd i ddodac agenda, papurau a chofnodion blaenorol ar gael ar ein gwefan.

## Cofnod o bresenoledd Aelodau'r Bwrdd mewn cyfarfodydd

Aelod Bwrdd	Nifer y cyfarfodydd posibl	Nifer y cyfarfodydd llawn a fynychwyd
Diane McCrea (Cadeirydd)	2	2
Dr Madeleine Havard (Is-gadeirydd)	4*	4
Ruth Hall	4*	4
Andy Middleton	4*	4
Nigel Reader	4*	4
Sir Paul Williams	4*	4
Chris Blake	7*	6.5
Howard C Davies	7*	7
Elizabeth Haywood	7*	4.5
Zoe Henderson	7*	7
Karen Balmer	7*	5
Clare Pillman (Prif Weithredwr)	7*	7
Syr David Henshaw	3	3
Catherine Brown	3	3
Julia Cherrett	3	3
Dr Rosie Plummer	3	2
Yr Athro Steve Ormerod	3	3
Yr athro Peter Rigby	3	3
Geraint Davies	2	2

\*Cynhaliwyd un cyfarfod eithriadol ym mis Hydref 2018 i roi sylw i gymeradwyo'r cynllun sefydliadol terfynol, gan fynd â'r cyfanswm i 7 cyfarfod yn 2018/19



## Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Prif rôl y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yw cynghori'r Bwrdd a chynorthwyo'r Swyddog Cyfrifyddu yn y gwaith o fonitro, craffu a herio'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer archwilio, llywodraethu, rheolaethau mewnol a rheoli risg. Mae'r Prif Weithredwr yn mynychu pob cyfarfod fel Swyddog Cyfrifyddu CNC, ynghyd â'n Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol.

## Eleni, rhoddodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau risg sylw i amrywiaeth o faterion, gan gynnwys

- Gwaith Craffu parhaus y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015/16
- Grant Thornton: Adroddiad ar Lywodraethu Gwerthiannau Pren
- Cynllun Archwilio Mewnol
- Annual Report and Accounts 2017/18 and plans for this report, 2018/19
- Rheolaethau mewnol seiberddiogelwch

## Presenoldeb aelodau Bwrdd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Aelod bwrdd	Nifer y cyfarfodydd posibl	Nifer y cyfarfodydd llawn a fynychwyd
Karen Balmer (Cadeirydd)	5	5
Ruth Hall	3	3
Nigel Reader	3	3
Chris Blake	5	4
Rosie Plummer	2	2
Peter Rigby	2	2
Catherine Brown	1	1

## Pwyllgor Pobl a Thaliadau

Mae'r Pwyllgor Pobl a Thaliadau (PPAT) yn ystyried materion sy'n ymwneud â rheolipobl, taliadau a newid sefydliadol. Mae hyn yn cynnwys goruchwyllo tâl ac amodaucyflogaeth staff ar y lefel uchaf, strategaeth dâl gyffredinol ar gyfer yr holl staff agyflogir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, darparu cynllun pensiwn, llesiant, iechyd adiogelwch, cydraddoldeb ac amrywiaeth, a datblygu'r Gymraeg.

Mae'r Pwyllgor Pobl a Thaliadau yn rhoi cyngor ar ddatblygu sefydliadol strategol, sicrhau bod strategaeth glir ar waith, cynllunio'r sefydliad mewn modd effeithiol a fforddiadwy, a rheoli mentrau newid pwysig yn effeithiol, gyda'r bwriad o sicrhau gweithlu arloesol, sy'n perfformio'n dda ac yn uchel eu cymhelliant. Mae'r pwyllgor Tudalen 41 o 112 [www.cyfoethnaturiol.cymru](http://www.cyfoethnaturiol.cymru) hefyd, ar ran y Bwrdd, yn goruchwyllo'r broses o ymgorffori rhagoriaeth mewn gofal cwsmeriaid, fel elfen allweddol o ddiwylliant y sefydliad..

Mae'r Prif Weithredwr yn mynychu pob cyfarfod, ynghyd â Chyfarwyddwr ein Portffolio Trawsnewid. Mynychodd ein Cyfarwyddwr Gweithredol dros Ddatblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl gyfarfodydd cyn gadael ei swydd ym mis Gorffennaf 2018. Nid yw'r rôl hwn wedi'i lenwi yn y strwythur newydd. Bydd staff yr Uwch Dîm Rheoli yn bresennol i gefnogi gwaith o fewn eu cylch gwaith.

Aeth y pwyllgor i'r afael â nifer o faterion yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:

- Ymgynghori ar y Cynllun Sefydliadol a'i roi ar waith
- Llesiant, iechyd a lles ac Adolygiadau o Ddigwyddiadau Difrifol
- Newidiadau i gynlluniau pensiwn
- Craffu ar bolisiau Rheoli Pobl arfaethedig
- Penodiadau a chyflogau cyfarwyddwyr

## Presenoldeb aelodau Bwrdd y Pwyllgor Pobl a Thalidau

Aelod o'r Bwrdd	Nifer y cyfarfodydd posibl	Nifer y cyfarfodydd llawn a fynychwyd
Paul Williams (Cadeirydd)	3	3
Nigel Reader	3	3
Zoe Henderson (Cadeirydd Rhagfyr 2018 ymlaen)	5	5
Karen Balmer	5	4
Howard Davies	2	1
Julia Cherrett	2	2
Rosie Plummer	1	1

\*Cynhaliwyd un cyfarfod ychwanegol ym mis Hydref 2018, i fynd i'r afael â llofnodi'r dyluniad terfynol ar gyfer y sefydliad, gan olygu bod y cyfanswm yn bum cyfarfod yn 2018-19.

## Y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig

Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo ei gyfrifoldebau statudol mewn perthynas â gwrthwynebiadau i'r broses hysbysu a dadhysbysu am Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig i'r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig (PAC). Mae aelodau'r PAC hefyd yn cefnogi'r Weithrediaeth a'r Bwrdd llawn trwy ddarparu cyngor ar faterion sy'n ymwneud ag ardaloedd gwarchoddedig ehangach a gwaith achos strategol.

Ni chyfarfu'r Pwyllgor yn ffurfiol eleni ond parhaodd i gynnig cyngor pan oedd angen. Roedd aelodau'r Pwyllgor yn cynnwys: Andy Middleton, Madeleine Havard, Paul Williams, Howard C Davies ac Elizabeth Haywood. Bydd Steve Ormerod a Rosie Plummer yn llenwi lle Andy Middleton a Madeleine Havard mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

## Grŵp Cynghori ar Reoli Perygl Llifogydd

Mae'r Grŵp yn un cynghorol, ac yn adrodd i Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru. Ei brif gyfrifoldebau yw craffu ar raglenni buddsoddi Rheoli Perygl Llifogydd (FRM) ar gyfer y blynyddoedd cyfredol a'r blynyddoedd i ddod, ac ystyried materion allweddol a allai effeithio ar y broses o gyflawni gwaith sy'n gysylltiedig ag FRM yng Nghymru.

Mae'r Grŵp yn cynnwys pedwar aelod o'r Bwrdd, ynghyd â'r Cyfarwyddwr Gweithredol dros Gyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu, y Pennaeth Rheoli Risgiau Llifogydd a Digwyddiadau, a'r Pennaeth Cyllid.

Adolygodd y Grŵp feysydd a oedd yn cynnwys:

- blaenoriaethu gweithgareddau rheoli perygl llifogydd

- llywodraethu'r rhaglen gyfalaf rheoli perygl llifogydd
- y cynllun tymor canolig diweddaraf ar gyfer ein rhaglen gyfalaf
- y dangosyddion perfformiad cyfredol sy'n ymwneud â chyflwr asedau perygl llifogydd a gynhelir gan CNC
- cyfraddau a phraeseptau'r Rhanbarth Draenio Mewnol ar gyfer 2019-20

### Presenoldeb Aelodau o'r Bwrdd yn y Grŵp Cynghori ar Reoli Perygl Llifogydd

Aelod o'r Bwrdd	Nifer y cyfarfodydd posibl	Nifer y cyfarfodydd llawn a fynychwyd
Madeleine Havard (Cadeirydd)	2	2
Nigel Reader	2	2
Elizabeth Haywood	2	2
Karen Balmer	2	2

### Grwpiau Bwrdd

Y tu allan i'n cyfarfodydd ffurfiol yn flaenorol, roedd aelodau'r Bwrdd yn cyfrannu at ddatblygiad strategol trwy Grwpiau 'gorchwyl a gorffen' a oedd yn darparu cyngor yn ôl y gofyn ar feysydd gwaith penodol, e.e. ein cynllun codi tâl, ein gwaith adrodd ar berfformiad. Mae ein Cadeirydd newydd wedi sefydlu pwyllgorau anstatudol newydd i strwythuro'r gwaith hwn yn ffurfiol, a dechreuodd yr Is-bwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad, ynghyd â'r Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth, ar eu gwaith yn 2019-20.

### Effeithiolrwydd y Bwrdd

Eleni, mae newid sylweddol o ran yr aelodau anweithredol wedi ein galluogi i gryfhau sgiliau Bwrdd CNC ym meysydd llywodraethu a chraffu gweithredol, yn ogystal ag o ran ffocws gwyddonol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod sylw priodol yn cael ei roi i'r dulliau a'r strwythur, fel ei gilydd, o redeg sefydliad, yn ogystal ag ar gyflawni ei ddiben craidd.

Yn gynnar yn 2019, gofynnodd Syr David Henshaw i Dr Rosie Plummer gynnal adolygiad o arferion presennol y Bwrdd, fel yr amlinellwyd uchod. Bydd y gwaith hwn yn rhoi golwg fanylach ar yr effeithiolrwydd cyfredol, a bydd y camau a awgrymir yn ffurfio camau datblygu yn y dyfodol. Disgwylir i'r adolygiad hwn adrodd yn ôl yn ystod haf 2019.

### Cydymffurfio â Chod Llywodraethu Corfforaethol y Deyrnas Unedig

Mae ein strwythur sefydliadol, ein polisiau a'n gweithdrefnau wedi'u pennu yn unol â Chod Llywodraethu Corfforaethol y Deyrnas Unedig. Disgrifir llawer o'r manylion yn y datganiad hwn. Mae ein harweinyddiaeth yn gyson â'r rolau a'r cyfrifoldebau disgwylidiedig i uwch-reolwyr; mae gweithdrefnau ategol wedi cael eu sefydlu i sicrhau y gellir rhoi rolau'r Bwrdd ar waith mewn modd effeithiol; mae ein llwybrau adrodd yn glir er mwyn sicrhau atebolrwydd a bod dyletswyddau'n cael eu rhannu mewn modd priodol, ac mae rheolaethau mewnol allweddol ar waith; caiff taliadau eu hystyried gan swyddogion anweithredol i sicrhau annibyniaeth, a chawn gyfarfodydd rheolaidd â'n rhanddeiliaid allweddol i gynnal perthnasoedd gwaith adeiladol.



## Ein Gweithrediaeth

Caiff ein sefydliad ei reoli o ddydd i ddydd drwy fy Nhîm Gweithredol, sydd hefyd wedi gweld rhai newidiadau mawr eleni i'r ffordd yr ydym yn cyflawni ein gwaith. Er mwyn sicrhau prosesau craffu, tryloywder a gwelededd priodol, mae fy Nhîm Gweithredol bellach yn cwrdd unwaith y mis, a hynny am ddiwrnod llawn. Mae strwythur newydd i'r agenda yn sicrhau bod y busnes corfforaethol craidd – diweddariadau ar y gyllideb, gwybodaeth am berfformiad, lles, iechyd a diogelwch, y gofrestr risgiau, trefniadau noddi Llywodraeth Cymru, ac ati – yn cael eu trafod yn y bore, cyn bod gwaith craffu a phenderfyniadau ar faterion strategaeth/polisi a gweithredol yn cael eu trafod yn y prynhawn. Mewn ymateb i ganlyniadau ein Harolwg Pobl, rydym bellach yn symud y cyfarfodydd hyn o amgylch ein swyddfeydd ledled Cymru, gan roi mwy o gyfle i staff gwrdd ag uwch-reolwyr. Rwyf hefyd wedi cyflwyno Rhaglen Sylwedyddion, lle gall staff fynychu cyfarfodydd y Tîm Gweithredol, gan eistedd ochr yn ochr â ni i drafod materion y dydd. Yn dilyn y cyfarfodydd, bydd y staff hynny yn ysgrifennu blog ar gyfer y fewnwyd sy'n cynnwys eu barn/meddyliau ynghylch yr hyn y maent wedi'i weld a'i glywed. Mae ein Rhaglenni a'n Cofnodion hefyd yn cael eu cyhoeddi ar y fewnwyd bob mis i bob aelod o staff eu darllen.

Rydym yn cynhyrchu cynllun busnes blynyddol sy'n amlinellu camau y byddwn yn eu cymryd tuag at gyflawni ymrwymïadau yn ein Cynllun Corfforaethol tymor hwy hyd at 2022. Mae hyn yn cynnwys targedau a chanlyniadau corfforaethol yr ydym yn monitro'r hyn a gyflawnir yn unol â nhw. Adolygir Gwybodaeth Reoli Fanwl yn fisol yng nghyfarfodydd y Tîm Gweithredol, gyda Dangosfwrdd Perfformiad Corfforaethol cryno yn cael ei adolygu cyn y bydd Bwrdd CNC a Llywodraeth Cymru yn craffu arno bob chwarter. Rheolir y gwaith cyflawni o ddydd i ddydd trwy dimau arweinyddiaeth y gyfarwyddiaeth, ond bydd hyn yn symud i Fyrddau Busnes newydd yn y strwythur newydd yn ystod 2019-20.

## Cyfarwyddiadau Gweinidogol

Cawsom un Cyfarwyddyd Gweinidogol eleni. Ym mis Hydref 2018, ysgrifennodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig atom i ofyn i ni adolygu ein dull o ymgysylltu â chymunedau lleol mewn perthynas â chael gwared ar fwd o waith datblygu Gorsaf Bŵer Niwclear Hinkley 'C' yng Ngwlad yr Haf ym Mae Caerdydd. O ganlyniad, rydym wedi cynnal adolygiad trylwyr a gwrthrychol o bob cyfathrebiad ac ymgysylltiad mewn perthynas â'r drwydded forol hon, sydd wedi rhoi sylw i'r canlynol: gofynion cyfreithiol; arfer gorau; a gwaith craffu cadarn ar yr hyn a wnaed yn yr achos hwn. Mae hyn wedi arwain at rai canfyddiadau ac argymhellion allweddol manwl. Ym mis Chwefror 2019, anfonwyd adroddiad terfynol at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, ac mae camau eisoes yn mynd rhagddynt i fynd i'r afael â chanfyddiadau ac argymhellion, e.e. diweddaru tudalennau gwe Hinkley 'C', diweddaru Datganiad Cyfranogiad y Cyhoedd CNC, ac ati.

## Ein fframwaith rheoli risgiau

Caiff ein risgiau o ddydd i ddydd eu nodi, eu gwerthuso a'u rheoli ar nifer o lefelau gwahanol. Mae'r Tîm Gweithredol yn gyfrifol am reoli risgiau corfforaethol, yn unol â chyflawni amcanion strategol. Mae'r Bwrdd yn defnyddio'r Pwyllgor

Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC) i graffu ar ein prosesau rheoli risgiau, yn ogystal ag i archwilio risgiau a materion penodol. Mae gwelliannau sylweddol i'n Cofrestr Risgiau Corfforaethol eleni wedi arwain at fwy o graffu a gwelededd ar y lefel uchaf; fodd bynnag, mae uwchgyfeirio a dirprwyo risgiau yn well mewn rhai meysydd o'r busnes nag eraill. Wrth i ni symud i'n strwythur newydd, rydym yn symud i ffwrdd oddi wrth risgiau a reolir gan y gyfarwyddiaeth, ac yn creu Byrddau Busnes a fydd, ar y cyd, yn goruchwylio'r broses cynllunio, y perfformiad a'r broses rheoli risgiau mewn perthynas â gwaith polisi a gweithredol cysylltiedig. Gwelwyd dechrau'r symudiad hwn eleni, gyda rhai cyfarwyddiaethau, er enghraifft Cyfathrebu, Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, a Llywodraethu a Chynllunio, yn symud i ffurfio un Bwrdd Busnes Gwasanaethau Corfforaethol. Mae meysydd gwaith eraill o fewn Polisi a Gweithrediadau, e.e. y Bwrdd Busnes Rheoleiddio, y Bwrdd Busnes Rheoli Adnoddau Naturiol, yn mynd rhagddynt yn yr un modd, gydag ardaloedd newydd i'w sefydlu wedi i'r strwythur newydd gael ei roi ar waith, e.e. Stiwardiaeth Tir. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gefnogi gan Reolwr Risgiau penodedig a fydd yn cael ei benodi yn ystod 2019-20, yn rhan o'r strwythur newydd i ysgogi gwell dealltwriaeth a chysondeb ledled y sefydliad.

## **Sicrwydd gwybodaeth**

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod data a gwybodaeth yn cael eu llywodraethu a'u rheoli'n dda, a'u bod yn parhau i sicrhau cydbwysedd rhwng bod yn agored a diogelwch, gan ofalu bod staff a chwsmeriaid yn cael sicrwydd ynghylch lefelau amddiffyn addas. Mae'r Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) yn parhau i arwain rhaglen waith integredig i gryfhau ein hymateb i wytnwch yn erbyn bygythiadau seiber a bygythiadau i ddiogelwch gwybodaeth. Eleni, rydym wedi cyflwyno hyfforddiant ar-lein newydd ar seiberddiogelwch ac wedi adnewyddu ein hachrediad Cyber Essential Plus, a gymeradwywyd gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol ac a archwiliwyd yn annibynnol gan arbenigwr trydydd parti cymwys.

Y llynedd, cafodd Cyfoeth Naturiol Cymru un achos o dorri gwybodaeth a achoswyd gan driniwr trydydd parti o'n gwybodaeth. Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r trydydd parti a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), gan gydymffurfio â'r broses GDPR a sicrhau bod gennym reolaethau a threfniadau rheoli digwyddiadau diogelwch gwybodaeth ar waith sy'n effeithiol.

Mae ein gallu i reoli seiberddiogelwch wedi cryfhau gyda sefydlu a hyfforddi dwy rôl seiberddiogelwch benodol, sy'n canolbwyntio ar fonitro a gwella diogelwch ein hasedau a'n gwasanaethau digidol. Yn yr un modd, mae ein gallu i gydymffurfio â'r GDPR a'i roi ar waith wedi cryfhau gyda chymorth rôl arbenigol y Swyddog Diogelu Data a hyfforddiant GDPR a gyflwynwyd i bob aelod o staff.

## **Effeithiolrwydd y rheolaeth fewnol**

Mae pob aelod o'm Tîm Gweithredol wedi llofnodi Tystysgrif Sicrwydd ac wedi cwblhau Rhestr Wirio ynghylch Rheolaeth Fewnol, a oedd yn gofyn iddynt lunio asesiad yn seiliedig ar dystiolaeth o effeithiolrwydd y fframwaith rheoli sydd ar waith ar gyfer eu Cyfarwyddiaeth.

Mae'r canlyniadau cyffredinol eleni yn parhau i fod yn gadarnhaol, gydag aelodau'r Tîm Gweithredol yn ategu bod ein fframwaith rheoli yn parhau i gael ei ddatblygu a'i roi ar waith ledled yr holl feysydd gwaith. Mae polisïau

a gweithdrefnau yn parhau i gael eu cyflwyno neu eu diwygio yn ôl y gofyn er mwyn ymaddasu i newidiadau allanol neu fylchau mewnol a nodwyd. Mae cysondeb y gweithredu yn parhau i fod yn bryder mewn rhai meysydd, er enghraifft rheoli gwybodaeth, a hynny oherwydd y flaenoriaeth barhaus i brosiectau allweddol eraill, er enghraifft Cynllun y Sefydliad, yn ogystal â gweithgareddau'r gwaith dyddiol. Mae'r uwch-reolwyr yn ymwybodol o hyn, a byddant yn ceisio gwella cysondeb trwy roi Cynllun y Sefydliad ar waith, ynghyd â rhaglen sefydlu ddiwygiedig a gynlluniwyd ar gyfer 2019-20.

Rydym wedi sefydlu mesurau gwrth-dwyll a chwythu'r chwiban er mwyn mynegi pryderon difrifol am gamymddwyn neu amhriodoldeb. Yn dilyn pryderon a fynegwyd yn Adroddiad Grant Thornton ym mis Chwefror 2019, mae'r polisi chwythu'r chwiban a'r gweithdrefnau ategol yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd, a disgwylir y bydd newidiadau'n cael eu rhoi ar waith yn ystod haf 2019.

Mae 23 o honiadau o dwyll wedi dod i law, ac aethpwyd i'r afael â nhw yn unol â phroses gwrth-dwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth CNC. Caiff y rhain eu hadrodd i'n Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, a chawsant eu trafod gan ddefnyddio ymchwilwyr mewnol hyfforddedig a gweithdrefnau cytunedig.

## Adroddiad archwilio

Mae ein tîm Archwilio Mewnol wedi cwblhau ei gynllun archwilio blynyddol, a hynny gyda chynnydd rheolaidd ac adborth i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Barn y Rheolwr Archwilio Mewnol, fel y nodir yn ei adroddiad sicrwydd blynyddol, yw:

*"Mae CNC wedi bod yn wynebu newid digyffelyb ers ei sefydlu. Yn 2018-19, roedd rhaglen Cynllun y Sefydliad a materion yn ymwneud â phren yn golygu bod yna alw cynyddol ar y sefydliad a'i staff, ac roedd hyn yn cynyddu'r proffil risg cyffredinol.*

*Caiff y farn archwilio flynyddol ei llywio gan y gwaith o gyflawni'r cynllun Archwilio Mewnol. Eleni, bu i ni ddarparu sicrwydd cyfyngedig ynghylch chwe maes busnes allweddol. Roeddent yn cynnwys cynllunio'r gweithlu, parhad busnes, contractau gwerthu pren, adolygu diogelwch coedwigaeth a roddwyd ar waith gan lechyd a Diogelwch, Cynllun y Sefydliad a'r rhaglen Parodrwydd Diwrnod Un. Roedd sylw'r archwiliad hefyd yn cynnwys cynllunio busnes a cheisiadau heb eu hariannu, y parodrwydd i ddelio â Brexit heb fargen, rhai agweddau ar ddiogelwch TG, ac agweddau amrywiol ar werthu pren. Mae nifer y meysydd lle nodwyd gwendidau rheoli sylweddol ynddynt wedi cynyddu o gymharu â'r llynedd (pan oedd gennym 12 o farnau Cymedrol a dim barn Gyfyngedig). Mae hyn, ynghyd â'n hasesiad o lywodraethu a rheoli risgiau (isod) wedi fy arwain i'r casgliad y gallaf gynnig barn sicrwydd gyffredinol gyfyngedig.*

*Roedd gwendidau sylweddol o ran llywodraethu mewnol a fframwaith y rheolaethau mewnol ar gyfer gwerthu pren wedi parhau i gael eu nodi gan Swyddfa Archwilio Cymru, ac yna gan adolygiadau dilynol a gomisiynwyd yn fewnol, yn cynnwys y rhai a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol. Mae'r rheolwyr wedi rhoi rhaglen wella ar waith i ddelio â'r methiannau a nodwyd, ond mae'n rhy gynnar i asesu ei heffeithiolrwydd. Byddwn yn ailymweld â'r meysydd hyn yn 2019-20; fodd bynnag, mae barn flynyddol 2018-19 yn adlewyrchu'r sefyllfa eleni.*

*Trwy gyflawni'r cynllun Archwilio Mewnol, rydym wedi amlygu rhai materion llywodraethu ehangach sydd wedi'u gwreiddio yn niwylliant y sefydliad. Mae'r rhain yn y meysydd ansawdd a chraffu ar wybodaeth a gyflwynir ar gyfer gwneud penderfyniadau, uwchgyfeirio a goruchwyllo. Nid yw'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gallu asesu hyd a lled y materion hyn yn llawn eto. Fodd bynnag, ymddengys eu bod, i raddau, yn gyffredin ym mwyafrif y meysydd yr ydym wedi eu harchwilio neu wedi darparu cyngor yn eu cylch. Rwyf wedi ystyried hyn wrth lunio cynllun archwilio 2019-20.*



*Yn eu Cofrestr Risgiau Corfforaethol, roedd rheolwyr CNC wedi asesu “Diwylliant o gydymffurfio gwael” yn debygolrwydd uchel ac yn risg effaith uchel iawn. Mae hyn, ynghyd â'r ffaith bod y sefydliad yn y cyfnod hwnnw lle mae risg yn uchel, yn peri pryderon, ac yn cael ei adlewyrchu yn y farn archwilio flynyddol.*

*Gydol y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r sefydliad wedi dechrau cydnabod a derbyn bod ei aeddfedrwydd o ran Rheoli Risgiau yn is na'r hyn a ddymunir. Roedd hunanasesiad a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2019 gan y Tîm Gweithredol wedi dynodi sgôr gyfartalog o 2 (ar raddfa o 1-isaf i 5-uchaf) o gymharu â model aeddfedrwydd. Roedd y disgrifiad o'r lefel hon fel a ganlyn: “mae'r rheolwyr wedi cydnabod egwyddorion allweddol rheoli risgiau ond nid ydynt eto wedi dechrau eu rhoi ar waith o ddifrif”. Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol. Er bod gwaith wedi dechrau i wella aeddfedrwydd sefydliadol yn y maes hwn, mae hyn wedi bod yn araf, gan adael gwendid parhaus yn y broses reoli sylfaenol hon, a gafodd effaith ar fy marn i.”*

## Y Gwasanaeth Archwilio Allanol

Yn dilyn tair blynedd yn olynol o farn amodol ar gyfrifon CNC, gofynnais, ar sail rheoleidd-dra, i Grant Thornton lunio adolygiad annibynnol o'n gweithrediadau gwerthu pren.

Daeth Adroddiad Terfynol Grant Thornton i law ac, ar 4 Chwefror 2019, cafodd ei rannu â'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, staff CNC a'r cyhoedd. Roedd Syr David Henshaw a minnau hefyd wedi mynd i sesiwn graffu'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 11 Chwefror 2019, i drafod y pryderon a fynegwyd yno.

Rydym yn cydnabod nad mater sy'n ymwneud ag un maes busnes yw hwn, ac, mewn ymateb, rwyf wedi penodi rheolwr prosiect penodol i oruchwylio'r Cynllun Gwella. Erbyn hyn, mae yna gyfarfodydd tîm prosiect yn cael eu cynnal yn wythnosol, ynghyd â chyfarfodydd misol o grŵp goruchwylio y Bwrdd, i stiwardio'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Gwella. Hyd yma, mae'r gwaith yn cynnwys y canlynol:

- Creu saith ffrwd waith, gydag arweinydd busnes yn canolbwyntio ar y ddarpariaeth ac yn adrodd yn ôl i'r grŵp prosiect yn ddi-oed
- Cyflogi secondai o Grant Thornton i ystyried mater y gwerthiant sefydlog
- Rhagor o gyfathrebu â staff ynghylch cydymffurfio, sy'n cynnwys gwaith ymgysylltu da â chydweithwyr Cynaeafu a Marchnata
- Mae dogfen Safonau Gwerthiant Pren newydd yn cael ei defnyddio
- Cynnal ein diwrnod cyswllt cyntaf gyda'r diwydiant Pren i esbonio newidiadau CNC
- Cynnal cyfarfod â'n Penaethiaid Lleoedd i edrych ar yr Adroddiad a'r Cynllun Gwella dilynol, ac ystyried beth y mae hyn yn ei olygu i weithrediadau yn eu meysydd cyfrifoldeb.

Yn unol â'n cynllun gwella, rydym yn cadw golwg fanwl ar gynnydd cyn y byddwn yn dychwelyd i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Rhagfyr 2019.

# Adroddiad ar Daliadau a Staff (archwiliedig)

## Adroddiad ar Daliadau

### Polisi Tâl

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu Pwyllgor Pobl a Thâliadau i ystyried materion sy'n ymwneud â chyflogau ac amodau cyflogaeth y staff uchaf a'r strategaeth gyflogau gyffredinol ar gyfer yr holl staff a gyflogir gan CNC. Mae'r Pwyllgor Pobl a Thâliadau yn cynnwys pedwar aelod anweithredol o'r Bwrdd. Mae Cadeirydd y Bwrdd yn aelod ex officio o'r Pwyllgor.

Pennir taliadau'r Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd gan Weinidogion Cymru. Mae telerau contractau uwch-gyflogeion (aelodau'r Tîm Gweithredol) yn seiliedig ar delerau ac amodau CNC. Nid yw'r polisi tâl ar gyfer y staff uchaf yn destun cydfargeinio, ac mae'r pecyn taliadau cydnabyddiaeth yn cael ei bennu trwy gyfeirio at set o rolau meincnod yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru ac at sefydliadau tebyg yn y Deyrnas Unedig. Mae symudiad rhwng y pwyntiau cyflog yn amodol ar asesiad o berfformiad gan y Prif Weithredwr a phrosesau cymedroli gan y Pwyllgor Tâl. Dim ond ar gyfer perfformiad rhagorol cyson y gellir cael unrhyw symudiad trwy'r pwyntiau cyflog a thu hwnt, a hynny yn unol ag asesiad gan y Prif Weithredwr, a gadarnheir gan y Pwyllgor Pobl a Thâliadau.

Nid oedd yna fargen cyflogau yn bodoli ar gyfer unrhyw un o'r staff yn ystod y cyfnod 1 Gorffennaf 2017 i 30 Mehefin 2018. Cafodd cynnydd cyfunol mewn cyflogau o 1% ei roi ar waith o fis Gorffennaf 2018 ymlaen, yn rhan o'r cynnig Gwerthuso Swyddi cyfan.

Mae yna gytundeb partneriaeth cymdeithasol ar waith gyda phum undeb llafur, ac mae pennu telerau ac amodau ar gyfer staff islaw aelodau'r Tîm Gweithredol yn cael ei wneud trwy gytundeb ar y cyd â'r partneriaid cymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo unrhyw newidiadau i gyflogau a thelerau ac amodau, ac mae'n rhoi cylch cyflog i CNC y mae'n rhaid iddo weithredu yn unol ag ef. Yn rhan o'r cynnig Gwerthuso Swyddi, cytunwyd ar fargen cyflogau anghyfunol o 1% ar gyfer 2017/18. Caiff hyn ei gyfuno â chyflogau o 2018/19 ymlaen.

### Contractau gwasanaeth

Gwneir pob penodiad i'r Bwrdd ar ran y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig.

Disgwylir i'r Prif Weithredwr ac aelodau'r Tîm Gweithredol gael eu cyflogi o dan gontractau parhaol. Gwneir penodiadau yn unol â'n polisi recriwtio, sy'n ei gwneud yn ofynnol penodi yn ôl teilyngdod ac ar sail cystadleuaeth deg ac agored.

Oni nodir yn wahanol isod, mae aelodau'r Tîm Gweithredol sy'n dod o dan yr adroddiad hwn yn dal penodiadau sy'n benagored. Mae'n ofynnol i'r swyddogion hyn ac aelodau'r Bwrdd ddarparu rhybudd o dri mis o'u bwriad i adael.

## Hawliau i gyflog a phensiwn

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion taliadau aelodau o'r Bwrdd, a thaliadau a buddiannau pensiwn aelodau'r Tîm Gweithredol. Nid oes gan aelodau'r Bwrdd yr hawl i ymuno â Chynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil nac i gael budd-daliadau eraill. Byddai terfynu'n gynnar, ac eithrio am gamymddwyn, yn golygu y byddai aelodau'r Tîm Gweithredol yn cael iawndal yn unol â Chynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil. Nid oes gan aelodau'r Bwrdd yr hawl i iawndal.

## Taliadau aelodau'r Bwrdd

Aelod o'r Bwrdd	Contract Cyflogaeth	Cyflog 2018/19 (graddfa £5,000)	Cyflog 2017/18 (graddfa £5,000)
Karen Balmer <sup>1,2</sup>	9-11-18 i 8-11-22	15-20	15-20
Chris Blake <sup>1</sup>	9-11-18 i 8-11-20	10-15	10-15
Catherine Brown <sup>8</sup>	1-11-18 i 31-10-22	5-10	0
Julia Cherrett <sup>8</sup>	1-11-18 i 31-10-21	5-10	0
Geraint Davies <sup>8</sup>	1-1-19 i 8-11-20	0-5	0
Howard Davies <sup>1,11</sup>	9-11-18 i 8-11-20	10-15	10-15
Dr Ruth Hall CBE <sup>9</sup>	1-11-17 i 31-10-18	5-10	10-15
Dr Madeleine Havard <sup>3</sup> (Dirprwy a Chadeirydd Dros Dro)	1-11-17 i 31-10-18	10-15	15-20
Elizabeth Haywood <sup>1,12</sup>	9-11-18 i 8-11-20	10-15	10-15
Syr David Henshaw <sup>13</sup>	1-11-18 i 31-10-19	15-20	0
Zoë Henderson <sup>1,10</sup>	9-11-18 i 8-11-22	15-20	10-15
Diane McCrea (Cadeirydd) MBE <sup>4</sup>	1-12-15 i 19-7-18	20-25	40-45
Andy Middleton <sup>5</sup>	1-11-17 i 31-10-18	5-10	10-15
Steve Ormerod <sup>8</sup>	1-11-18 i 31-10-22	5-10	0
Rosie Plummer <sup>8</sup>	1-11-18 i 31-10-21	5-10	0
Nigel Reader CBE <sup>6</sup>	1-11-17 i 31-10-18	5-10	10-15
Peter Rigby <sup>8</sup>	1-11-18 i 31-10-21	5-10	0
Syr Paul Williams OBE <sup>7</sup>	1-11-17 i 31-10-18	5-10	15-20

<sup>1</sup> Ailbenodwyd yr aelodau hyn o'r Bwrdd. Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw penodi Cyfarwyddwyr Anweithredol neu Aelodau Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru, ac fe'u penodir am gyfnodau sy'n amrywio yn eu hyd.

<sup>2</sup> Penodwyd Karen Balmer yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC) o 1 Medi 2017.

<sup>3</sup> Madeleine Havard oedd Dirprwy Gadeirydd y Bwrdd tan 19 Gorffennaf 2018. Ei chyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yn Ddirprwy Gadeirydd oedd £15,000 i £20,000. Fe'i penodwyd yn Gadeirydd Dros Dro CNC ar gyfer y cyfnod 20 Gorffennaf 2018 i 31 Hydref 2018. Ei chyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yn Gadeirydd Dros Dro oedd £30,000 i £35,000, a oedd yn seiliedig ar 72 diwrnod y flwyddyn. Bu hefyd yn Gadeirydd y Grŵp Cynghori ar Reoli Perygl Llifogydd tan 31 Hydref 2018.

<sup>4</sup> Yn ystod 2017/18, roedd cyflog Diane McCrea yn seiliedig ar ymrwymiad amser o 96 diwrnod y flwyddyn o 1 Ebrill 2017 i 31 Awst 2017, a 72 diwrnod y flwyddyn o 1 Medi 2017 i 31 Mawrth 2018. Yn ystod 2018/19 cafodd ôl-dâl am y diwrnodau ychwanegol y bu'n gweithio o 1 Medi 2017 i 19 Gorffennaf 2018, a oedd yn seiliedig ar ymrwymiad amser o 96 diwrnod y flwyddyn. Ei chyflog cyfwerth ag amser llawn, yn seiliedig ar 96 diwrnod y flwyddyn, oedd £40,000 i £45,000.

<sup>5</sup> Andy Middleton oedd Cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig hyd nes iddo orffen ar 31 Hydref 2018. Ei gyflog cyfwerth â blwyddyn lawn ar gyfer 2018/19 oedd £10,000 i £15,000.

<sup>6</sup> Roedd Nigel Reader yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg tan 31 Awst 2017. Ei chyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yn gadeirydd ARAC oedd £15,000 i £20,000. Ei gyflog cyfwerth â blwyddyn lawn ar gyfer 2018/19 oedd £10,000 i £15,000.

<sup>7</sup> Syr Paul Williams oedd Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Thâl tan 31 Awst 2018. Ei chyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yn Gadeirydd y Pwyllgor Pobl a Thâl oedd £15,000 i £20,000. O 1 Medi 2018, ei chyflog cyfwerth â blwyddyn lawn oedd £10,000 i £15,000.

<sup>8</sup> Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yr aelodau bwrdd newydd yw £10,000 i £15,000.

<sup>9</sup> Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn Ruth Hall ar gyfer 2018/19 yw £10,000 i £15,000.

<sup>10</sup> Penodwyd Zoë Henderson yn Gadeirydd y Pwyllgor Pobl a Thâl ar 1 Medi 2018. Ei chyflog cyfwerth â blwyddyn lawn ar gyfer 1 Ebrill 2018 i 31 Awst 2018 oedd £10,000 i £15,000, ac yn Gadeirydd y pwyllgor hwn mae'n £15,000 i £20,000.

<sup>11</sup> Penodwyd Howard Davies yn Gadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig ar 1 Tachwedd 2018.

<sup>12</sup> Penodwyd Elizabeth Haywood yn Gadeirydd y Grŵp Cynghori ar Reoli Llifogydd a Risgiau ar 1 Tachwedd 2018.

<sup>13</sup> Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn Syr David Henshaw ar gyfer 2018/19 yw £45,000 i £50,000.

## Tâl y Tîm Gweithredol

Aelod o'r Tîm Gweithredol	Cyflog (£5000 graddfa)		Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf)		Budd-daliadau pensiwn <sup>6</sup> (i'r £1,000 agosaf)		Cyfanswm (£5000 graddfa)	
	2018/19	2017/18	2018/19	2017/18	2018/19	2017/18	2018/19	2017/18
Clare Pillman <sup>1</sup> (Prif Weithredwr)	130-135	10-15	0	0	284,000	29,000	410-415	15-20
Dr Emyr Roberts <sup>2</sup> (Prif Weithredwr)	0	120-125	0	0	0	(8,000)	0	115-120
Ceri Davies	100-105	100-105	0	0	38,000	7,000	140-145	105-110
Ashleigh Dunn <sup>3</sup>	30-35	90-95	0	0	8,000	36,000	40-45	125-130
Kevin Ingram <sup>4</sup>	95-100	100-105	0	0	18,000	58,000	115-120	160-165
Tim Jones	90-95	90-95	0	0	0	20,000	90-95	110-115
Catherine Love	75-80	75-80	0	0	30,000	30,000	105-110	105-110
Gareth O'Shea	90-95	90-95	0	0	26,000	24,000	115-120	115-120
Niall Reynolds <sup>5</sup>	75-80	80-85	0	0	8,000	26,000	85-90	105-110

<sup>1</sup> Penodwyd Clare Pillman yn Brif Weithredwr ar 26 Chwefror 2018. Ei chyflog cyfwerth â blwyddyn lawn ar gyfer 2017/18 oedd £130,000 i £135,000. Mae'r ffigur a ddatgelwyd o ran ei buddion pensiwn ar gyfer 2017/18 wedi cael ei ailddatgan i ystyried enillion a buddion pensiwn o'i chyflogaeth flaenorol. Mae ei rôl yn CNC wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y pensiwn a chyfandaliad a gronwyd ar 31 Mawrth 2019, sydd i'w weld yn y ffigur buddion pensiwn a ddatgelwyd ar gyfer 2018/19 uchod, ac a gyfrifir yn unol â throednodyn 6.

<sup>2</sup> Gorffennodd Dr Emyr Roberts ar 31 Hydref 2017. Mae'r ffigur cyflog a adroddwyd ar gyfer 2017/18 yn cynnwys taliad o £35,000 i £40,000 a wnaed o dan delerau cytundeb setliad. Y cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn ar gyfer 2017/18 oedd £145,000 i £150,000.

<sup>3</sup> Gorffennodd Ashleigh Dunn ar 31 Gorffennaf 2018. Ei chyflog cyfwerth â blwyddyn lawn ar gyfer 2018/19 oedd £90,000 i £95,000.

<sup>4</sup> Bu Kevin Ingram yn Brif Weithredwr ar gyfer y cyfnod 1 Tachwedd 2017 i 25 Chwefror 2018, ac roedd y cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn ar gyfer y cyfnod hwn yn £120,000 i £125,000. Y cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn ar gyfer gweddill 2017/18 oedd £95,000 i £100,000.

<sup>5</sup> Bu Niall Reynolds yn gweithredu fel Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol am y cyfnod 1 Tachwedd 2017 i 25 Chwefror 2018, ac roedd y cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn ar gyfer y cyfnod hwn yn £85,000-£90,000. Y cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn ar gyfer gweddill 2017/18 oedd £75,000 i £80,000.

<sup>6</sup> Cyfrifir gwerth y buddion pensiwn a gronwyd yn ystod y flwyddyn fel y gwir gynnydd mewn pensiwn wedi'i luosi â 20, ynghyd â'r cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad, llai cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn. Mae'r gwir gynnydd yn eithrio cynnydd o ganlyniad i chwyddiant, neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn. Nid yw'r gwerth hwn yn cynrychioli swm y bydd yr unigolyn yn ei gael. Mae'n gyfrifiad y bwriedir iddo roi amcangyfrif i ddarllenwyd y cyfrifon o'r budd y gallai bod yn aelod o'r cynllun pensiwn ei ddarparu. Mae'r tabl budd-daliadau pensiwn yn darparu gwybodaeth bellach am y buddion pensiwn sy'n cronni i'r unigolyn.

## Cyflog

Mae cyflog yn cynnwys symiau pensiynadwy a symiau nad ydynt yn bensiynadwy, ac mae'n cynnwys cyflog gros, goramser ac unrhyw lwfansau neu daliadau sy'n destun trethiant y Deyrnas Unedig. Nid yw'n cynnwys symiau sy'n ad-daliad am dreuliau wedi deillio'n unionyrchol o berfformio dyletswyddau unigolyn.

## Cyflog ar sail perfformiad

Yn achos y Tîm Gweithredol, mae symudiad rhwng y pwyntiau cyflog yn amodol ar asesiad perfformiad gan y Prif Weithredwr a phroses gymedroli gan y Pwyllgor Tâl. Dim ond ar gyfer perfformiad rhagorol cyson y gellir cael unrhyw symudiad trwy'r pwyntiau cyflog a thu hwnt, a hynny yn unol ag asesiad gan y Prif Weithredwr, a gadarnheir gan y Pwyllgor Pobl a Thâliadau.

## Buddion mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol buddion mewn nwyddau yn cwmpasu unrhyw fuddion a ddarperir gan y cyflogwr ac sy'n cael eu trin gan Gyllid a Thollau EM fel enillion trethadwy. Ni chafodd unrhyw un o aelodau'r Bwrdd na'r Tîm Gweithredol fuddion mewn nwyddau yn ystod 2017/18 na 2018/19.

Ni chafodd naill ai aelodau'r Bwrdd nac uwch-staff unrhyw daliadau heblaw am y symiau a ddangosir uchod.



## Budd-daliadau pensiwn

Aelod o'r Tîm Gweithredol	Pensiwn Cronnus yn ôl oedran pensiwn ar 31/03/19	Cyfundaliad Cronnus yn ôl oedran pensiwn ar 31/03/19	Gwir gynnydd mewn pensiwn adeg oedran pensiwn	Gwir gynnydd mewn Cyfundaliad Cronnus adeg oedran pensiwn	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyferth ag Arian Parod ar 31/03/19	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyferth ag Arian Parod ar 31/03/18	Gwir Gynnydd mewn Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyferth ag Arian Parod
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Clare Pillman <sup>1</sup> (Prif Weithredwr)	45-50	125-130	12.5-15	30-32.5	976	649	246
Ceri Davies	40-45	65-70	0-2.5	0-2.5	819	698	23
Ashleigh Dunn <sup>2</sup>	5-10	0	0-2.5	0	115	106	5
Kevin Ingram	35-40	40-45	0-2.5	(0-2.5)	528	442	6
Tim Jones	40-45	120-125	0-2.5	0-2.5	908	820	(1) <sup>3</sup>
Catherine Love	5-10	0	0-2.5	0	97	67	14
Gareth O'Shea	45-50	80-85	0-2.5	(0-2.5)	803	672	11
Niall Reynolds	35-40	70-75	0-2.5	(0-2.5)	806	701	(1) <sup>3</sup>

<sup>1</sup> Mae'r ffigurau pensiwn ar gyfer 18/19 a'r Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyferth ag Arian Parod (CETV) ar 31 Mawrth 2018 bellach yn ystyried ffigurau enillion a phensiynau o'i chyflogaeth flaenorol.

<sup>2</sup> Hyd at 31 Gorffennaf 2018.

<sup>3</sup> O ystyried chwyddiant, mae'r CETV a ariennir gan y cyflogwr wedi gostwng mewn termau real.

## Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyferth ag Arian Parod (CETV)

Gwerth Trosglwyddo sy'n gyferth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafol buddiannau'r cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol ac a aseswyd ar sail tybiaethau actiwaraid. Y buddion a brisir yw buddion cronnus yr aelod a phensiwn unrhyw briod dibynol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan drefniant neu gynllun pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn trefniant neu gynllun pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion y mae wedi'u cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w aelodaeth gyfan o'r cynllun pensiwn, ac nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch, y mae datgeliad yn berthnasol iddi.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd ar gyfer yr aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir CETVau yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008, ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i fudd-daliadau sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes a allai fod yn ddyledus pan gymerir buddion pensiwn.

## Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV sy'n cael ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronnus o ganlyniad i chwyddiant neu gyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o drefniant neu gynllun pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Iawndal am golli swydd

Gadawodd Ashleigh Dunn dan gynllun ymadael gwirfoddol ar 31 Gorffennaf 2018. Cafodd daliad iawndal o £25,000 i £30,000.

Cytunodd Niall Reynolds i adael yn ystod 2018/19 ac, fel y cyfryw, mae ei becyn ymadael wedi cael ei gynnwys yn y tabl Pecynnau Ymadael ar dudalen 65. Bydd yn cael taliad iawndal o £95,000 i £100,000 ym mis Ebrill 2019. .

## Datgeliad cyflog teg

Mae'n ofynnol i CNC a chyrrff tebyg ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog mwyaf yn eu sefydliad a thâl canolrifol gweithlu'r sefydliad. Mae cyfanswm y tâl yn cynnwys cyflog a buddion mewn nwyddau lle bo hynny'n berthnasol. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn cyflogwr na'r CETV.

Yn 2018/19, cafodd dau aelod o staff contract (2017/18: dim) dâl a oedd ar gyfradd uwch na'r cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf. Taliad bandog y Cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf ym mlwyddyn ariannol 2018/19 oedd £130,000 i £135,000 (2017/18: £130,000 i £135,000). Roedd hyn bedair gwaith (2017/18: pedair gwaith) cydnabyddiaeth ganolrifol y gweithlu, sef £33,424 (2017/18: £32,090). Mae graddfeydd cyflog y staff yn amrywio o £17,003 i £65,068. Dangosir tâl y cyfarwyddwyr yn y tabl uchod.

## Adroddiad staff

This report provides information on the composition and costs of our workforce.

### Nifer y staff fesul pen a chyfwerth ag amser llawn fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2019

	Gwryw		Benyw		Cyfanswm	
	Fesul pen	Cyfwerth ag amser llawn	Fesul pen	Cyfwerth ag amser llawn	Fesul pen	Cyfwerth ag amser llawn
<b>Pob cyflogai</b>	1,155	1,130	905	827	2,060	1,957
o'r rhain:						
Y Tîm Arweinyddiaeth	14	14	7	6	21	20
Y Tîm Gweithredol	4	4	3	3	7	7

### Nifer y staff fesul pen a chyfwerth ag amser llawn fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2018 (Ailddatganwyd i eithrio 93 o wirfoddolwyr)

	Gwryw		Benyw		Cyfanswm	
	Fesul pen	Cyfwerth ag amser llawn	Fesul pen	Cyfwerth ag amser llawn	Fesul pen	Cyfwerth ag amser llawn
<b>Pob cyflogai</b>	1,148	1,127	883	800	2,031	1,927
o'r rhain:						
Y Tîm Arweinyddiaeth	15	15	7	6	22	21
Y Tîm Gweithredol	4	4	4	4	8	8

## Nifer cyfartalog yr unigolion cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn oedd:

	2018/19		2017/18	
	Staff Parhaol	Eraill	Cyfanswm	Cyfanswm
Cyflogir yn uniongyrchol	1,728	104	1,832	1,791
Staff asiantaeth a chontract	0	123	123	91
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,728</b>	<b>227</b>	<b>1,955</b>	<b>1,882</b>

Y nifer cyfartalog o staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd ar brosiectau cyfalaf oedd 141.9 (2017/18: 104.7)

## Cost staff

	2018/19		2017/18	
	Staff parhaol £'000	Staff eraill £'000	Cyfanswm £'000	Cyfanswm £'000
Taliadau a Chyflogau	57,176	11,579	68,755	64,305
Costau nawdd cymdeithasol a threthi eraill	5,875	542	6,417	6,545
Costau pensiwn eraill	12,501	915	13,416	18,742
<b>Cyfanswm net costau cyflogau</b>	<b>75,552</b>	<b>13,036</b>	<b>88,588</b>	<b>89,592</b>
<b>Gwariant arall ar gyfer staff</b>		<b>Nodyn</b>		
Costau pecynnau ymadael			354	184
Tâl gwasanaeth ychwanegol Safon Cyfrifyddu Ryngwladol 19 (pensiynau)		14	13,865	10,978
Llai costau pensiwn ymddeoliad cynnar			0	(18)
Llai cyfraniadau pensiwn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn ystod y flwyddyn			(7,089)	(12,181)
Trosglwyddo i ddarparu Taliadau lawndal Blynyddol			2	0
Costau staff eraill			0	4
Symudiad mewn tâl gwyliau cronrus			880	223
<b>Cyfanswm gwariant arall ar gyfer staff</b>			<b>8,012</b>	<b>(810)</b>
Llai symiau a godwyd ar brosiectau cyfalaf			(6,466)	(4,651)
<b>Cyfanswm costau staff</b>			<b><u>90,134</u></b>	<b><u>84,131</u></b>

Mae manylion rhwymedigaethau pensiwn CNC i'w gweld yn Nodyn 14.

Mae manylion tâl aelodau a chyfarwyddwyr y Bwrdd yn yr adroddiad ar daliadau. Mae'r gwasanaethau sy'n cael eu prynu i mewn yn Nodyn 5 (gwariant arall) yn cynnwys gwariant o £6.9 miliwn ar ymgyngorwyr.

## Cynlluniau pensiwn

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn aelod o ddau gynllun pensiwn. Cynllun agored yw Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn aelod caeedig o Gronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd, a hynny o dan gytundeb derbyn cymunedol. Dangosir manylion pellach am y cynlluniau pensiwn hyn isod.

## Cyfraniadau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a Chynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) - a elwir yn "Alpha" - yn gynlluniau buddion diffiniedig amlgyflogwr heb eu

hariannu, ond ni all Cyfoeth Naturiol Cymru nodi ei gyfran o'r rhwymedigaethau ac asedau sylfaenol. Roedd actiwari'r cynllun wedi prisio'r PCSPS fel yr oedd ar 31 Mawrth 2012. Gallwch ddod o hyd i fanylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-daliadau Sifil yn [www.civilservicepensionscheme.org.uk](http://www.civilservicepensionscheme.org.uk).

Ar gyfer 2018/19, roedd cyfraniadau cyflogwr o £6,939k yn daladwy i'r PCSPS (2017/18: £5,794k) ar un o bedair cyfradd yn yr ystod 20% i 24.5% o enillion pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr bob pedair blynedd, fel arfer, yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Mae cyfraddau'r cyfraniadau yn cael eu pennu i dalu cost y buddion sy'n cronni yn ystod 2018/19 ac sydd i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol; nid ydynt yn talu cost y buddion a delir yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr cyfredol.

### **Pensiynau partneriaeth rhanddeiliaid**

Gall gweithwyr ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sef pensiwn rhanddeiliaid gyda chyfraniad cyflogwr. Cafodd cyfraniadau cyflogwr o £94k (2017/18: £59k) eu talu i un neu fwy o'r panel o dri darparwr pensiwn rhanddeiliaid a benodwyd. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn gysylltiedig ag oedran ac yn amrywio o 8% i 14.75%. Mae cyflogwyr hefyd ynparu cyfraniadau cyflogeion o hyd at 3% o enillion pensiynadwy. Yn ychwanegol, roedd cyfraniadau cyflogwr o £3k, sef 0.5% o'r tâl pensiynadwy, yn daladwy i'r PCSPS i dalu costau darparu buddion cyfandaliadau yn y dyfodol yn achos y gweithwyr hynny a fyddai'n marw yn y swydd neu'n ymddeol ar sail afiechyd.

Nid oedd unrhyw gyfraniadau yn ddyledus i'r darparwyr pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y fantolen, ac nid oedd unrhyw gyfraniadau wedi cael eu talu ymlaen llaw.

### **Cyfraniadau y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwneud taliadau i Gronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd (EAPF), fel yr awdurdod gweinyddu ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a hynny trwy Capita, sef gweinyddwyr y gronfa pensiwn.

Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus a ariennir, sy'n statudol a diffiniedig. Bob tair blynedd, mae'r EAPF yn cynnal prisiad ar y cyd ag Actiwari'r Cynllun. Asesodd prisiad 31 Mawrth 2016 sefyllfa ariannol EAPF ar lefel ariannu o 103% (2013: 90%). Prif ddiben y prisiad actiwaraidd yw adolygu sefyllfa ariannol y gronfa a phennu lefel y cyfraniadau yn y dyfodol ar gyfer cyflogwyr yn y gronfa.

Cyflwynodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig reoliadau yn 2016 sy'n ei gwneud yn ofynnol i gronfeydd y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gyfuno buddsoddiadau i wella effeithlonrwydd. Crëwyd Partneriaeth Pensiwn Brunel, a oedd yn cynnwys EAPF a naw cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol arall, i fodloni'r rhwymedigaeth hon.

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru gytundeb derbyn cymunedol â'r EAPF i gyfranogi yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, cytundeb a gymeradwywyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol mewn perthynas â chyn-staff Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a drosglwyddodd i CNC ar 1 Ebrill 2013. Cafodd y rhwymedigaethau ar gyfer cyn-aelodau a gyflogid



gan Asiantaeth yr Amgylchedd mewn perthynas â swyddogaethau Cymreig (pensiynau mewn taliadau ac aelodau gohiriedig) eu trosglwyddo hefyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i warant gyda'r EAPF i'w digolledu ar gyfer unrhyw rwymedigaethau sy'n codi o gyfranogiad Cyfoeth Naturiol Cymru yn yr EAPF.

Ar gyfer 2018/19, roedd cyfradd cyfraniadau'r cyflogwr yn 21.9% (2017/18: 21.9%). Yn 2018/19, talwyd cyfraniadau cyflogwr o £7,089k i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (2017/18: £12,181k) a oedd yn cynnwys taliad ychwanegol i leihau'r balans ar gronfa pensiwn Safon Cyfrifyddu Ryngwladol (IAS) 19.

## Pecynnau Ymadael

Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl band costau:	2018/19	2017/18
Llai na £10,000	0	2
£10,001 - £25,000	0	1
£25,001 - £50,000	3	3
£50,001 - £100,000	3	1
£100,001 - £150,000	0	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>6</b>	<b>7</b>

Cyfanswm cost adnoddau 2018/19 oedd £354,000 (2017/18: £194,000)

Nid oedd yna unrhyw ddiswyddiadau gorfodol yn 2018/19 na 2017/18.

Talwyd costau ymadael gwirfoddol yn unol â darpariaethau Cynllun lawndal y Gwasanaeth Sifil, cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Nid oedd Cynllun lawndal y Gwasanaeth Sifil yn cwmpasu un pecyn ymadael yn 2017/18. Cyfrifir am gostau ymadael yn llawn yn y flwyddyn y cytunir arnynt.

Lle roedd y cyrff etifeddiaeth wedi cytuno ar ymddeoliadau cynnar, cyfrifwyd y costau'n llawn yn y flwyddyn y cytunwyd arnynt, a gwnaed darpariaeth ar gyfer ymrwymadau yn y dyfodol. Dangosir y taliadau iawndal blynyddol mewn perthynas â'r rhain yn Nodyn 13 (Darpariaethau).

Telir costau ymddeol oherwydd salwch gan y cynlluniau pensiwn, ac nid ydynt wedi cael eu cynnwys yn y tabl.

## Absenoldeb oherwydd salwch (nad yw'n destun archwiliad)

Dangosodd ein cyfradd absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer y flwyddyn dreigl (1 Ebrill 2018 i 31 Mawrth 2019) fod cyfartaledd o 7.6 niwrnod wedi cael eu colli fesul cyflogai, sy'n cyfateb i 3.5%. Y targed oedd colli hyd at gyfartaledd o saith niwrnod, sy'n cyfateb i 3.1% o'r diwrnodau gwaith sydd ar gael.

## Polisïau anabledd (nad ydynt yn destun archwiliad)

### Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd

Ym mis Mai 2018, bu i ni gwblhau ein hymarfer hunanasesu yn llwyddiannus ac, o ganlyniad, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi ailachredu CNC yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd tan 27 Mai 2020.

Cynhaliwyd yr hunanasesiad gan Samantha Carpenter (Uwch-gynghorydd Cydraddoldebau), ac edrychodd ar agweddau ar ein harferion recriwtio a chadw ar gyfer pobl ag anabledd.

### 'Dau Dic' - y Cynllun Gwarantu Cyfweliad

Yn ystod blwyddyn galendr 2018, roeddem wedi parhau i gydymffurfio 100% â'n cynllun gwarantu cyfweliad 'Dau Dic', lle mae'r ymgeiswyr hynny sy'n datgan eu bod yn anabl, yn unol â diffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010, ac sy'n bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y rôl y gwnaed cais amdani, yn cael eu gwahodd yn awtomatig i gyfweliad.

Daeth 903 o geisiadau i law yn allanol, a gofynnodd 33 (3.7%) o'r bobl hynny am gyfweliad gwarantedig. Gwahoddwyd 17 o'r 33 i gyfweliad ond nid oedd yr 16 arall yn bodloni'r meini prawf gofynnol.

Yn fewnol, daeth ceisiadau i law gan 384 o bobl, a gofynnodd 12 (3.1%) o'r bobl hynny am gyfweliad gwarantedig. Gwahoddwyd 9 o'r 12 i gyfweliad ond nid oedd y tri arall yn bodloni'r meini prawf gofynnol.

### Grŵp Defnyddwyr a Gynorthwyr

Mae gennym rwydwaith staff Grŵp Defnyddwyr a Gynorthwyr gweithredol sy'n darparu cyngor a barn ar faterion TG a theleffoni cyfredol a newydd i aelodau o staff sydd ag addasiadau rhesymol wedi eu gwneud i'w gweithfannau. Rydym yn gweld y grŵp hwn yn un arbennig o ddefnyddiol oherwydd ei allu i brofi mentrau newydd, er enghraifft hygyrchedd o ran ein harolygon staff a gynhelir yn allanol. Mae'r rhwydwaith yn allweddol i sicrhau bod yr holl staff yn gallu defnyddio ein systemau; mae'n rhannu arferion gorau ag aelodau grwpiau defnyddwyr, ac, ar ran y sefydliad, mae'n profi'r defnydd o systemau newydd arfaethedig yn rheolaidd.

### Cyfeillion Dementia

Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi darparu rhagor o sesiynau gwybodaeth i gyfeillion dementia ar gyfer staff, wedi tyfu ein haelodaeth Cyfeillion Dementia, ac wedi cael hwyl yn dathlu diwrnod teisennau cwpan a diwrnod coblynnod i feithrin ymwybyddiaeth o ddementia a chodi arian ar gyfer ymchwil i ddementia.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Chymdeithas Alzheimer's Cymru i gyflawni achrediad. Rydym wedi cwblhau blwyddyn dau o'r broses tair blynedd. Gan edrych i'r dyfodol, rydym wedi pennu amcanion ymestynnol sy'n deall dementia yn ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldebau ar gyfer 2019/20, lle byddwn yn parhau i adolygu'r cyfleusterau yn ein canolfannau ymwelwyr i sicrhau ein bod yn cynnig amgylchedd croesawgar i ymwelwyr sy'n byw â dementia, ac yn rhoi ystyriaeth i faterion eraill o ran mynediad. Rydym hefyd yn edrych ar y ffordd orau o rannu ein dysg sy'n deall dementia â phartneriaid eraill er mwyn

cryfhau ein huchelgais am ragoriaeth yn y maes hwn.

## Materion eraill yn ymwneud â chyflogeion (nad ydynt yn destun archwiliad)

Yn dilyn yr adolygiad o Drefniadau Treth Penodeion Sector Cyhoeddus gan y Trysorlys yn 2012, mae'n ofynnol i CNC gyhoeddi gwybodaeth am benodiadau ymgynghorwyr neu staff sy'n para mwy na chwe mis a lle mae'r unigolion yn ennill dros £245 y dydd, a delir gennym trwy anfoneb yn hytrach na thrwy'r gyflogres. Cynlluniwyd y rheolau gweithio oddi ar y gyflogres i sicrhau bod unrhyw un sy'n gweithio trwy gyfryngwr ac a fyddai'n cael ei ystyried, i ddibenion treth incwm a chyfraniadau yswiriant gwladol, yn gyflogai pe byddai'n cael ei gyflogi'n uniongyrchol gan y cleient (CNC), yn talu'n fras yr un dreth incwm a chyfraniadau yswiriant gwladol â phe byddai'n gyflogedig. Nid yw'r rheolau hyn yn berthnasol i bobl sy'n wirioneddol hunangyflogedig.

Ym mis Ebrill 2017, daeth yn gyfrifoldeb y cleient (CNC) i gynnal yr asesiad i ddibenion treth yn hytrach na'r cyfryngwr. Os bydd yr asesiad yn arwain at y penderfyniad fod y rôl y tu mewn i gwmpas IR35, bydd y cyfryngwr yn talu'r un dreth cyflogai â gweithiwr cyflogedig.

Mae'r tablau canlynol yn dangos ein safbwynt mewn perthynas â'r gofynion hyn.

## Ymrwymadau oddi ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2019, am fwy na £245 y dydd ac sy'n para am fwy na chwe mis

Nifer yr ymrwymadau cyfredol ar 31 Mawrth 2019 sydd wedi bodoli am y cyfnodau canlynol:	Nifer y contractwyr
llai na blwyddyn	14
rhwng un a dwy flynedd	14
rhwng dwy a thair blynedd	9
rhwng tair a phedair blynedd adeg yr adroddiad	4
pedair blynedd neu fwy adeg yr adroddiad	14
<b>Cyfanswm</b>	<b>55</b>

Mae mwyafrif y contractwyr yn rhoi cymorth i'r tîm Trawsnewid ddatblygu a thrawsnewid ein systemau TGCh.

**Ymrwymadau newydd oddi ar y gyflogres, neu'r rheiny a gyrhaeddodd hyd o chwe mis rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019, a hynny am fwy na £245 y dydd ac sy'n para mwy na chwe mis**

	Nifer y contractwyr
Nifer yr ymrwymadau newydd, neu'r rheiny a gyrhaeddodd hyd o chwe mis rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019.	12
O'r rhain:	
Y nifer a aseswyd sydd o fewn cwmpas IR35	0
Y nifer a aseswyd nad ydynt o fewn cwmpas IR35	12
Y nifer a gyflogwyd yn uniongyrchol ac sydd ar gyflogres CNC	0
Nifer yr ymrwymadau a ailaseswyd yn ystod y flwyddyn i ddibenion cysondeb/sicrwydd.	0
Nifer yr ymrwymadau a welodd newid o ran statws IR35 yn dilyn yr adolygiad o gysondeb.	0



# Adroddiad Seneddol ac Archwilio (archwiliedig)

## Colledion a thaliadau arbennig

Mae rheolau Rheoli Arian Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol datgelu colledion a thaliadau arbennig yn ôl categori, math a gwerth lle maent yn fwy na chyfanswm o £300,000 ac yn ymwneud ag eitemau unigol sy'n werth £300,000 neu ragor.

## Colledion unigol o £300,000 neu ragor

Nid chafwyd colledion na thaliadau arbennig o £300,000 neu fwy trwy gydol 2018/19.

## Colledion a thaliadau arbennig yn ôl categori

Mae'r tabl isod yn rhoi nifer y ceisiadau am ddileu a thaliadau arbennig a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn.

Categori neu fath o golled	2018/19 Nifer	2018/19 £'000	2017/18 Nifer	2017/18 £'000
Dileu dyledion anadferadwy	118	133	72	67
Colli asedau	15	21	20	48
Colledion eraill (colledion arian parod, taliadau diffrwyth, hawliadau na ellir eu gorfodi, neu roddion)	1	12	13	30
Taliadau arbennig <sup>1</sup>	7	316	9	745
<b>Cyfanswm</b>	<b>141</b>	<b>482</b>	<b>114</b>	<b>890</b>

<sup>1</sup> Cyfeiriwch at 'iawndal am golli swydd' yn yr Adroddiad ar Daliadau a Staff er mwyn cael manylion am un o'r taliadau arbennig a wnaed yn 2017/18.

# Tystysgrif ac Adroddiad Annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

## Adroddiad yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

### Barn

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 o dan baragraff 23 o'r Atodlen i Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, Datganiad o Lifau Arian Parod, Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu arwyddocaol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisiau cyfrifyddu a nodir oddi mewn iddynt. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Llawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol a fabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru ar 31 Mawrth 2019 ac o'i gostau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a roddwyd o dan Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012.

### Sail y farn

Rwyf wedi cynnal fy archwiliad yn unol â chyfraith gymwys a Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU. Ceir disgrifiad manylach o fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny yn yr adran cyfrifoldebau'r archwilydd wrth archwilio'r datganiadau ariannol o fy adroddiad. Rwyf yn annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i fy archwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Rwy'n credu bod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ffurfio sail i fy marn.

### Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd ynghylch y materion canlynol y mae'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn ei gwneud yn ofynnol imi adrodd arnynt pan:

- nad yw'n briodol cyfrifyddu ar sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol; neu
- nid yw'r Swyddog Cyfrifyddu wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd sylweddol a nodwyd a all beri amheuaeth arwyddocaol ynghylch gallu'r corff i barhau i fabwysiadu sail busnes gweithredol wrth gyfrifyddu am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodwyd y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

### Gwybodaeth arall

Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol ac y mae fy archwilwyr yn adrodd arni. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys

yr wybodaeth arall, ac oni nodir fel arall yn eglur yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arni.

O ran fy archwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb yw darllen yr wybodaeth arall i nodi anghysondebau sylweddol â'r datganiadau ariannol sydd wedi'u harchwilio, a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos yn sylweddol anghywir ar sail yr wybodaeth a roddwyd imi wrth gynnal yr archwiliad, neu'n sylweddol anghyson â'r wybodaeth honno. Os byddaf yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau sylweddol, byddaf yn ystyried y goblygiadau ar gyfer fy adroddiad.

## **Barn amodol ar reoleidd-dra**

Yn fy marn i, ac eithrio effeithiau posibl y materion a ddisgrifir yn y paragraffau 'sail y farn amodol ar reoleidd-dra' isod, mae'r holl incwm a gwariant a nodir yn y datganiadau ariannol wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodiadau ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu, a hynny ym mhob agwedd berthnasol.

## **Sail y farn amodol ar reoleidd-dra**

Mae nodyn 6 i'r datganiadau ariannol yn cofnodi incwm pren o £26.3 miliwn yn 2018-19 (£19.5 miliwn yn 2017-18).

Ers 2016 mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi trefnu 79 o gontractau a elwir yn gontractau gwerthu sefydlog a mwy. Adlewyrchodd y prisiau pren o dan y contractau hyn ofyniad ar y prynwr i gynaeafu'r pren, gwneud unrhyw waith peirianeg sifil angenrheidiol, ac ailstocio'r safle pan fo hynny'n berthnasol. Yn 2018-19, cafodd Cyfoeth Naturiol Cymru £3.1 miliwn o gontractau gwerthu sefydlog a mwy.

Rwyf wedi rhoi amod ar fy marn ar reoleidd-dra yn 2018-19 o ran dyfarnu contractau gwerthu sefydlog fel a ganlyn:

- Wrth roi'r 79 o gontractau gwerthu pren, methodd Cyfoeth Naturiol Cymru â dangos rheswm da dros droi cefn ar ddau o'i bolisiau ei hun, sef Cynllun Marchnata Pren 2017-22 a'r Crynodeb o ofynion Rheoleiddiol a Pholisi caffael gwerth £25,000 neu fwy yn Cyfoeth Naturiol Cymru. O ganlyniad i hyn, rwyf yn ansicr iawn bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gweithredu yn unol ag egwyddorion cyfraith gyhoeddus felly rwyf wedi rhoi amod priodol ar fy marn ar reoleidd-dra.
- Mae'n ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru gydymffurfio â rheolau caffael yr Undeb Ewropeaidd (UE) ac â rheolau sy'n llywodraethu dyfarniad contractau nwyddau, gwaith a gwasanaethau wedi'u cynnwys yng nghyfraith y DU trwy Reoliadau Contract Cyhoeddus 2015. Mae contractau cymysg, megis contractau gwerthu sefydlog a mwy, wedi'u cynnwys yng nghwmpas y rheoliadau hyn. Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gallu dangos bod gofynion y rheoliadau hyn wedi'u bodloni trwy roi'r contractau hyn ar osod. Felly rwy'n ansicr iawn ynghylch a ddilynwyd rheolau caffael yr UE ac rwyf wedi rhoi amod priodol ar fy marn ar reoleidd-dra.
- Ni wnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru gofnodi'n briodol y broses o wneud penderfyniadau a arweiniodd at ddyfarnu'r contractau gwerthu sefydlog a mwy. O ganlyniad i hyn, rwyf yn ansicr iawn bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gweithredu yn unol ag egwyddorion cyfraith gyhoeddus felly rwyf wedi rhoi amod priodol ar fy marn ar reoleidd-dra.
- O dan fframwaith awdurdod Cyfoeth Naturiol Cymru mae'n ofynnol cyfeirio at unrhyw weithgareddau sy'n ymddangos yn newydd, yn ddadleuol a/neu all arwain at sgil-effeithiau i'r adran sy'n ei noddi o fewn Llywodraeth Cymru. Ni wnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru gyfeirio ei benderfyniad i sefydlu'r 79 o gontractau gwerthu pren, sydd yn fy marn i yn newydd, yn ddadleuol a/neu all arwain at sgil-effeithiau, i'r adran sy'n ei noddi. Felly rwyf i o'r farn bod y trafodiadau sy'n

ymwneud â'r contractau hyn yn anghyfreithlon ac rwyf wedi rhoi amod priodol ar fy marn ar reoleidd-dra.

- Nododd fy mhroffion sampl wyth contract pren (gan gynnwys chwech sy'n gontractau gwerthu sefydlog a mwy) a 18 estyniad i gontractau pren (gan gynnwys pedwar sy'n gontractau gwerthu sefydlog a mwy) nad oeddent wedi'u hawdurdodi yn unol â Chynllun Dirprwyo Cyfoeth Naturiol Cymru. Roedd gwerth cronus y contractau a'r estyniadau i'r contractau nad oeddent wedi'u hawdurdodi'n briodol yn sylweddol. Felly rwyf i o'r farn bod y trafodiadau sy'n ymwneud â'r contractau hyn yn anghyfreithlon ac rwyf wedi rhoi amod priodol ar fy marn ar reoleidd-dra.
- Nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ystyried y costau a'u buddion perthnasol wrth bennu dull prisio'r contract ar gyfer y 79 o gontractau. Felly rwy'n ansicr iawn a yw Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cydymffurfio â gofynion ei Orchymyn Sefydlu ei hun ac rwyf wedi rhoi amod priodol ar fy marn ar reoleidd-dra.

Mae rhagor o fanylion am y materion hyn ar gael yn fy Adroddiad cysylltiedig ar dudalennau 74 i 79.

## Adrodd ar ofynion eraill

### Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth i'w archwilio wedi'i baratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru a wnaed o dan Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012.

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn berthnasol iddi yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu wedi'i baratoi yn unol ag arweiniad Gweinidogion Cymru;
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn berthnasol iddi yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Blynyddol wedi'i baratoi yn unol ag arweiniad Gweinidogion Cymru.

### Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yn sgil yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau sylweddol yn yr Adroddiad Naratif na'r Adroddiad Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd ynghylch y materion canlynol yr wyf yn adrodd i chi arnynt os, yn fy marn i:

- nad yw cofnodion cyfrifyddu wedi'u cadw'n briodol;
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth i'w harchwilio yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- na ddatgelwyd gwybodaeth benodol gan Weinidogion Cymru am dâl cydnabyddiaeth a thrafodiadau eraill.

Ac eithrio yn achos y trafodiadau y cyfeirir atynt uchod yn y paragraffau 'sail y farn amodol ar reoleidd-dra', rwyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf i gynnal fy archwiliad.



## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu o ran y datganiadau ariannol

Fel y caiff ei egluro'n llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan y Gorchymyn hwnnw, am fod yn fodlon eu bod yn cyflwyno darlun gwir a theg ac am unrhyw reolaeth fewnol y mae'r Swyddog Cyfrifyddu o'r farn bod ei hangen i allu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd rhag cam-ddatgan sylweddol, boed trwy dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a chyfrifyddu ar sail busnes gweithredol oni phennir bod hynny'n amhriodol.

### Cyfrifoldebau'r archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd rhag camddatganiad sylweddol, boed drwy dwyll neu gamgymeriad, a chyflwyno adroddiad yr archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad sydd wedi'i gynnal yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) bob amser yn canfod camddatganiad sylweddol pan fo'n bresennol. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad ac ystyrir eu bod yn sylweddol os gellid disgwyl iddynt, yn unigol neu'n gyfunol, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd y mae defnyddwyr yn eu gwneud ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae disgrifiad manylach o gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer yr archwiliad o'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol [www.frc.org.uk](http://www.frc.org.uk). Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o fy adroddiad archwilio.

### Cyfrifoldebau rheoleidd-dra

Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodiadau ariannol.

Caf ddigon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Adrian Crompton  
Archwilydd Cyffredinol Cymru  
18 Gorffennaf 2019

24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd  
CF11 9LJ

*Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio'r cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Cyfoeth Naturiol Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.*

# Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Ddatganiadau Ariannol 2018-19 Cyfoeth Naturiol Cymru: Contractau Gwerthu Sefydlog a Mwy

1. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn gorff noddedig Llywodraeth Cymru a grëwyd at ddiben sicrhau bod yr amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru:
  - wedi'u cynnal mewn modd cynaliadwy;
  - wedi'u cyfoethogi mewn modd cynaliadwy; ac
  - wedi'u defnyddio mewn modd cynaliadwy'.
2. Dechreuodd CNC weithredu ar 1 Ebrill 2013, gan gymryd y cyfrifoldeb am gyflawni swyddogaethau'r cyrff blaenorol Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru.
3. O dan baragraff 23 o Atodlen 1 o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 (y Gorchymyn Sefydlu), mae'n ofynnol imi archwilio, ardystio ac adrodd ar ddatganiad o gyfrifon CNC. Mae fy nhystysgrif archwilio ar dudalennau 70 i 73 yn cynnwys fy marn bod y datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg.
4. Mae fy nhystysgrif yn cynnwys fy marn ar 'reoleidd-dra', h.y. fy marn ar a yw'r gwariant a'r incwm a ddangosir yn y cyfrifon wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a yw'r trafodiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Rhoddodd fy rhagflaenydd fel Archwilydd Cyffredinol amod ar ei farn ar gyfrifon 2015-16 a 2016-17 CNC oherwydd nad oedd wyth o'r contractau gwerthu pren hirdymor rhyng-gysylltiedig â gweithredydd melin lifio yn cydymffurfio â fframwaith awdurdod yr oedd CNC yn gweithredu oddi tano. Yn ogystal â hyn, ar sail yr wybodaeth a roddwyd iddo gan CNC am ei weithdrefn gwneud penderfyniadau, nid oedd yn gallu bod yn fodlon bod y penderfyniad i gytuno'r contractau hynny yn gyfreithlon ac nad oedd yn cynnwys darpariaeth Cymorth Gwladwriaethol.
5. Ym mis Gorffennaf 2018, rhoddodd fy rhagflaenydd amod ar ei farn ar reoleidd-dra cyfrifon 2017-18 CNC oherwydd nad oedd dyfarniad CNC o 59 o gontractau gwerthu i dri chwmni yn cydymffurfio â fframwaith awdurdod yr oedd CNC yn gweithredu oddi tano. Yn ogystal â hyn, ar sail yr wybodaeth a roddwyd iddo gan CNC am ei weithdrefn gwneud penderfyniadau, nid oedd yn gallu bod yn fodlon bod y penderfyniad i gytuno'r contractau hynny yn gyfreithlon ac nad oedd yn cynnwys darpariaeth Cymorth Gwladwriaethol.
6. Eleni, rwyf wedi rhoi amod ar fy marn ar reoleidd-dra cyfrifon 2018-19 CNC. Mae hyn yn ymwneud â 79 o gontractau a elwir yn gontractau Gwerthu Sefydlog a Mwy a gyfunodd gwerthiannau pren â'r gofyniad i wneud gwaith peirianeg sifil ac ailstocio safleoedd cwmpo coed. Ar 31 Mawrth 2019, cafodd CNC incwm o £6.35 miliwn mewn cysylltiad â'r contractau hyn a disgwyliar incwm ychwanegol o £4.92 miliwn yn 2019-20. Mae'r rhesymau dros fy amod wedi'u nodi ym mharagraff 17.

1 The Diwygiodd Deddf yr Amgylchedd Cymru 2016 ddiben cyffredinol Corff Adnoddau Naturiol Cymru i: 'Rhaid i'r Corff ymgynnal at reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol mewn perthynas â Chymru, a chymhwyso egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol, wrth arfer ei swyddogaethau, i'r graddau y bo hynny'n gyson â'u harfer yn briodol.'

## Cefndir

7. Yn gynnar yn 2017, cyhoeddodd CNC Ddatganiad Marchnata Pren Interim yn nodi dull CNC o farchnata pren o'r ystâd coedwigoedd a choetiroedd sy'n eiddo i'r cyhoedd yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2016 hyd 31 Mawrth 2017. Yn y ddogfen hon nododd CNC y byddai'n gwerthu hyd at 150,000m<sup>3</sup> obs (dros risgl yn sefyll) o'r 325,000m<sup>3</sup> obs o gyfaint pren sylfaenol i'w gynnig ar y farchnad agored gan ddefnyddio dull gwerthu newydd<sup>2</sup>. Dull traddodiadol CNC o werthu pren sylfaenol oedd gofyn i ddarpar gwsmeriaid wneud cais ar y sail y byddai angen i'r prynwyr gynaeafu'r pren.
8. O dan y dull newydd, byddai hefyd yn ofynnol i brynwyr wneud gwaith seilwaith peirianeg sifil ar safle'r gwerthiant a gallai hefyd fod yn ofynnol iddynt ailstocio'r safle dan sylw. Yn draddodiadol, roedd CNC naill ai wedi gwneud y gwaith peirianeg sifil ac ailstocio ei hun, neu ddyfarnu contractau ar wahân i gontractwyr allanol i wneud y gwaith.
9. Yn ystod blwyddyn ariannol 2016-17, dechreuodd CNC ddyfarnu contractau a oedd yn cyfuno gwerthiannau pren â gwaith peirianeg sifil ac, mewn rhai achosion, ailstocio. Yn ddiweddarach, dechreuodd CNC gyfeirio at y math newydd hwn o gontract yn werthiannau sefydlog a mwy. Hysbysebodd CNC y cyfleoedd contract hyn trwy system e-Werthiannau Pren, a gofynnwyd i bobl gynnig pris cyfartalog y byddent yn fodlon ei dalu fesul tunnell o bren gan ystyried y gofyniad i gynaeafu'r pren, gwneud gwaith peirianeg sifil ac ailstocio'r safle pan fyddai hynny'n berthnasol.
10. In January 2017, NRW published a Timber Marketing Plan setting out its approach to selling timber during the period 1 April 2017 to 31 March 2022. The document set out that NRW would sell 'an annual baseline flexible programme sale offer of 150,000m<sup>3</sup> obs which will be offered either as a traditional or conditional method of sale approach, to be known as Standing Sales plus'.
11. Nododd y Cynllun Marchnata Pren hefyd 'Lle'r ydym yn treialu ffyrdd newydd o weithio, fel cynnig gwerthiannau fel coed 'gwerthiannau sefydlog a mwy', byddwn yn asesu perfformiad yn ofalus i wneud yn siŵr eu bod yn gallu sicrhau'r canlyniadau yr ydym yn chwilio amdanynt, yn cynnig gwerth da am arian a manteision i gwsmeriaid. Ni fydd unrhyw gyfaddawdu o ran perfformiad yn unol â safonau coedamaeth, amgylchedd, ac iechyd a diogelwch cadarn.
12. Yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2016 hyd 31 Rhagfyr 2018, trefnodd CNC 83 o gontractau gwerthu sefydlog a mwy, a daeth 79 ohonynt i rym. Roedd yr holl gontractau a aeth yn eu blaenau yn cynnwys gofyniad i'r cynigiwr llwyddiannus wneud gwaith peirianeg sifil ac roedd 44 o'r contractau yn cynnwys gofyniad i ailstocio.
13. Yn dilyn penderfyniad fy rhagflaenydd ym mis Gorffennaf 2018 i roi amod ar ei farn ar reoleidd-dra datganiadau ariannol 2017-18 CNC, penderfynodd Prif Weithredwr CNC, wedi'i gefnogi gan Fwrdd CNC, gomisiynu Grant Thornton i gynnal adolygiad annibynnol o drefniadau llywodraethu CNC o werthiannau pren.
14. Nododd yr adolygiad bryderon sylweddol ynghylch datblygiad, gweithrediad a rheolaeth contractau gwerthu sefydlog a mwy. Pan godwyd ymwybyddiaeth CNC o ganfyddiadau'r adolygiad a oedd yn dod i'r amlwg, cymerodd gamau

<sup>2</sup> Mae 1 metr ciwbig obs o gyfaint pren yn hafal i oddeutu 0.81 tunnell o bwysau

ar unwaith i atal unrhyw ddyfarniad arall o gontractau gwerthu sefydlog a mwy, hyd nes yr aed i'r afael â'r pryderon.

15. Mae Tabl 1 yn nodi manylion y 79 o gontractau gwerthu sefydlog a mwy a weithredwyd yn ystod y blynyddoedd ariannol 2016-17, 2017-18 a 2018-19.

**Tabl 1: nifer, cyfaint a gwerth contractau gwerthu sefydlog a mwy 2016-17, 2017-18 a 2018-19**

Dyddiad dechrau'r flwyddyn ariannol	Nifer y contractau a weithredwyd	Gwerth contract net ar sail y cyfaint a gontractiwyd	Cyfaint a gontractiwyd (m <sup>3</sup> obs)	Cyfaint y pren (m <sup>3</sup> obs) a werthwyd hyd at Mawrth 31 2019	Cyfaint a gontractiwyd (m <sup>3</sup> obs) sy'n weddill i'w werthu ar 31 Mawrth 2019 <sup>2</sup>	Cyfanswm y cyfaint (m <sup>3</sup> obs), a werthwyd ac y disgwylir ei werthu	Incwm a Gafwyd hyd at 31 Mawrth 2019 ac Amcangyfrif o incwm 2019-20
2016-17	8	£735,807	28,358	28,219	0	28,219	£739,225
2017-18	28	£2,545,743	111,191	115,465	9,904	125,369	£2,816,660
2018-19	43	£6,611,158	198,747 <sup>1</sup>	107,580	100,269	207,849	£7,718,890
<b>Cyfanswm</b>	<b>79</b>	<b>£9,892,708</b>	<b>338,296</b>	<b>251,264</b>	<b>110,173</b>	<b>361,437</b>	<b>£11,274,775</b>

<sup>1</sup> Ataliwyd dyfarnu contractau Gwerthu Sefydlog a Mwy ym mis Rhagfyr 2018

<sup>2</sup> Cyfrifwyd yr amcangyfrif o gyfaint sy'n weddill ar sail y gwahaniaeth rhwng y cyfaint a gontractiwyd a'r cyfaint a werthwyd cyn 31 Mawrth 2019 ar gontractau gwerthu sefydlog a mwy a oedd yn parhau yn weithredol ar y dyddiad hwnnw.

16. O gyfanswm y cyfaint o bren, 371,341m<sup>3</sup> obs wedi'i werthu neu y disgwylir ei werthu o dan gontractau gwerthu sefydlog a mwy ers eu cyflwyno, amcangyfrifir y caiff 247,146m<sup>3</sup> (69% o'r cyfanswm) yn cael ei werthu i 2 gwsmer.

## Casgliad

17. Mae datganiadau ariannol 2018-19 CNC yn cynnwys £3.1 miliwn o ran contractau gwerthu sefydlog a mwy. Wrth archwilio datganiadau ariannol 2018-19 CNC, ystyriais reoleidd-dra'r trafodiadau a oedd wedi'u cynnwys yn y cyfrifon hynny o ran contractau gwerthu sefydlog a mwy. Rwyf yn amau a yw CNC wedi gweithredu yn unol â'r dyletswyddau statudol, egwyddorion cyfraith gyhoeddus a rheolau caffael yr UE wrth ddyfarnu 79 o gontractau gwerthu sefydlog a mwy yn 2016-17, 2017-18 a 2018-19.
18. O ganlyniad i hyn, ni allaf gadarnhau yn bositif a yw'r trafodiadau yn natganiadau ariannol 2018-19 CNC yn cydymffurfio â'r fframwaith awdurdod sy'n eu llywodraethu. Felly rwyf wedi rhoi amod priodol ar fy marn ar reoleidd-dra. Fodd bynnag, nid yw penderfyniad yn anghyfreithlon oni bai a hyd nes ei fod wedi'i ddatgan yn anghyfreithlon gan lys. Felly, yn absenoldeb her gyfreithiol, mae'r contractau yn parhau i fod yn ddilys ac yn orfodadwy.
19. Gweler isod fy rhesymau dros ddod i'r casgliad hwn:
- Er mwyn i benderfyniad corff cyhoeddus fod yn gyfreithlon, mae'n rhaid ei wneud yn unol â deddfwriaeth berthnasol ac egwyddorion cyfraith gyhoeddus. Mae'n rhaid i gyrrff cyhoeddus (a) ystyried a (b) dilyn polisïau



perthnasol, oni bai bod ganddynt reswm da dros fynd yn groes iddynt. Dylen nhw o leiaf fod wedi datgan rhesymau clir dros fynd yn groes. Rwyf o'r farn:

- i bod CNC wedi mynd yn groes i'w bolisi ei hun fel a nodir yn ei Gynllun Marchnata Pren 2017-22, a ddywedodd y byddai CNC yn asesu'n ofalus berfformiad cynllun treialu contractau gwerthu sefydlog a mwy i sicrhau bod y dull newydd hwn o werthu pren yn gallu bodloni canlyniadau CNC a darparu gwerth da am arian a budd i'r cwsmer. Nid yw CNC wedi gallu darparu unrhyw dystiolaeth i fy archwilwyr ei fod wedi cynnal unrhyw asesiad o berfformiad y contractau gwerthu sefydlog a mwy fel yr ymrwymodd i'w wneud yn ei Gynllun Marchnata Pren. Nid yw CNC wedi gallu rhoi unrhyw reswm da i mi dros fynd yn groes i'r ymrwymiad hwn.
- ii bod CNC wedi llunio polisi yn llywodraethu sut y bydd yn caffael cyflenwadau, nwyddau a gwasanaethau gwerth £25,000 neu fwy. Mae CNC yn amcangyfrif bod 16 o'r 43 o gontractau gwerthu sefydlog a mwy a ddyfarnwyd gan CNC yn 2018-19 yn cynnwys gwerthoedd caffael dros £25,000. Mae rheolau caffael CNC yn nodi bod yn rhaid i Dîm Caffael CNC gyflawni unrhyw gaffaeliadau gwerth mwy na £25,000 a sut y dylid hysbysebu contractau o'r fath. Mae Tîm Caffael CNC wedi sefydlu contractau fframwaith trwy brosesau cystadleuol ar gyfer caffael gwaith peirianeg sifil a gwasanaethau ailstocio. Fodd bynnag, ni ddefnyddiwyd contractau fframwaith hyn i gaffael yr elfennau peirianeg sifil ac ailstocio o'r contractau gwerthu sefydlog a mwy. Nid oedd Tîm Caffael CNC yn rhan o'r broses hysbysebu na dyfarnu'r contractau gwerthu sefydlog a mwy. Felly rwyf o'r farn na wnaeth CNC gydymffurfio â'i bolisi caffael ei hun wrth gaffael gwaith peirianeg sifil a gwasanaethau ailstocio yn rhan o'r contractau gwerthu sefydlog a mwy, ac nad yw wedi gallu dangos bod ganddo reswm da dros fynd yn groes i'w bolisi.
- b. Mae'n ofynnol i CNC gydymffurfio â rheolau caffael yr UE. Mae'r rheolau dros lywodraethu dyfarniad contractau ar gyfer nwyddau, gwaith a gwasanaethau wedi'u cynnwys yng nghyfraith y DU trwy Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (Rheoliadau 2015). Roedd contractau gwerthu sefydlog a mwy yn cynnwys gwerthiannau pren a chaffael, felly roeddent wedi'u cynnwys yng nghwmpas Rheoliadau 2015. Mae Rheoliadau 2015 yn nodi gweithdrefnau y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus eu dilyn cyn dyfarnu contractau i brynu cyflenwadau, gwasanaethau neu waith gwerth mwy na'r trothwyon ariannol a ddiffiniwyd. Mae Rheoliadau 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus amcangyfrif gwerth contract ar yr adeg yr anfonir galwad i gystadlu. Nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod CNC wedi ceisio amcangyfrif gwerth contractau gwerthu sefydlog a mwy cyn hysbysebu'r cyfleoedd contract hyn. Felly rwyf o'r farn bod y dyfarniad contractau gwerthu sefydlog a mwy a'r trafodiadau sydd wedi'u cynnwys yn natganiadau ariannol 2018-19 CNC o ran y contractau hyn yn afreolaidd.
- c. Mae cyfraith gyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried yr holl ystyriaethau perthnasol ac anwybyddu'r ystyriaethau amherthnasol wrth wneud penderfyniadau. Un ffordd y gall gyrff cyhoeddus ddangos eu bod wedi cydymffurfio â'r egwyddor hon yw trwy gofnodi'n llawn yr ystyriaethau y maent wedi'u hystyried. Methodd CNC â chofnodi'n briodol y broses gwneud penderfyniadau a arweiniodd at gyflwyno'r contractau gwerthu sefydlog a mwy. Yn benodol, mae CNC wedi methu â darparu dogfennau cydoesol sy'n nodi ei resymeg dros gyflwyno contractau gwerthu sefydlog a mwy a sut yr ystyriodd y risgiau a'r buddion posibl yn sgil y dull newydd hwn o werthu pren. Felly mae gen i amheuaeth sylweddol ynghylch a ystyriodd CNC yr holl ystyriaethau perthnasol ac anwybyddu'r ystyriaethau

amherthnasol wrth wneud penderfyniadau ar werthiannau sefydlog a mwy.

- d. Mae'n ofynnol i CNC gydymffurfio â'i Ddogfen Fframwaith a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, sydd ar y cyd yn ei gwneud yn ofynnol i CNC gyfeirio i Lywodraeth Cymru unrhyw gynigion newydd, dadleuol a/neu all arwain at sgil-ffeithiau. Rwyf o'r farn bod y cynnig i ddyfarnu contractau gwerthu sefydlog a mwy yn newydd oherwydd ei fod yn cynnwys dull newydd o werthu pren a oedd yn gofyn am gyflwyno contractau cymysg ar gyfer gwerthu a chaffael. Rwyf o'r farn bod cyflwyno contractau gwerthiannau sefydlog a mwy yn ddadleuol a/neu all arwain at sgil-ffeithiau hefyd. Roedd gwerthiannau sefydlog a mwy yn ei gwneud yn ofynnol i brynwyr pren wneud gwaith peirianeg sifil ac, mewn rhai achosion, ailstocio safleoedd. Yn fy marn i, roedd modd rhagweld y byddai hyn o fantais i gwmnïau mwy a oedd eisoes yn gwneud y gwaith hwn. Dywedodd CNC wrth Lywodraeth Cymru ei fod yn cyflwyno dull gwerthu newydd o'r enw gwerthiannau sefydlog a mwy, ond ni wnaeth unrhyw gyfeiriad i Lywodraeth Cymru ar y sail bod y cynnig yn newydd, yn ddadleuol a/neu all arwain at sgil-ffeithiau yn unol â'r gofyniad yn ei Ddogfen Fframwaith a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. O ganlyniad i hyn, ni wnaeth CNC fodloni'r gofyniad hwn yn fy marn i.
- e. Lluniodd Bwrdd CNC Gynllun Dirprwyo o dan ddarpariaethau Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 (y Gorchymyn). Mae'r Cynllun Dirprwyo hwn yn rhoi pwerau dirprwyedig i ddeiliaid swydd penodol CNC i gytuno ar gontractau gwerthu pren ar ran CNC. Yn rhan o'r archwiliad o gyfrifon 2018-19 CNC, archwiliodd fy archwilwyr 13 o gontractau gwerthu sefydlog a mwy i sicrhau eu bod wedi'u hawdurdodi yn unol â'r Cynllun Dirprwyo Ariannol. Canfu fy archwilwyr er bod pob contract wedi'i awdurdodi gan swyddogion CNC, fod 6 wedi'u hawdurdodi gan swyddogion CNC nad oedd ganddynt y ddirprwyaeth ofynnol i awdurdodi dyfarniad contractau am y gwerth a gymeradwywyd. Cyfanswm gwerth y contractau a oedd yn rhan o'r prawf sampl nad oeddent wedi'u hawdurdodi'n briodol oedd £2,405,375. Profodd fy archwilwyr hefyd 10 o achosion pan oedd contractau gwerthu sefydlog a mwy wedi'u hymestyn a chanfu mewn 4 achos nad oedd yr estyniadau wedi'u hawdurdodi yn unol â Chynllun Dirprwyo Ariannol CNC. Canfu fy archwilwyr nad oedd y mater hwn yn berthnasol i gontractau gwerthu sefydlog a mwy yn unig. Nododd profion archwilio contractau gwerthu pren ddau gontract nad oeddent yn rhai gwerthu sefydlog a mwy gwerth £1.6 miliwn a oedd wedi'u hawdurdodi gan swyddogion CNC nad oedd ganddynt y ddirprwyaeth ofynnol i wneud hynny, ac nad oedd 14 o estyniadau i gontractau nad oeddent yn rhai gwerthu sefydlog a mwy wedi'u hawdurdodi'n briodol. Nid wyf o'r farn bod yr holl gontractau ac estyniadau i gontractau nad oeddent wedi'u hawdurdodi'n briodol wedi'u trefnu mewn modd anghyfreithlon.
- f. Mae Erthygl 8 o Orchymyn Sefydlu CNC yn datgan wrth ystyried pa un ai arfer unrhyw bŵer a roddwyd iddo neu beidio, drwy unrhyw ddeddfiad neu o dan unrhyw ddeddfiad, y mae'n rhaid i CNC ystyried costau a buddion tebygol yn sgil arfer neu beidio ag arfer y pŵer hwnnw. Rwy'n amau a oedd defnyddio prisiau cyfartalog yn y contractau gwerthu sefydlog a mwy yn gydnaws ag asesu costau a buddion, ac rwy'n pryderu bod gweithredu'r dull prisio cytundebol yn golygu na all CNC ddangos ei fod wedi gwerthu pren o fewn contractau gwerthu sefydlog a mwy ar gyfraddau'r farchnad. Er gwaethaf y pryderon hyn, nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod CNC wedi ystyried costau a buddion tebygol wrth gyflwyno'r gwerthiannau sefydlog a mwy yn gyntaf yn 2016-17 ac na chynhaliodd asesiad dilynol o gostau a buddion parhau i'w defnyddio. Rwy'n amau'n sylweddol felly a yw CNC wedi cydymffurfio â gofynion Erthygl 8 ei Orchymyn Sefydlu.

20. Mae'r adroddiad hwn yn amlygu pryderon difrifol ynghylch trefniadau gwneud penderfyniadau CNC o ran cyflwyno a rheoli contractau gwerthu sefydlog a mwy. Hon yw'r bedwaredd flwyddyn yn olynol y mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi bod o'r farn bod angen rhoi amod ar y farn ar reoleidd-dra datganiadau ariannol CNC oherwydd pryderon ynghylch y contractau gwerthu pren. Mae'r adroddiad hwn yn enghraifft arall sy'n amlygu diffygion difrifol yn y modd y mae CNC wedi rheoli ei swyddogaeth gwerthu pren yn hanesyddol. Mae hefyd yn amlygu y bu diffyg goruchwyliaeth gorfforaethol effeithiol o'r swyddogaeth hon.
21. Er bod trafodiadau sy'n ymwneud â chontractau gwerthu sefydlog a mwy wedi'u cynnwys yn natganiadau ariannol 2018-19 CNC, (ac y bydd trafodiadau yn natganiadau ariannol 2019-20 CNC), mae'r materion y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn yn bennaf o ganlyniad i benderfyniadau hanesyddol. Gwnaed y penderfyniad gwreiddiol i gyflwyno gwerthiannau sefydlog a mwy yn 2016. Ers hynny, gwnaed llawer o benodiadau newydd i'r Bwrdd ac i lefelau uwch-reolwyr. Mae hyn yn cynnwys penodi Cadeirydd newydd a Phrif Weithredwr newydd. Mae'n galonogol i mi weld ymdrechion CNC yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i ddechrau mynd i'r afael â rhai o'r materion hanesyddol sydd wedi tanseilio enw da CNC ac wedi amharu ar ei effeithiolrwydd. Mae'n berthnasol y tynnwyd sylw at bryderon ynghylch contractau gwerthu sefydlog a mwy gan adolygiad a gomisiynwyd gan CNC ei hun i'w drefniadau llywodraethu o'i werthiannau pren. Rwy'n cydnabod y cymerodd CNC gamau ar unwaith i fynd i'r afael â'r pryderon hyn pan dynnwyd ei sylw atynt.
22. Nid wyf wedi ceisio dod i gasgliad ynghylch a oedd y contractau a drefnwyd gan CNC yn 2018-19 yn cynrychioli gwerth am arian. Nid yw archwiliadau gwerth am arian o'r fath yn ffurfio rhan o fy archwiliad o'r datganiadau ariannol, a gyflawnir yn unol â deddfwriaeth a safonau archwilio y Deyrnas Unedig a ragnodir gan y Cyngor Adrodd Ariannol.
23. Rwyf wedi rhoi memorandwm ategol i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, â rhagor o fanylion am y rhesymau dros fy amod ar fy marn ar reoleidd-dra datganiadau ariannol 2018-19 CNC.

# Datganiadau Ariannol a Nodiadau i'r Cyfrifon ar gyfer 2018/19



## Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

Ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2019

	Nodyn	2018/19 £'000	2017/18 £'000
Costau staff	3	90,134	84,131
Gwaith cyfalaf a wariwyd yn y flwyddyn	4	17,654	23,599
Gwariant arall	5	93,544	84,280
<b>Cyfanswm y gwariant gweithredu</b>		<b>201,332</b>	<b>192,010</b>
Incwm taliadau	6	(39,468)	(37,597)
Incwm masnachol ac arall	6	(35,076)	(27,986)
Cyllid Ewropeaidd a chyllid allanol arall	6	(1,543)	(890)
<b>Cyfanswm yr incwm gweithredu</b>		<b>(76,087)</b>	<b>(66,473)</b>
<b>Gwariant gweithredu net</b>		<b>125,245</b>	<b>125,537</b>
Cyllido asedau a rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn	14.5	930	1,088
<b>Gwariant net am y flwyddyn</b>		<b>126,175</b>	<b>126,625</b>
<b>Gwariant net cynhwysfawr arall</b>			
Ailfesuriadau actiwaraid ar y cynllun pensiwn	14.5	15,898	(9,848)
<b>Ailbriso</b>			
Enillion net ar ailbriso		(19,296)	(10,656)
<b>Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn</b>		<b>122,777</b>	<b>106,121</b>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 85 i 118 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

Ar 31 Mawrth 2019

		31 Mawrth 2019	* Ailddatganwyd 31 Mawrth 2018
	Nodyn	£'000	£'000
<b>Asedau tymor hir</b>			
Eiddo, peiriannau a chyfarpar	7.1	882,963	814,430
Asedau treftadaeth	7.1	7,000	6,432
Asedau biolegol	7.1	122,538	113,125
Asedau anniriaethol	7.2	16,604	14,809
Asedau ariannol	9	4,663	95
Derbyniadau tymor hir	10	2,052	0
<b>Cyfanswm asedau tymor hir</b>		<b>1,035,820</b>	<b>948,891</b>
<b>Asedau cyfredol</b>			
Asedau a ddelir i'w gwerthu		238	451
Rhestrau eiddo		2,436	798
Dyledwyr masnachol a symiau derbyniadwy eraill	10	15,067	13,821
Arian parod ac arian parod cyfatebol	11	49,025	43,539
<b>Cyfanswm yr asedau cyfredol</b>		<b>66,766</b>	<b>58,609</b>
<b>Cyfanswm yr asedau</b>		<b>1,102,586</b>	<b>1,007,500</b>
<b>Rhwymedigaethau cyfredol</b>			
Credydwyr masnachol a symiau taladwy eraill	12	(22,052)	(22,564)
Darpariaethau	13	(1,078)	(1,227)
<b>Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol</b>		<b>(23,130)</b>	<b>(23,791)</b>
<b>Asedau llai rhwymedigaethau cyfredol</b>		<b>1,079,456</b>	<b>983,709</b>
<b>Rhwymedigaethau tymor hir</b>			
Rhwymedigaethau pensiwn	14.5	(56,088)	(32,484)
Rhwymedigaethau ariannol	8	(39,973)	(39,992)
Symiau taladwy tymor hir	12	(2,478)	(406)
<b>Cyfanswm rhwymedigaethau tymor hir</b>		<b>(98,539)</b>	<b>(72,882)</b>
<b>Asedau llai rhwymedigaethau</b>		<b>980,917</b>	<b>910,827</b>
<b>Ecwiti trethdalwyr a chronfeydd eraill</b>			
Cronfa gyffredinol	DoNET	240,998	216,830
Cronfa ailbrisio	DoNET	796,007	726,481
Cronfa pensiynau	DoNET	(56,088)	(32,484)
<b>Cyfanswm ecwiti trethdalwyr</b>		<b>980,917</b>	<b>910,827</b>

\*Mae'r balans sy'n ddyledus o dan brydlesi cyllid, a adroddwyd yn flaenorol o fewn Credydwyr masnachol a symiau taladwy eraill o dan Rhwymedigaethau cyfredol bellach wedi'i rannu rhwng Rhwymedigaethau cyfredol a tymor hir ac mae £406k wedi'i symud i Symiau taladwy tymor hir o dan Rhwymedigaethau tymor hir.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 85 i 118 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

Clare Pillman  
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

Dyddiad: 10 Gorffennaf 2019

## Datganiad o lif arian

Ar gyfer y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2019

		2018/19	2017/18
	Nodyn	£'000	£'000
<b>Llif arian o weithgareddau gweithredu</b>			
Gwariant gweithredu net	DoWNC	(125,245)	(125,537)
Addasiad ar gyfer trafodion anariannol		34,643	22,568
Cynnydd mewn dyledwyr masnachol a symiau derbyniadwy eraill	10 *	(1,675)	(1,612)
Cynnydd / (Gostyngiad) mewn credydwyr masnachol a symiau taladwy eraill	12 *	(570)	7,921
Gostyngiad mewn darpariaethau	DoSA *	(31)	(149)
<b>Llif arian net o weithgareddau gweithredu</b>		<b><u>(92,878)</u></b>	<b><u>(96,809)</u></b>
<b>Llif arian o weithgareddau buddsoddi</b>			
Prynu asedau diriaethol	7.1 *	(4,384)	(3,386)
Prynu asedau anniriaethol	7.2 *	(4,791)	(2,526)
Elw ar waredu eiddo, offer a chyfarpar		521	1,086
<b>Llif arian net o weithgareddau buddsoddi</b>		<b><u>(8,654)</u></b>	<b><u>(4,826)</u></b>
<b>Llif arian o weithgareddau ariannu</b>			
Grantiau gan Lywodraeth Cymru	DoNET	107,018	118,373
<b>Ariannu net</b>		<b><u>107,018</u></b>	<b><u>118,373</u></b>
<b>Cynnydd net mewn arian parod a chyfwerthoedd arian yn y cyfnod</b>			
<b>Arian parod chyfwerthoedd arian ar ddechrau'r cyfnod</b>		<b>5,486</b>	<b>16,738</b>
<b>Arian parod a chyfwerthoedd arian ar ddiwedd y cyfnod</b>	11	<b><u>43,539</u></b>	<b><u>26,801</u></b>
		<b><u>49,025</u></b>	<b><u>43,539</u></b>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 85 i 118 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

- 7.1 \* Mae'r all-lif arian parod o £4,384k yn cynrychioli pryniannau diriaethol cyfalaf o £4,493k yn ystod y flwyddyn, yn unol â Nodyn 7.1, wedi'i addasu ar gyfer anfonebau cyfalaf heb eu talu o £92k, a blaendaliadau a dalwyd mewn blynyddoedd blaenorol sy'n ymwneud ag ychwanegiadau y flwyddyn gyfredol o £201k.
- 7.2 \* Mae'r all-lif arian parod o £4,791k yn cynrychioli pryniannau cyfalaf anniriaethol yn ystod y flwyddyn yn unol â Nodyn 7.2 o £4,942k wedi'i addasu ar gyfer pryniannau cyfalaf di-dâl o £151k.
- 10 \* Mae'r all-lif arian parod sy'n ymwneud â 'r symudiad mewn dyledwyr masnachol a symiau derbyniadwy eraill o £1,675k yn cynrychioli'r cynnydd mewn dyledwyr masnachol a symiau derbyniadwy eraill yn unol â Nodyn 10 o £3,298k wedi'i addasu ar gyfer trafodion nad ydynt yn rhai arian parod o £1,824k, a £201k mewn perthynas â blaendaliadau a dalwyd mewn blynyddoedd blaenorol sy'n ymwneud ag asedau anghyfredol y flwyddyn gyfredol sydd wedi eu hadrodd dan weithgareddau buddsoddi.
- 12 \* Mae'r all-lif arian parod sy'n ymwneud â 'r symudiad mewn credydwyr masnachol a symiau taladwy eraill o £570k yn cynrychioli cynnydd mewn credydwyr masnachol a symiau taladwy eraill yn unol â Nodyn 12 o £1,560k ar ôl addasu ar gyfer trafodion nad ydynt yn rhai arian parod o £2,071k a £59k sy'n ymwneud â gweithgareddau buddsoddi.
- DoSA \* Mae'r all-lif arian parod o ganlyniad i ostyngiad mewn darpariaethau o £31k yn cynrychioli'r symudiad yn y darpariaethau yn unol â'r Datganiad o Sefyllfa Ariannol o £149k wedi'i addasu ar gyfer trafodion nad ydynt yn rhai arian parod o £118k.

## Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr

Ar gyfer y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2019

	Cronfa gyffredinol	Cronfa ailbriso	Cronfa pensiynau	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Balans agoriadol</b>	<b>216,830</b>	<b>726,481</b>	<b>(32,484)</b>	<b>910,827</b>
Gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn	(122,777)	0	0	(122,777)
<b>Symudiad o fewn y flwyddyn</b>				
Ailbrisiad yn y flwyddyn	0	85,849	0	85,849
Ailbrisiad a wireddwyd	16,323	(16,323)	0	0
Enillion actiwaraidd ar y cynllun pensiwn	15,898	0	(15,898)	0
Gostyngiad mewn rhwymedigaeth pensiwn	7,706	0	(7,706)	0
<b>Cyfanswm y symudiad yn ystod y flwyddyn</b>	<b>39,927</b>	<b>69,526</b>	<b>(23,604)</b>	<b>85,849</b>
<b>Ariannu</b>				
Grantiau gan Lywodraeth Cymru	107,018	0	0	107,018
<b>Balans ar 31 Mawrth 2019</b>	<b>240,998</b>	<b>796,007</b>	<b>(56,088)</b>	<b>980,917</b>

Cronfa gyffredinol - yn adlewyrchu sefyllfa gronnu y gwariant net a'r cyllid gan Lywodraeth Cymru.

Cronfa ailbriso - yn adlewyrchu balans cronnoil ailbriso a mynegeoio asedau tymor hir.

Cronfa bensiwn - yn adlewyrchu sefyllfa gronnu rhwymedigaethau net y cynllun pensiwn.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 85 i 118 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Ffigurau cymharol ar gyfer y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2018

	Cronfa gyffredinol	Cronfa ailbriso	Cronfa pensiynau	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Balans agoriadol</b>	<b>203,289</b>	<b>674,288</b>	<b>(42,465)</b>	<b>835,112</b>
Gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn	(106,121)	0	0	(106,121)
<b>Symudiad o fewn y flwyddyn</b>				
Ailbrisiad yn y flwyddyn	0	63,463	0	63,463
Ailbrisiad a wireddwyd	11,270	(11,270)	0	0
Enillion actiwaraidd ar y cynllun pensiwn	(9,848)	0	9,848	0
Gostyngiad mewn rhwymedigaeth pensiwn	(133)	0	133	0
<b>Cyfanswm y symudiad yn ystod y flwyddyn</b>	<b>1,289</b>	<b>52,193</b>	<b>9,981</b>	<b>63,463</b>
<b>Ariannu</b>				
Grantiau gan Lywodraeth Cymru	118,373	0	0	118,373
<b>Balans ar 31 Mawrth 2018</b>	<b>216,830</b>	<b>726,481</b>	<b>(32,484)</b>	<b>910,827</b>



## Nodyn 1 Polisiâu Cyfrifyddu

### 1.1 Gofyniad i baratoi cyfrifon

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) 2018/19 a gyhoeddwyd gan Drysorlys ei Mawrhydi ac â'r cyfarwyddyd cyfrifon a roddwyd gan Lywodraeth Cymru yn unol â pharagraff 23(1) orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012.

Mae'r polisiâu cyfrifyddu sydd yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y cawsant eu haddasu neu eu dehongli yn gyd-destun y sector cyhoeddus. Lle mae'r FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, mae'r cyfrifon hyn yn dilyn y polisi sy'n fwyaf priodol i roi darlun cywir a theg ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Mae'r polisiâu a fabwysiadwyd yn cael eu disgrifio isod ac yn yr amrywiol nodiadau ar y cyfrifon. Maent wedi cael eu cymhwyso'n gyson wrth ddelio ag eitemau a ystyrir yn faterol berthnasol i'r cyfrifon.

Mae'r gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol yn gofyn am wneud amryw o amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar bolisiâu cyfrifyddu a symiau a adroddwyd. Mae'r holl amcangyfrifon a dyfarniadau o'r fath yn cael eu hadolygu ar sail barhaus. Mae diwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu yn cael eu cydnabod yn y cyfnod y mae'r amcangyfrif yn cael ei ddiwygio ac mewn unrhyw gyfnod yn y dyfodol yr effeithir arno. Mae'r holl amcangyfrifon yn seiliedig ar wybodaeth o ffeithiau ac amgylchiadau cyfredol, tybiaethau ynglŷn â digwyddiadau yn y gorffennol a rhagolygon o ddigwyddiadau yn y dyfodol.

Mae'r meysydd mwyaf arwyddocaol o ran amcangyfrif a dyfarniadau critigol yn cael eu dangos yn erbyn y nodiadau perthnasol. Sylwch y gall y canlyniadau gwirioneddol yn y dyfodol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn.

### 1.2 Arferion cyfrifo

Mae'r cyfrifon hyn wedi cael eu paratoi ar sail cronïadau, o dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd i roi cyfrif am ailbriso eiddo, offer a chyfarpar, asedau tymor hir anniriaethol i werth teg fel y pennwyd gan y safon cyfrifo berthnasol.

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi'u seilio ar egwyddor busnes hyfyw.

### 1.3 Cymorth grant

Mae cymorth grant a grantiau eraill a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru yn cael eu trin fel cyllid a dderbyniwyd gan barti rheoli. Mae'r derbyniadau hyn yn cael eu credydu yn uniongyrchol i'r gronfa gyffredinol yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ac nid drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

## 1.4 Incwm, gwariant a grantiau

Mae sail croniadau cyfrifyddu yn golygu bod incwm a gwariant a ddatgelir yn y cyfrifon yn cael eu cyfrif yn y flwyddyn y maent yn digwydd, nid pan mae taliadau arian parod yn cael eu gwneud neu eu derbyn, ar wahân i ffioedd incwm opsiynau a dderbyniwyd gan weithredwyr ffermydd gwynt sy'n cael ei gynnwys yn y flwyddyn y cânt eu derbyn. Yn gyfatebol i driniaeth cyfrifeg Llywodraeth Cymru, mae gwerth net y ffioedd opsiwn ffermydd gwynt, wedi tynnu'r taliad i Lywodraeth Cymru, yn ymddangos o fewn Incwm o ynni adnewyddadwy yn Nodyn 6.

Mae incwm a dderbyniwyd cyn i'r gwaith gael ei wneud yn cael ei drin fel incwm gohiriedig.

Lle mae incwm a gwariant wedi cael eu cydnabod ond nad yw'r arian parod wedi ei dderbyn na'i dalu, mae swm taladwy neu dderbyniadwy am y swm perthnasol yn cael ei gofnodi yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol. Lle mae posibilrwydd na fydd dyledion yn cael eu talu, caiff balans y symiau derbyniadwy ei ysgrifennu i lawr a chodir tâl ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr am yr incwm a allai beidio â chael ei gasglu.

Mae trafodion gwerthu a phrynu sydd yn gynhenid gysylliedig, ac y gwneir neu y derbynnir taliad unigol ar eu cyfer, yn cael eu cyfrif fel un trafodiad. Defnyddir y polisi cyfrifyddu sy'n briodol i brif elfen y trafodiad.

Mae pob cyfraniad grant arall a dderbyniwyd wedi cael eu cydnabod fel incwm yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

## 1.5 Rhestrau Eiddo

Mae rhestrau eiddo yn cynnwys stociau coed cwmpedig ac yn cael eu prisiau fel gwerth teg llai costau gwerthu amcangyfrifedig i gwblhau a'u gwaredu. Amcangyfrifir gwerth teg gan ddefnyddio prisiau gwerthu disgwylidig.

## 1.6 Treth ar Werth

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei ddsbarthu fel corff sydd yn gymwys i adran 33 o Ddeddf Treth Ar Werth (TAW) 1994 ac yn unol â hynny mae'n adennill treth a dalwyd ar weithgareddau busnes a gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â busnes. Mae adennill TAW ar gyflenwadau eithriedig yn dibynnu ar y trothwy ar gyfer gweithgareddau eithriedig. Ym mhob achos, lle codir treth wrth werthu, neu lle mae treth wrth brynu yn adenilladwy, mae'r symiau a gynhwysir yn y cyfrifon hyn yn cael eu nodi heb gynnwys TAW.

## 1.7 Rhanbarthau draenio mewnol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithredu fel y bwrdd draenio sy'n rhedeg pedair ar ddeg o ardaloedd draenio yng Nghymru. Mae'r gwaith a wnaed ym mhob ardal yn cael ei ariannu gan gyfuniad o gyfraddau draenio a godir ar feddianwyr tir amaethyddol ac ardollau arbennig a delir gan awdurdodau lleol o ran tir an-amaethyddol.

Mae'n ofynnol i Gyfoeth Naturiol Cymru gan adran 40 o Ddeddf Draenio Tir 1991, bennu cyfraddau draenio a chan reoliad 7 o Reoliadau Byrddau Draenio Mewnol (Cyllid) 1992 gyhoeddi ardollau arbennig cyn 15fed Chwefror y flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn y maent yn berthnasol iddi.

Gosodwyd y cyfraddau draenio, yr ardollau arbennig a'r praeseptau ar gyfer 2018/19 gan Cyfoeth Naturiol Cymru, yn gweithredu fel y bwrdd draenio. Mae'r incwm hwn yn cael ei gynnwys yn Nodyn 6.

## 1.8 Mabwysiadu dehongliadau newydd a diwygiedig o Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) neu Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM)

### Mewn grym yn y datganiadau ariannol hyn

Mae'r holl Safonau Adrodd Rhyngwladol (IFRS), dehongliadau a newidiadau mewn grym yn ystod y cyfnod adrodd hwn wedi eu mabwysiadu yn y datganiadau ariannol hyn.

Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) 15 - Refeniw o Gontractau â Chwsmeriaid Cymhwysodd y Llawlyfr Adrodd Ariannol (FReM) safon newydd, IFRS 15 Refeniw o Gontractau â Chwsmeriaid, ar gyfer y sector cyhoeddus o 2018/19 ymlaen. Mae'n disodli safonau cyfrifyddu blaenorol. Nid yw'n berthnasol i eitemau fel prydesi, asedau ariannol a grantiau sy'n dod o dan safonau eraill.

Egwyddor graidd y safon hon, fel y'i haddaswyd a'i dehonglwyd ar gyfer y sector cyhoeddus, yw bod endid yn cydnabod refeniw o gontractau â chwsmeriaid pan fyddant yn bodloni rhwymedigaeth perfformiad drwy drosglwyddo nawdd neu wasanaeth a addawyd, trwy ddilyn model pum cam. Gellir bodloni rhwymedigaethau perfformiad dros amser neu ar adeg benodol. Os asesir bod rhwymedigaeth wedi ei bodloni ar adeg benodol, yna dim ond pan fydd y rhwymedigaeth perfformiad wedi'i bodloni yn llawn y gellir cydnabod refeniw. Gellir cydnabod refeniw yn unig dros amser ar yr amod bod y rhwymedigaeth perfformiad hefyd yn cael ei bodloni dros amser. Yn benodol, ar gyfer CNC, mae'r safon hon yn berthnasol i'n holl ffrydiau tâl a refeniw masnachol.

Cynhaliwyd adolygiad o'i holl ffrydiau incwm sylweddol. Gan fod y rhan fwyaf o'i ffrydiau incwm o daliadau ar ddarpariaeth tymor byr (gwneud cais am drwydded) neu ar sail amser o fewn yr un flwyddyn ariannol (ar ôl i'r drwydded honno weithredu am y flwyddyn honno), bydd y sail gychwynnol ar gyfer cydnabyddiaeth refeniw o dan Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 18 yn berthnasol i Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) 15. Ni fydd y model pum cam y cyfeirir ato uchod yn effeithio ar y ffordd y caiff incwm masnachol ei gyfrifo gan fod y model pum cam yn ei hanfod yn cyfateb i driniaeth ar sail cronïadau sef y driniaeth gyfrifyddu gyfredol ar gyfer y ffrwd incwm hon.

### Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) 9 - Offerynnau ariannol

Mae'r safon hon yn cynnwys nifer o welliannau i'r safon flaenorol, Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 39, i symleiddio sut mae offerynnau ariannol yn cael eu hadrodd er mwyn rhoi mwy o wybodaeth ddefnyddiol i ddefnyddwyr am golledion credyd endid bob amser. Mae wedi'i ymgorffori yn Llawlyfr Adrodd Ariannol (FReM) 2018/19. Mae effaith y safon hon ar ddatganiadau ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ei hasesu fel anfaterol.

Ar gyfer Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) 9 a 15, nid oedd angen addasu y balansau agoriadol gan fod y symiau dan sylw yn anfaterol. Mae'r balans incwm cronedig a gohiriedig ar 31 Mawrth 2018 sy'n ymwneud â'r cynlluniau taliadau wedi'u hailddosbarthu fel asedau contract a rhwymedigaethau contract.

## **Mewn grym ar gyfer blynyddoedd ariannol yn y dyfodol**

Mae Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 8 'Polisiau Cyfrifyddu, Newidiadau i Amcangyfrifon cyfrifyddu a Gwallau' yn gofyn am ddatgelu Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS's) newydd, digwyddiadau a dehongliadau sy'n berthnasol, neu a fydd yn berthnasol ar ôl y cyfnod adrodd. Bydd nifer o Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS's), newidiadau a dehongliadau sydd wedi eu cyhoeddi gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol mewn grym mewn cyfnodau adrodd yn y dyfodol. Mae manylion y rheiny sy'n berthnasol i Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'u hamlinellu isod. Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru wedi mabwysiadu unrhyw Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) yn gynnar a bydd yn rhoi'r safonau hyn ar waith pan gânt eu mabwysiadu yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FRoM).

### **Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) 16 - Prydlesi**

Mae'r safon hon yn dod i rym yn y sector gyhoeddus o 1 Ebrill 2020. Bydd yn disodli pob Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) cyfredol ar brydlesi. Mae'n debygol o arwain at driniaeth gyfrifyddu unfurf ar gyfer pob prydles a dileu'r gwahaniaeth rhwng prydlesi gweithredu a phrydlesi cyllid. Disgwylir i Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) 16 gael effaith ar y ffordd o adrodd yn ariannol, ac mae'r effaith yn cael ei hasesu ar hyn o bryd.

## **1.9 Darpariaethau Ariannol (Safleoedd tirlenwi)**

Ar gyfer yr holl safleoedd tirlenwi, mae angen sefydlu trefniadau darpariaeth ariannol cyn y gellir rhoi trwydded. Rhaid i'r trefniadau darpariaeth ariannol fod ar waith cyn cychwyn gweithrediadau gwaredu, ac mae angen i ddarpariaethau o'r fath fod yn ddigonol (mewn termau ariannol), yn ddiogel ac ar gael pan fo eu hangen. Mae safleoedd tirlenwi yn cynnwys yr holl safleoedd gwastraff sy'n destun y gyfarwyddeb tirlenwi.

Y canlynol yw'r prif fecanweithiau y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu derbyn i ddangos trefniadau darpariaeth ariannol:

- Bondiau adnewyddadwy (a ddangosir yn nodyn 12)
- Adneuon arian parod gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (a ddangosir yn nodyn 12)
- Cyfrifon escrow
- Cytundebau gweithredoedd Awdurdodau Lleol
- Gwarantau rhiant-gwmnïau
- Cytundebau ymbarél (yn cwmpasu nifer o safleoedd)

## **1.10 Nodiadau i'r cyfrifon**

Mae Nodyn 2 yn rhoi dadansoddiad o incwm a gwariant i segmentau gweithredol.

Mae Nodiadau 3 i 14 yn darparu dadansoddiad o ffigurau perthnasol a adroddwyd yn y datganiadau o wariant net cynhwysfawr, y sefyllfa ariannol a llifau arian parod.

Mae Nodiadau 15 i 22 yn ymwneud â ffigurau nad ydynt wedi eu datgelu mewn manau eraill yn y cyfrifon hyn.



## 2. Dadansoddiad o wariant gweithredu net yn ôl segment

Ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2019

Mae'r segmentau hyn yn elfennau y mae gwybodaeth ariannol yn cael ei reoli a'i adrodd yn fewnol ar eu cyfer.

Roedd incwm a gwariant a ddangosir uchod wedi'u priodoli'n uniongyrchol i'r segmentau.

	Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol	Gweithrediadau Y Gogledd a'r Canolbarth	Gweithrediadau'r De	Tystiolaeth, Polisi a Chaniatáu	Swyddfa'r Prif Weithredwr a Thrawsnewid	Rheolir yn ganolog	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Adroddwyd yn ôl segmentau</b>							
Gwariant	34,245	67,117	32,450	42,069	4,832	20,619	201,332
Incwm	(38,818)	(39,807)	(2,707)	(569)	0	5,814	(76,087)
<b>Cyfanswm</b>	<b>(4,573)</b>	<b>27,310</b>	<b>29,743</b>	<b>41,500</b>	<b>4,832</b>	<b>26,433</b>	<b>125,245</b>
<b>Gwariant cyfalaf</b>	<b>6,750</b>	<b>1,570</b>	<b>47</b>	<b>1,068</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>9,435</b>

Mae CNC yn penderfynnu a ellir defnyddio'r categorïau canlynol i gwrdd â gofyniad datgeliad dadgyfuno Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) 15.

	Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol	Gweithrediadau Y Gogledd a'r Canolbarth	Gweithrediadau'r De	Tystiolaeth, Polisi a Chaniatáu	Swyddfa'r Prif Weithredwr a Thrawsnewid	Rheolir yn ganolog	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Adroddwyd yn ôl segmentau</b>							
Incwm taliadau	37,773	1,525	143	27	0	0	39,468
Incwm masnachol ac arall	1,045	37,545	2,164	136	0	(5,814)	35,076
Cyllid Ewropeaidd a chyllid allanol arall	0	737	400	406	0	0	1,543
<b>Cyfanswm</b>	<b>38,818</b>	<b>39,807</b>	<b>2,707</b>	<b>569</b>	<b>0</b>	<b>(5,814)</b>	<b>76,087</b>
<b>Adroddwyd yn ôl segmentau</b>							
Llywodraethol	1,721	1,021	1,227	518	0	0	4,487
Anllywodraethol	37,097	38,786	1,480	51	0	(5,814)	71,600
<b>Cyfanswm</b>	<b>38,818</b>	<b>39,807</b>	<b>2,707</b>	<b>569</b>	<b>0</b>	<b>(5,814)</b>	<b>76,087</b>

## Dadansoddiad o wariant gweithredu net yn ôl segment (parhad)

### Disgrifiad o'r segmentau

Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol	Mae'n darparu cefnogaeth ariannol, TGCh, cyfreithiol, caffael, rheoli adeiladau a fflyd, datblygiad sefydliadol a rheolaeth ar adnoddau staff.
Gweithrediadau Y Gogledd a'r Canolbarth	Mae'n darparu rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol ar lefel weithredol o fewn gogledd a chanolbarth Cymru. Mae hefyd yn darparu rheolaeth rhaglen gyfalaf a gweithrediadau masnachol dros Gymru gyfan.
Gweithredau'r De	Mae'n darparu rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol ar lefel weithredol a thrwy rwydwaith o dimau lleol, o fewn siroedd De Cymru. Mae hefyd yn darparu gwasanaethau cynllunio a gwasanaethau morwrol dros Gymru gyfan.
Tystiolaeth, Polisi a Chaniatáu	Mae'n rheoli swyddogaethau cynllunio strategol, amgylcheddol a gofodol, trwyddedu a rheolaeth risg llifogydd ac arfordirol.
Swyddfa'r Prif Weithredwr a Thrawsnewid	Mae Swyddfa'r Prif Weithredwr yn cynnwys trefn lywodraethu, archwilio a sicrwydd risg, ysgrifennyddiaeth, cysylltiadau a chyfathrebu allanol, canolfan cyswllt cwsmeriaid a thrawsnewid.
Rheolir yn ganolog	Incwm a gwariant a reolir yn ganolog ac na ddyrannir i'r un gyfarwyddiaeth. Mae'n cynnwys dibrisiant, gwerth llyfr coed cwmpedig, croniadau diwedd blwyddyn ar gyfer darpariaethau.

Er bod adroddiadau i'r rheolwyr yn dangos y Prif Weithredwr, Cysylltiadau Allanol a Chyfathrebu, a Thrawsnewid ar wahan, maent o fewn yr un gyfarwyddiaeth (Swyddfa'r Prif Weithredwr), ac felly wedi cael eu dangos o dan yr un pennawd yma. Yn dilyn ail-strwythuriad mae Datblygiadau Sefydliadol a Rheoli Pobl bellach yn cael ei gynnwys gyda Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol.

### Ffigurau cymharol ar gyfer y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2018

	Datblygiad Sefydliadol a Rheoli Pobl	Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol	Gweithrediadau Y Gogledd a'r Canolbarth	Gweithrediadau'r De	Tystiolaeth, Polisi a Chaniatáu	Swyddfa'r Prif Weithredwr a Thrawsnewid	Rheolir yn ganolog	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Adroddwyd yn ôl segmentau</b>								
Gwariant	1,880	36,964	64,390	29,690	40,188	3,873	15,025	192,010
Incwm	0	(35,691)	(29,515)	(2,157)	(1,584)	0	2,474	(66,473)
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,880</b>	<b>1,273</b>	<b>34,875</b>	<b>27,533</b>	<b>38,604</b>	<b>3,873</b>	<b>17,499</b>	<b>125,537</b>
<b>Gwariant cyfalaf</b>	<b>0</b>	<b>4,396</b>	<b>1,772</b>	<b>174</b>	<b>129</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>6,471</b>

### 3. Costau staff

Mae mwy o fanylion costau a niferoedd y staff yn cael eu datgelu yn yr adran Atebolrwydd ar dudalen 63.

	2018/19			2017/18
	Staff Parhaol	Staff Arall	Cyfanswm	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000
Cyflog a phae	57,176	11,579	68,755	64,305
Costau nawdd cymdeithasol a threthi eraill	5,875	542	6,417	6,545
Costau pensiwn eraill	12,501	915	13,416	18,742
<b>Cyfanswm costau cyflog net</b>	<b>75,552</b>	<b>13,036</b>	<b>88,588</b>	<b>89,592</b>
Gwariant arall i staff			8,012	(810)
Llai symiau a godwyd ar brosiectau cyfalaf			(6,466)	(4,651)
<b>Cyfanswm costau staff</b>			<b>90,134</b>	<b>84,131</b>

### 4. Gwaith cyfalaf a wariwyd yn y flwyddyn

Categoriâu	2018/19	2017/18	31 Mawrth 2019	31 Mawrth 2018
	Gwirioneddol £'000	Gwirioneddol £'000	Ymrwymedig £'000	Ymrwymedig £'000
Gwaith gweithredol	16,985	21,922	5,000	7,316
Grantiau cyfalaf	669	1,677	76	209
<b>Cyfanswm</b>	<b>17,654</b>	<b>23,599</b>	<b>5,076</b>	<b>7,525</b>

Mae gwaith cyfalaf a wariwyd yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â gwariant sy'n waith cyfalaf o ran ei natur ond lle nad yw CNC yn cadw'r risgiau a gwobrwyon sy'n gysylltiedig â pherchenogaeth.

#### Mae gwaith gweithredol yn cynnwys:

Asedau rheoli perygl llifogydd ac arfordirol a adeiladwyd ar dir nad yw CNC yn berchen arno ond lle mae ganddo bwerau caniatool i gynnal amddiffyniad, megis:

- Gweithio i sicrhau bod cyflwr yr amddiffynfeydd rhag llifogydd yn cael eu cadw yn y cyflwr priodol a'u hadfer i'r cyflwr hwnnw yn ôl yr angen.
- Creu, gwella neu gynyddu uchder argloddiau ar hyd cyrsiau dŵr er mwyn lleihau'r risg y bydd y dŵr yn dianc o sianel yr afon.
- Cynhyrchu mapiau aml-haenog sy'n rhoi gwybodaeth am lifogydd o ddŵr daear, afonydd a'r môr ar gyfer Cymru, ac yn cynnwys gwybodaeth am amddiffynfeydd rhag llifogydd a'r ardaloedd sy'n elwa o'r amddiffynfeydd hynny.
- Gosod pyst ar hyd glannau'r afonydd i'w cryfhau a chadw'r tir cyfagos yn ddiogel ac atal tirlithriadau i'r afon gan achosi rhwystrau. Byddai'r gwaith hwn i raddau helaeth o dan y ddaear.
- Trwsio neu ailosod cwlferi o dan dir, ffyrdd ac eiddo a gwelliannau i'r sianeli sy'n cynorthwyo llif y cyrsiau dŵr.
- Datblygu strategaethau i ddarparu opsiynau perygl llifogydd yn y tymor hir i gwmpasu ardal fawr. O'r strategaethau hirdymor y mae prosiectau unigol i reoli perygl llifogydd yn cael eu datblygu.
- Paratoi Cynlluniau Rheoli Lefelau Dŵr a Chynlluniau Rheoli Llifogydd Dalgylchoedd, gwelliannau i lociau a dyfrffyrdd eraill, amnewid telemetreg a gwella cynefinoedd pysgod.

Gwelliannau i gronfeydd lle bydd y Ddeddf Cronfeydd 1975 yn gosod y cyfrifoldeb hynny ar berchennog y gronfa. Cymerwyd y camau hyn er lles diogelwch yn benodol.

#### Grantiau cyfalaf

Mae'r rhain yn grantiau, i Awdurdodau Lleol yn bennaf, sy'n ariannu gwaith cyfalaf. Mae'n cynnwys gwaith ar Lwybr Arfordir Cymru, y Rhaglen Gwella Hawliau Tramwy, a hefyd grantiau i gynorthwyo gyda phrynu tir.

## 5. Gwariant arall

	2018/19 £'000	2017/18 £'000
<b>Eitemau arian parod</b>		
Gwasanaethau a brynwyd i mewn	19,037	17,064
Cytundebau gweithredu cronfeydd dŵr	9,112	8,281
Costau TGCh	5,245	4,837
Deunyddiau ac offer	4,046	4,072
Costau fflyd	3,568	3,325
Costau cynnal swyddfeydd	3,378	3,604
Cytundebau Lefel Gwasanaeth	3,228	3,545
Costau sy'n gysylltiedig â staff	2,527	2,034
Grantiau	2,436	2,663
Cynnal a chadw rhwydwaith ffyrdd y goedwig	2,407	2,775
Rhenti	1,825	2,241
Cytundebau cydweithredol	1,820	1,753
Ffioedd a chostau llys	1,385	760
Teithio a chynhaliaeth	1,367	1,155
Ardrethi	808	834
Costau gweithredol	760	549
Colledion a thaliadau arbennig	328	738
Ffioedd archwilio statudol	246	171
Grantiau Ewropeaidd	100	76
Llog ar brydlesi cyllid	3	14
<b>Is-gyfanswm</b>	<b>63,626</b>	<b>60,491</b>
<b>Gwariant nad yw'n arian parod</b>		
Gwerth pren wedi'i werthu	18,410	11,971
Dibrisiant, amorteiddio ac amhariad	9,037	11,702
Costau atgyweirio cronfeydd dŵr	2,052	0
(Ennillion)/Colled ar waredu assedau	290	(525)
Colledion	154	115
Symudiad ar y ddarpariaeth ar gyfer colled credyd disgwylid	95	(27)
Symudiad ar ddarpariaethau eraill	(120)	553
<b>Is-gyfanswm</b>	<b>29,918</b>	<b>23,789</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>93,544</b>	<b>84,280</b>

Mae manylion y dyledion sy'n cael eu dileu a'r taliadau arbennig yn cael eu dangos yn yr adran Atebolrwydd ar dudalen 69.



## 6. Dadansoddiad o incwm

Ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2019

	2018/19 £'000	2017/18 £'000
Taliadau tynnu dŵr	21,245	19,349
Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: ansawdd dŵr	6,414	6,364
Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gosodiadau	3,035	3,078
Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gwastraff	2,267	2,294
Rheoleiddio niwclear	2,073	2,458
Taliadau eraill i ddiogelu'r amgylchedd	1,240	1,101
Trwyddedau pysgota	1,142	1,244
Gwastraff peryglus	876	657
Gwaith y gellir ailgodi tâl amdano ar gyfer adnoddau dŵr	645	632
Allryiadau masnachu ac ymrwymiad i leihau carbon	291	307
Trwyddedu morol	240	113
<b>Incwm o daliadau</b>	<b>39,468</b>	<b>37,597</b>
Incwm o bren	26,349	19,534
Incwm o ynni adnewyddadwy <sup>+</sup>	3,791	3,640
Incwm o ystadau	2,431	2,374
Incwm ardaloedd draenio mewnol	1,338	1,265
Darparu gwybodaeth a gwasanaethau	726	726
Adennill costau cyfreithiol ac incwm o'r Ddeddf Elw Trosedd	356	303
Incwm amrywiol	36	103
Llog derbyniadwy	43	35
Incwm tuag at gostau glanhau safleoedd	6	6
<b>Incwm masnachol ac arall</b>	<b>35,076</b>	<b>27,986</b>
Incwm Ewropeaidd <sup>++</sup>	1,093	656
Grantiau a chyfraniadau	450	234
<b>Cyllid Ewropeaidd a chyllid allanol arall</b>	<b>1,543</b>	<b>890</b>
<b>Cyfanswm yr incwm</b>	<b>76,087</b>	<b>66,473</b>

<sup>+</sup>Dangosir incwm ynni adnewyddadwy yn net o ffioedd opsiwn perthnasol i incwm ynni gwynt sy'n ddyledus i Lywodraeth Cymru. Mae'r balans o £ 3,791k yn cynrychioli incwm o £ 8,936k (2017/18 £ 4,759k) ar ôl didynnu'r taliad ffi opsiwn i Lywodraeth Cymru o £ 5,145k (2017/18 £ 1,119k).

<sup>++</sup> Gan gynnwys incwm a hawliwyd drwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru neu Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau a ariennir gan Ewrop.

## 6.1 Dadansoddiad o ffioedd a thaliadau

<b>Blwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2019</b>	<b>Incwm a gafodd ei filio £'000</b>	<b>Gwariant £'000</b>	<b>Gwarged/ (Difyg) £'000</b>
Taliadau tynnu dŵr	20,239	21,245	(1,006)
Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: ansawdd dŵr	6,449	6,414	35
Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gosodiadau	3,015	3,035	(20)
Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gwastraff	2,239	2,267	(28)
Rheoleiddio niwclear	2,062	2,073	(11)
Taliadau diogelu'r amgylchedd eraill	1,239	1,240	(1)
Trwyddedau pysgota	1,141	1,142	(1)
Gwastraff peryglus	1,101	876	225
Gwaith adnoddau dŵr y gellir ailgodi tâl amdano	645	645	0
Allyriadau masnachu ac ymrwymiad i leihau carbon	284	291	(7)
Trwyddedau morol	230	240	(10)
<b>Cyfanswm</b>	<b>38,644</b>	<b>39,468</b>	<b>(824)</b>

<b>Ffigurau cymharol - y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2018</b>	<b>Incwm a gafodd ei filio £'000</b>	<b>Gwariant £'000</b>	<b>Gwarged/ (Difyg) £'000</b>
Taliadau tynnu dŵr	19,098	19,349	(251)
Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: ansawdd dŵr	6,455	6,364	91
Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gosodiadau	3,093	3,078	15
Rheoleiddio niwclear	2,460	2,458	2
Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gwastraff	2,140	2,294	(154)
Trwyddedau pysgota	1,244	1,244	0
Taliadau diogelu'r amgylchedd eraill	1,081	1,101	(20)
Gwastraff peryglus	904	657	247
Gwaith adnoddau dŵr y gellir ailgodi tâl amdano	632	632	0
Allyriadau masnachu ac ymrwymiad i leihau carbon	296	307	(11)
Trwyddedau morol	113	113	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>37,516</b>	<b>37,597</b>	<b>(81)</b>

Cydnabyddir referniw ar sail yr ystyriaeth a bennir mewn contract gyda'r cwsmer. Mae CNC yn cydnabod referniw yn unol â'r pum cam a nodir yn Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) 15. Caiff referniw ei gydnabod pan mae CNC yn bodloni neu wrth i CNC fodloni rhwymedigaeth perfformiad.

Mae incwm o daliadau am reoleiddio busnesau yng Nghymru i fonitro a rheoli eu heffaith ar yr amgylchedd, boed yn aer, yn ddŵr neu'n dir, yn deillio o gyfuniad o ffioedd a thaliadau. Mae incwm taliadau yn perthyn i ddau brif gategori: cais am drwydded neu ganiatâd y cydnabyddir referniw ar eu cyfer ar adeg y cais, a'r tâl cynhaliaeth sy'n gysylltiedig â thrwyddedau a chaniatadau, sy'n rhoi hawl gyfreithiol i'r cwsmer gyflawni ei weithrediad ar gyfer cyfnod o amser o dan reoliad CNC. Caiff incwm cynhaliaeth o'r fath ei gydnabod pan gaiff ei filio ar yr adeg y mae cyfnod y drwydded newydd yn dechrau.

Yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, gosodir ffioedd a thaliadau ar sail adennill costau llawn gan ystyried balansau cynlluniau. Mae gwargedion a diffygion cronedig sy'n gysylltiedig â'n cynlluniau codi tâl yn cael eu trin fel incwm gohiriedig neu incwm cronedig yn dibynnu a oes gwarged neu ddiffyg yn y cynllun codi tâl. Mae'r balansau hyn yn cael eu trin fel incwm gohiriedig neu incwm cronedig yn unig os byddent wedi codi yn ddamweiniol o ganlyniad i amgylchiadau heb eu cynllunio yn unol â diffiniad Arian Cyhoeddus Cyhoeddus Cymru, neu lle mae cynllun yn y dyfodol i ddefnyddio'r balansau hynny. Ystyrir y balansau incwm gohiriedig ac a gronnwyd wrth bennu ffioedd a thaliadau blynyddoedd i ddod, fel y gellir cyflawni sefyllfa adennill costau dros gyfnod rhesymol o amser, oherwydd gwahaniaethau amseru nid yw'n cael ei ystyried yn briodol gwneud hyn mewn blwyddyn ariannol unigol .

Mae gennym drefniant pontio lle bydd balansau materol heb gynllun yn cael eu lleihau erbyn 31 Mawrth 2021. Mae'r driniaeth hon yn diystyru'r meini prawf cydnabod refeniw safonol a amlinellir yn y paragraff cyntaf uchod.

### **Dyfarniad arwyddocaol**

Gwneir dyfarniad ynghylch bodloni rhwymedigaethau perfformiad ar ffioedd a thaliadau, ac incwm masnachol yn ôl Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) 15. O fewn symiau derbyniadwy (Nodyn 10) a symiau taladwy (Nodyn 12) mae balansau incwm cronedig a gohiriedig ar gyfer ffioedd a thaliadau lle mae gwarged neu ddiffyg. Fel y crybwyllwyd uchod, mae'n ofynnol i gynlluniau codi tâl adennill costau dros gyfnod rhesymol o amser ac mae angen dyfarnu wrth asesu'r ffactorau y tu ôl i p'un a fydd y gwarged neu'r diffyg yn arwain at sefyllfa adennill costau dros y cyfnod rhesymol hwn (a adroddir yn nodiadau 10 a 12 ).

Mae costau a ariennir gan gymorth grant wedi cael eu heithrio o'r tabl uchod. Nid yw'r tabl uchod yn cynnwys effaith addasiadau pensiwn Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 19 gan nad yw'r costau/buddion hyn yn cael eu trosglwyddo i rai sy'n talu taliadau. Yr amcan ariannol yw adennill costau llawn gan gynnwys dibrisiad costau cyfredol a chyfradd enillion ar asedau perthnasol.

Mae gweithgareddau allweddol pob adran yn cael eu rhestru isod:

- Taliadau tynnu dŵr - codi tâl ar fusnesau sy'n defnyddio tynnu dŵr o afonydd neu ddŵr daear. Mae'r incwm a adroddwyd hefyd yn cynnwys elfennau eraill o incwm adnoddau dŵr.
- Gwaith adnoddau dŵr y gellir ailgodi tâl amdano - incwm i adennill costau am ymdrechion CNC ar gyfer adnoddau dŵr, megis costau gweithredol yn nhalgylch Hafren Uchaf (ar ochr Cymru o'r ffin), sy'n dod o dan awdurdodaeth Asiantaeth yr Amgylchedd.
- Trwyddedau Pysgota - codi tâl ar unigolion am drwyddedau i bysgota.
- Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: ansawdd dŵr - codi tâl am ollyngiadau gan fusnesau i'r amgylchedd.
- Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gosodiadau - caniatáu i reoli a lleihau llygredd o weithgareddau diwydiannol
- Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gwastraff - trwyddedu rheoli gwastraff ac eithriadau.
- Gwastraff peryglus - trwyddedu ar gyfer cynhyrchu, cludo, neu dderbyn gwastraff peryglus.
- Masnachu allyriadau ac ymrwymiad i leihau carbon - rheoleiddio busnesau o dan gynlluniau'r UE.
- Rheoleiddio niwclear - rheoleiddio safleoedd niwclear a di-niwclear, a safleoedd niwclear newydd.
- Trwyddedau morol – rheoleiddio dyddodion, symud, prosiectau adeiladu ar neu o dan wely'r môr a phob ffurff o garthu.
- Gwarchodaeth arall ar yr amgylchedd - trwyddedu ar gyfer cofrestru cludwyr a broceriaid gwastraff, cludiadau trawsffiniol, trwyddedu cyfrifoldeb y cynhyrchydd ar gyfer gwastraff offer electroneg a thrydanol, cerbydau diwedd oes, biffenylau polychlorinedig, caniatâd amddiffyn rhag llifogydd, cydymffurfiaeth chronfeydd dŵr, cyngor cynllunio datblygu a rheoleiddio busnesau dan gynlluniau fel rheoli peryglon damweiniau mawr.

## 7. Asedau tymor hir

Mae dau gategori o asedau tymor hir - asedau diriaethol a ddangosir yn Nodyn 7.1 ac asedau anniriaethol a ddangosir yn Nodyn 7.2.

### Cydnabyddiaeth

Mae'r holl dir yn cael ei gyfalafu beth bynnag yw ei werth. Y trothwy ar gyfer cyfalafu asedau eraill gydag oes economaidd ddefnyddiol o fwy na blwyddyn yw £5,000. Gall eitemau unigol sy'n costio llai na £5,000 gael eu grwpio fel un ased os yw cyfanswm y gost yn fwy na £5,000 ac mae'r asedau hyn yn gweithredu fel rhan o rwydwaith. Mae gwariant dilynol ar ased yn cael ei gyfalafu os bydd y meini prawf ar gyfer cyfalafu cychwynnol yn cael eu bodloni, mae'n debygol y bydd buddion economaidd ychwanegol yn llifo i CNC ac y gall cost y gwariant gael ei fesur yn ddibynadwy. Bydd costau dilynol ychwanegol yn cael eu cynnwys o fewn swm cario'r ased neu eu cydnabod fel ased ar wahan, os yw'n briodol. Gwneir penderfyniad i gategoreiddio gwariant fel gwaith cyfalaf a wariwyd yn ystod y flwyddyn, ac asedau diriaethol ac anniriaethol.

### Mesur

Mae'r holl asedau nad ydynt yn gyfredol ar wahân i asedau treftadaeth ac asedau sy'n cael eu hadeiladu yn cael eu hadrodd naill ai ar eu gwerth cyfredol yn y defnydd presennol neu werth teg yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

Mae asedau sy'n cael eu dosbarthu fel asedau treftadaeth yn cynnwys tir o fewn ardaloedd cadwraeth dynodedig. Mae'r tir hwn yn cael ei gynnal i gefnogi diben Cyfoeth Naturiol Cymru. Oherwydd natur amrywiol y tir a ddelir a diffyg gwerthoedd cymharol ar y farchnad, mae CNC yn ystyried y byddai cael prisiadau allanol yn golygu cost anghymesur. Mae asedau treftadaeth, felly, yn cael eu cynnal yn ôl y gwerth cost. Mae costau cadwraeth (y gwariant sydd ei angen i warchod yr ased treftadaeth) yn cael eu cydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr pan gânt eu talu. Mae rhagor o wybodaeth am asedau treftadaeth yn Nodyn 7.1.2.

Mae asedau sy'n cael eu cyfalafu fel rhai sy'n cael eu hadeiladu yn cael eu cario ar gostau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i ddod â'r ased i'r lleoliad a'r cyflwr sy'n angenrheidiol er mwyn iddo allu gweithredu yn y modd a fwriadwyd gan y rheolwyr. Ni chânt eu hailbrisio ac fe'u trosglwyddir i'r categori Asedau tymor hir priodol pan fyddant wedi'u cwblhau ac yn barod i'w defnyddio.

### Mynegeio ac Ailbrisio

Mae tir ac adeiladau a strwythurau cyhoeddus (a adroddwyd o fewn strwythurau gweithredol) yn ddarostyngedig i ailbrisio proffesiynol bob pum mlynedd yn unol â safonau prisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS). Cafodd yr asedau hyn eu hailbrisio'n broffesiynol ar 31 Mawrth 2016 gan syrfewyr siartredig a'u llofnodi gan brisiwr cofrestredig. Y syrfewyr siartredig oedd John Clegg & Co, Cooke and Arkwright, Lambert Smith Hampton, Llewellyn Humphreys, Williams Rural & Commercial, Strutt & Parker, Bidwells ac asiantau tir mewmol.

Mae pob un o'r priswyr a wnaeth yr ailbrisiad bob pum mlynedd diwethaf, yn aelodau o'r RICS ac yn Briswyr Cofrestredig yn unol â Chynllun Cofrestru Priswyr RICS, ar wahân i'r priswyr hynny sydd wedi ymgymryd â rhai prisiadau seilwaith penodol ar asedau treftadaeth. Sicrhawyd ansawdd y prisiadau hynny gan Brif Syrfêwr Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae gan bob prisiwr ddigon o wybodaeth leol a chenedlaethol gyfredol am y farchnad benodol, a'r sgiliau a'r ddealltwriaeth i wneud y prisiad yn gymwys.

Cafodd ein holl swyddfeydd rhydd-ddaliadol a phrydlesol a'r eiddo masnachol eu prisio ar 31 Mawrth 2016 gan y priswyr allanol, Elizabeth Hill ac Alan Jones o Syrfewyr Siartredig Cooke & Arkwright.

Cafodd prisiadau tir, strwythurau cyhoeddus ac asedau arbenigol eraill eu trefnu gan ein tîm mewmol o Syrfewyr Siartredig, o dan gyfarwyddyd y Prif Syrfêwr. Ar gyfer yr asedau hynny lle mae gennym incwm rhent yn y dyfodol ar ein tir defnyddiwyd syrfewyr proffesiynol allanol. Prisiwyd Fferm Wynt Cefn Croes gan Bidwells a'r portffolio telathrebu gan Strutt & Parker.



Ar gyfer asedau arbenigol lle nad oes unrhyw beth i'w gymharu ar y farchnad, amcangyfrifwyd y gwerth teg gan ddefnyddio dull cost adnewyddu dibrisiedig.

Defnyddir strwythurau gweithredol wrth ddarparu gwasanaeth CNC ac maent yn benodol o ran eu natur, lleoliad neu swyddogaeth. Nid yw'n bosibl ailbriso'r asedau hyn yn effeithiol gan ddefnyddio ffigurau cymharol y farchnad neu brisiadau proffesiynol. Mae gwaith rheoli risg llifogydd megis gorsafoedd medryddu neu asedau adnoddau dŵr megis dyfrdyllau yn enghreifftiau o'r math yma o asedau. Mae'r asedau hyn yn gynwysedig yn y Datganiad o'r sefyllfa ariannol gan ddefnyddio cost adnewyddu dibrisiedig.

Rhwng ailbrisiadau proffesiynol, caiff yr ystâd goedwig, tir, adeiladau, strwythurau gweithredol ac asedau biolegol eu mynegeo'n flynyddol gan ddefnyddio mynegai addas.

Pan fydd symud yn y mynegeion ar gyfer offer a pheiriannau, technoleg gwybodaeth ac asedau anniriaethol yn faterol berthnasol, caiff yr asedau hyn eu hailbriso o dan y confensiwn cost hanesyddol ag addaswyd.

Mae addasiadau o ganlyniad i'r mynegeo ac ailbrisiadau yn cael eu cymryd i'r gronfa wrthgefn ar gyfer ailbriso oni bai bod y balans wrth gefn mewn perthynas ag ased penodol wedi cael ei ddefnyddio'n llawn yn erbyn ailbriso tuag i lawr, ac os felly mae'r symudiad yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Caiff unrhyw ostyngiadau parhaol mewn gwerth eu trosglwyddo i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

### **Dibrisiant ac amorteiddiad**

Nid yw tir (Yr ystâd goedwig a thir nad yw'n goedwig) na hawl anniriaethol i diroedd yn cael ei ddibrisio, oni bai ei fod yn ffurfio elfen hanfodol o strwythur gweithredol. Mae'r asedau hyn yn cael eu dibrisio dros oes y strwythur gweithredol perthnasol. Ni chaiff asedau sy'n cael eu hadeiladu eu dibrisio nes eu bod yn gallu gweithredu yn y dull a fwriadwyd gan y rheolwyr.

Mae cerbydau a ddangosir yn y categori offer a pheiriannau yn cael eu dibrisio ar sail balans sy'n gostwng ar gyfradd o 21%. Mae'r holl asedau eraill yn cael eu dibrisio / hamorteiddio ar sail llinell syth dros eu bywyd economaidd defnyddiol disgwylidig. Caiff dibrisiant ei godi yn y mis y caiff ased ei waredu i'r Datganiad o Wariant Cynhwysfawr, ond nid yn y mis y caiff ased ei gaffael.

Gwneir dyfarniad ar y bywydau economaidd defnyddiol sy'n ffurfio'r sail ar gyfer dibrisio eiddo, offer a chyfarpar ac amorteiddio asedau anniriaethol. Caiff bywydau asedau wedi'u hamcangyfrif eu hadolygu, a'u haddasu os yw'n briodol, ar bob dyddiad adrodd. Mae'r prif fywydau economaidd a ddefnyddir at ddibenion dibrisiant fel a ganlyn:

<b>Categori o Asedau</b>	<b>Prif fywyd economaidd</b>
<b>Asedau diriaethol</b>	
Adeiladau ac anheddau	10 - 60 o flynyddoedd
Offer a pheiriannau	4 - 25 o flynyddoedd
Technoleg Gwybodaeth	3 - 10 o flynyddoedd
Strwythurau gweithredol	5 - 100 o flynyddoedd
<b>Asedau anniriaethol</b>	
Trwyddedau meddalwedd	5 - 25 o flynyddoedd
Trwyddedau eraill	5 - 100 o flynyddoedd
Datblygu meddalwedd	3 - 10 o flynyddoedd
Gwefan	5 - 10 o flynyddoedd

Mae'r ystod yn yr oes ddefnyddiol uchod yn adlewyrchu'r amrywiaeth o asedau o fewn y categorïau asedau. Byddai asedau gwella lesddaliad yn eithriad o fewn categori adeiladau ac anheddau, gan eu bod yn cael yr un bywyd â'r brydles perthnasol.

## **Gwarediadau**

Pan fydd ased yn cael ei waredu, mae ei swm cario yn cael ei ddileu i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr fel rhan o'r enillion neu golled ar waredu. Mae derbyniadau o warediadau (os oes rhai) yn cael eu credydu i'r un llinell hefyd. Caiff unrhyw enillion ailbriso cronedig ar gyfer yr ased yn y Gronfa Ailbriso Wrth Gefn eu trosglwyddo i'r Gronfa Gyffredinol.

## **Y gronfa ailbriso**

Mae'r gronfa ailbriso yn dangos yr enillion a wnaed gan Gyfoeth Naturiol Cymru sy'n deillio o'r cynnydd yng ngwerth asedau tymor hir. Caiff y balans ei leihau pan gaiff asedau ag enillion cronedig:

- Eu hailbriso tuag at i lawr neu pan gaiff eu gwerth ei leihau a chollir yr enillion.
- Eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau a chaiff yr enillion eu colli trwy ddibrisiant.
- Eu gwaredu a gwiredir yr enillion.

Caiff swm sy'n cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng y dibrisiant a godir ar yr asedau a ailbrisir a'r hyn a fyddai wedi cael ei godi pe bai'r asedau wedi'u dangos ar gost ei drosglwyddo o'r gronfa ailbriso i'r gronfa gyffredinol.

## **Amhariad**

Mae asedau tymor hir yn destun adolygiadau amhariad blynyddol. Caiff amhariadau eu cydnabod pan fydd y swm y gellir ei adennill o asedau tymor hir yn disgyn islaw eu gwerth llyfr net, o ganlyniad i naill ai ostyngiad mewn gwerth oherwydd amodau'r farchnad neu golled mewn budd economaidd neu ostyngiad i botensial gwasanaeth. Mae ailbrisiadau tuag i lawr o ganlyniad i newidiadau yn y gwerth ar y farchnad yn arwain at amhariad dim ond lle mae'r ased yn cael ei ailbriso yn is na'i swm cario cost hanesyddol. Mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) yn ei gwneud yn ofynnol mai dim ond y colledion o'r amhariadau hynny nad ydynt yn deillio o ddefnydd clir o fudd economaidd neu leihad mewn potensial gwasanaeth ddylai gael eu gosod yn gyntaf yn erbyn unrhyw falans cronedig yn y gronfa ailbriso. Caiff unrhyw swm yn ychwanegol at hyn ei gydnabod fel amhariad drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Dylid cydnabod colledion amhariad sy'n deillio o ddefnydd clir o fudd economaidd neu leihad mewn potensial gwasanaeth yn llawn yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Trosglwyddir swm i werth yr amhariad o'r gronfa ailbriso i'r gronfa gyffredinol ar gyfer yr asedau unigol dan sylw.

## **Asedau tymor hir a ddelir i'w gwerthu**

Dosberthir asedau tymor hir yn asedau a ddelir i'w gwerthu os caiff y swm cario ei adennill yn bennaf drwy werthu'r asedau yn hytrach na thrwy barhau i'w defnyddio ac mae'n debygol iawn y bydd y gwerthiant hynny'n digwydd o fewn 12 mis o ddyddiad yr adroddiad hwn. Mae'r rheolwyr wedi ymrwmo i werthu'r asedau hyn ac maent yn cael eu marchnata yn eu cyflwr presennol am bris sy'n rhesymol mewn perthynas â'u cyflwr presennol.

Daw'r broses ddibrisio i ben ar unwaith ar ôl i'r asedau gael eu dosbarthu'n rhai sy'n cael eu dal i'w gwerthu. Maent yn cael eu datgan ar yr isaf o'u swm cario a gwerth teg llai costau gwerthu. Maent yn cael eu cofnodi fel asedau cyfredol yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

## 7.1 Asedau tymor hir diriaethol

	Yr ystâd goedwig	Tir arall	Adeiladau	Offer a pheiriannau	Technoleg gwybodaeth	Strwythurau gweithredol	Asedau sy'n cael eu hadeiladu	Cyfanswm eiddo cyfarpar ac offer	Asedau biologol	Asedau treftadaeth	Cyfanswm asedau diriaethol
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Cost neu Brisiad</b>											
<b>Ar 1 Ebrill 2018</b>	671,145	58,612	15,889	21,473	13,280	80,446	671	861,516	113,125	6,432	981,073
Ychwanegiadau	0	0	132	2,236	45	324	1,461	4,198	0	295	4,493
Asedau a gomisiynwyd yn ystod y flwyddyn	0	29	0	0	287	965	(1,281)	0	0	0	0
Gwarediadau a datgydnabod	(7)	(183)	0	(1,305)	(148)	(663)	(8)	(2,314)	0	0	(2,314)
Symudiad o / (i) asedau a ddelir i'w gwerthu	6	169	0	131	0	0	0	306	0	0	306
Coed wedi eu cwmpo	(14,750)	0	0	0	0	0	0	(14,750)	(5,298)	0	(20,048)
Mynegeoio ac ailbriso	80,474	3,671	326	0	0	1,814	0	86,285	18,444	0	104,729
Ailddosbarthu	0	(273)	116	0	0	(116)	(333)	(606)	(3,733)	273	(4,066)
<b>Ar 31 Mawrth 2019</b>	<b>736,868</b>	<b>62,025</b>	<b>16,463</b>	<b>22,535</b>	<b>13,464</b>	<b>82,770</b>	<b>510</b>	<b>934,635</b>	<b>122,538</b>	<b>7,000</b>	<b>1,064,173</b>
<b>Dibrisiant</b>											
<b>Ar 1 Ebrill 2018</b>	0	0	1,564	14,440	13,181	17,901	0	47,086	0	0	47,086
Tâl a godwyd yn y flwyddyn	0	0	884	1,471	42	3,391	0	5,788	0	0	5,788
Gwarediadau a datgydnabod	0	0	0	(1,182)	(146)	(386)	0	(1,714)	0	0	(1,714)
Symudiad o / (i) asedau a ddelir i'w gwerthu	0	0	0	93	0	0	0	93	0	0	93
Mynegeoio ac ailbriso	0	0	29	0	0	390	0	419	0	0	419
Ailddosbarthu	0	0	50	0	0	(50)	0	0	0	0	0
<b>Ar 31 Mawrth 2019</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>2,527</b>	<b>14,822</b>	<b>13,077</b>	<b>21,246</b>	<b>0</b>	<b>51,672</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>51,672</b>
<b>Swm a gariwyd ar 1 Ebrill 2018</b>	<b>671,145</b>	<b>58,612</b>	<b>14,325</b>	<b>7,033</b>	<b>99</b>	<b>62,545</b>	<b>671</b>	<b>814,430</b>	<b>113,125</b>	<b>6,432</b>	<b>933,987</b>
<b>Swm a gariwyd ar 31 Mawrth 2019</b>	<b>736,868</b>	<b>62,025</b>	<b>13,936</b>	<b>7,713</b>	<b>387</b>	<b>61,524</b>	<b>510</b>	<b>882,963</b>	<b>122,538</b>	<b>7,000</b>	<b>1,012,501</b>
<b>Ariannu Asedau</b>											
Wedi'u perchnogi	687,347	56,682	13,936	7,668	387	61,524	510	828,054	122,538	7,000	957,592
Wedi'u prydlesu	49,521	5,343	0	45	0	0	0	54,909	0	0	54,909
<b>Swm a gariwyd ar 31 Mawrth 2019</b>	<b>736,868</b>	<b>62,025</b>	<b>13,936</b>	<b>7,713</b>	<b>387</b>	<b>61,524</b>	<b>510</b>	<b>882,963</b>	<b>122,538</b>	<b>7,000</b>	<b>1,012,501</b>

Mae adeiladau yn cynnwys anheddau gyda swm cario o £294k. Swyddfeydd a lleoliadau gwaith yw'r adeiladau eraill.  
Y swm a ddelir yn y Gronfa Ailbriso ar gyfer yr asedau hyn ar 31 Mawrth 2019 oedd £795,321k (£725,645k ar 31 Mawrth 2018)

Ailddosbarthwyd £3,733k sy'n cynrychioli gwerth yr ased yn Llyn Efyrnwy ar 1 Ebrill 2018 yn ystod y flwyddyn ac fe'i trosglwyddwyd o asedau biologol i asedau ariannol (Nodyn 9).

## Figurau cymharol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2018

	Yr ystâd goedwig	Tir arall	Adeiladau	Offer a pheiriannau	Technoleg gwybodaeth	Strwythurau gweithredol	Asedau sy'n cael eu hadeiladu	Cyfanswm eiddo cyfarpar ac offer	Asedau biologol	Asedau treftadaeth	Cyfanswm asedau diriaethol
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Cost neu Brisiad</b>											
<b>Ar 1 Ebrill 2017</b>	626,724	54,418	14,484	22,153	13,320	72,855	818	804,772	105,643	6,432	916,847
Ychwanegiadau	0	280	190	1,490	0	1,070	482	3,512	0	0	3,512
Asedau a gomisiynwyd yn ystod y flwyddyn	0	0	0	521	96	66	(635)	48	0	0	48
Gwarediadau a datgydnabod	(1)	(231)	(137)	(2,577)	(186)	(43)	0	(3,175)	0	0	(3,175)
Symudiad o / (i) asedau a ddelir i'w gwerthu	(28)	317	231	(114)	0	0	0	406	0	0	406
Coed wedi eu cwmpo	(8,802)	0	0	0	0	0	0	(8,802)	(3,162)	0	(11,964)
Mynegeio ac ailbriso	53,252	3,834	1,121	0	0	6,534	0	64,741	10,644	0	75,385
Ailddosbarthu	0	(6)	0	0	50	(36)	6	14	0	0	14
<b>Ar 31 Mawrth 2018</b>	<b>671,145</b>	<b>58,612</b>	<b>15,889</b>	<b>21,473</b>	<b>13,280</b>	<b>80,446</b>	<b>671</b>	<b>861,516</b>	<b>113,125</b>	<b>6,432</b>	<b>981,073</b>
<b>Dibrisiant</b>											
<b>Ar 1 Ebrill 2017</b>	0	0	694	15,352	10,205	13,586	0	39,837	0	0	39,837
Tâl a godwyd yn y flwyddyn	0	0	820	1,629	3,114	3,188	0	8,751	0	0	8,751
Gwarediadau a datgydnabod	0	0	(4)	(2,454)	(186)	(11)	0	(2,655)	0	0	(2,655)
Symudiad o / (i) asedau a ddelir i'w gwerthu	0	0	6	(87)	0	0	0	(81)	0	0	(81)
Mynegeio ac ailbriso	0	0	48	0	0	1,173	0	1,221	0	0	1,221
Ailddosbarthu	0	0	0	0	48	(35)	0	13	0	0	13
<b>Ar 31 Mawrth 2018</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>1,564</b>	<b>14,440</b>	<b>13,181</b>	<b>17,901</b>	<b>0</b>	<b>47,086</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>47,086</b>
<b>Swm a gariwyd ar 1 Ebrill 2017</b>	<b>626,724</b>	<b>54,418</b>	<b>13,790</b>	<b>6,801</b>	<b>3,115</b>	<b>59,269</b>	<b>818</b>	<b>764,935</b>	<b>105,643</b>	<b>6,432</b>	<b>877,010</b>
<b>Swm a gariwyd ar 31 Mawrth 2018</b>	<b>671,145</b>	<b>58,612</b>	<b>14,325</b>	<b>7,033</b>	<b>99</b>	<b>62,545</b>	<b>671</b>	<b>814,430</b>	<b>113,125</b>	<b>6,432</b>	<b>933,987</b>
<b>Ariannu Asedau</b>											
Wedi'u perchnogi	625,316	53,486	14,325	6,882	99	62,545	671	763,324	113,125	6,432	882,881
Wedi'u prydlesu	45,829	5,126	0	151	0	0	0	51,106	0	0	51,106
<b>Swm a gariwyd ar 31 Mawrth 2018</b>	<b>671,145</b>	<b>58,612</b>	<b>14,325</b>	<b>7,033</b>	<b>99</b>	<b>62,545</b>	<b>671</b>	<b>814,430</b>	<b>113,125</b>	<b>6,432</b>	<b>933,987</b>

Mae adeiladau yn cynnwys anheddau gyda swm cario o £291k. Swyddfeydd a lleoliadau gwaith yw'r adeiladau eraill.  
Y swm a ddelir yn y Gronfa Ailbriso ar gyfer yr asedau hyn ar 31 Mawrth 2018 oedd £725,645k

### 7.1.1 Yr ystad goedwig

Cafodd perchnogaeth gyfreithiol Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru ei roi i Weinidogion Cymru. Mae wedi ei gynnwys yn Natganiad o Sefyllfa Ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru gan ei fod yn cario'r risg ariannol a'r gwobrau sy'n gysylltiedig â'r ystâd ac yn ymgymryd â holl weithgareddau rheoli ystadau. Mae'r stad yn cynnwys tir a choed sy'n tyfu. Mae perchnogaeth gyfreithiol y pren, gan gynnwys coed heb eu cwmpo, yn cael ei roi i Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae coetiroedd a choedwigoedd yn cael eu dal a'u rheoli'n bennaf i fodloni'r amcanion rheoli coedwigoedd cynaliadwy a nodir yn Goetiroedd i Gymru (strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer coetiroedd a choed). Gall eu pwrpas gael ei rannu rhwng pwrpas economaidd (cyfraniad at economi Gymreig ffyniannus a chynaliadwy) a phwrpasau eraill (cymdeithasol, amgylcheddol, newid yn yr hinsawdd). O dan Safon Archwilio Ryngwladol (IAS) 41 (Amaethyddiaeth), rhaid i bren a dyfir ar gyfer pwrpas economaidd gael ei ddsbarthu fel asedau biolegol. Mae gweddill y pren, ynghyd â'r holl dir gwaelodol, yn cael ei ddsbarthu fel eiddo, offer a chyfarpar a chyfeirir ato fel yr ystâd goedwig.

Dangosir yr asedau yn y ddau gategori yn ôl eu gwerth teg. Mae priswyr proffesiynol allanol yn cynnal prisiad o'r ystâd bob pum mlynedd. Penodwyd John Clegg a'i Gwmni fel priswyr ar gyfer y prisiad diwethaf ar 31 Mawrth 2016. Yn unol â Gwerthusiad a Safonau Priso Sefydliad Brenhinol y Syrffewyr Siartredig (RICS) (y Llyfr Coch), mae'r ystâd yn cael ei phrisio fel y bo'n briodol ar gyfer cael gwerth teg. Yn y blynyddoedd rhyngddynt, defnyddir mynegeion arfer a ddarparwyd gan John Clegg a'i Gwmni i ailddatgan gwerthoedd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a'i briswyr proffesiynol allanol wedi datblygu prosesau, gan gynnwys rhagdybiaethau allweddol, sy'n cynhyrchu amcangyfrif rhesymol o brisiad cydffurfiol.

Cymerir addasiadau sy'n deillio o ailbriso'r ystad goedwig i'r gronfa ailbriso ac maent yn cael eu rhyddhau i'r Gronfa Gyffredinol pan wneir enillion wrth dorri coed. Mae addasiadau sy'n deillio o ailbriso asedau biolegol yn cael eu cydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ym mlwyddyn yr ailbriso.

#### **Technegau amcangyfrif, rhagdybiaethau a barnau**

Mae elfennau o'r prisiad, ac felly'r cyfrifyddu ar gyfer yr asedau hyn yn dibynnu ar dechnegau amcangyfrif.

Ystyrir na fyddai'n gost effeithiol cynnal prisiad proffesiynol allanol bob pum mlynedd sy'n cwmpasu pob ardal o goetir. Yn dilyn cyngor gan briswyr â chymwysterau proffesiynol, ystyrir y gellir cael prisiad rhesymol drwy briso hapsampl o eiddo sy'n cynrychioli rhwng 8 a 10 % o'r ystad goedwig ac allosod y rhain ar gyfer yr ystad goedwig gyfan, gan ddefnyddio ffactorau lleoliad, rhywogaethau, oedran ac ansawdd (dosbarth cynnyrch) y coed.

Ystyrir hefyd y ceir y dystiolaeth fwyaf priodol o werth sy'n seiliedig ar y farchnad o'r farchnad ar gyfer gwerthu coetiroedd a choedwigoedd sydd ag arwynebedd o fwy na 50 hectar. Cydnabyddir, serch hynny, y gall gwerthoedd amrywio'n fawr ac y gall y barnau hyn fod braidd yn oddrychol. Felly, bydd unrhyw brisiad o goedwigoedd yn dibynnu i ryw raddau ar farn broffesiynol. Wedyn mae'r priswyr allanol yn pennu gwerthoedd i dir a phren. Amcangyfrifir y bydd gwerth tir prydlesol 15% yn llai na thir rhydd-ddaliadol.

Cafodd y gwaith o ddsrannu coed rhwng asedau biolegol ac eiddo, peiriannau ac offer ei wneud gan staff Cyfoeth Naturiol Cymru gan ddefnyddio barnau ac amcangyfrifon. Gwnaed asesiad o'r gyfran a oedd yn cael ei dal yn bennaf ar gyfer pwrpas economaidd a defnyddiwyd y ganran i bennu gwerth coed a oedd wedi'u ddsbarthu fel ased biolegol. Pe bai tir yn cael ei gaffael neu ei waredu a fyddai'n creu newid cyffredinol yn ein daliad tir o'r ystad goedwig o 10% neu fwy, byddai adolygiad interim o'r asesiad yn cael ei gynnal. Nid oedd unrhyw newid o'r fath yn ystod y cyfnod yn diweddu ar 31 Mawrth 2019. Y rhaniad canrannol ar hyn o bryd yw 26% ar gyfer asedau biolegol a 74% ar gyfer Eiddo, Offer a Chyfarpar. Fel sy'n ofynnol o dan Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 41, mae gwerth teg asedau biolegol yn cael ei leihau gan amcangyfrif o'r costau gwerthu. Amcangyfrifir bod y costau hyn yn 5% o werthoedd pren ac yn adlewyrchu costau gwerthu'r coetir neu goedwig.



### 7.1.2 Asedau treftadaeth

Mae asedau treftadaeth yn asedau diriaethol gyda rhinweddau hanesyddol, artistig, gwyddonol, technolegol, geoffisegol neu amgylcheddol sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n bennaf am eu cyfraniad at wybodaeth a diwylliant. Bwriedir iddynt gael eu cadw mewn ymddiriedolaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol oherwydd eu cysylltiadau diwylliannol, amgylcheddol neu hanesyddol.

Mae ein Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol yn bodloni'r meini prawf ar gyfer asedau treftadaeth. Maent yn cynnwys tir heb fod yn weithredol o fewn ardaloedd cadwraeth dynodedig a sefydlwyd i warchod ac i ganiatáu i bobl astudio eu bywyd gwylt, cynefinoedd neu nodweddion daearegol o ddiddordeb arbennig. Mae'r tir yn cael ei ddal ar gyfer cadwraeth ac at ddefnydd cyhoeddus cynaliadwy. O dan ddehongliad Llawlyfr Adrodd Ariannol (FReM) o Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 16 (Eiddo, Offer a Chyfarpar) mae'r asedau hyn wedi cael eu cyfalafu ar sail cost.

Ar 31 Mawrth 2019 roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoli 58 o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol Cymru, naill ai'n gyfan gwbl, neu mewn partneriaeth, ac un Warchodfa Natur Forol (GNF). Yn ystod 2018/19, prynwyd 30 Hectar o dir ychwanegol fel rhan o Warchodfa Natur Dyfi. Ail-ddosbarthwyd dau bryniant arall a wnaed yn 2017/18 o dir i dreftadaeth yn ystod y flwyddyn.

Mae rhagor o wybodaeth am asedau treftadaeth a pholisïau Cyfoeth Naturiol Cymru ar gaffael, cadwraeth, rheolaeth, gwaredu a mynediad at asedau treftadaeth i'w gweld ar ein gwefan yn:

<http://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/wildlife-and-biodiversity/find-protected-areas-of-land-and-seas/national-nature-reserves/?lang=cy>

## 7.2 Asedau tymor hir anniriaethol

	Trwyddedau meddalwedd	Trwyddedau eraill	Gwariant ar ddatblygu meddalwedd	Gwefan	Asedau sy'n cael eu hadeiladu	Cyfanswm asedau anniriaethol
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Cost neu Brisiad</b>						
<b>Ar 1 Ebrill 2018</b>	8,139	2,354	12,573	477	2,392	<b>25,935</b>
Ychwanegiadau	198	0	137	0	4,607	<b>4,942</b>
Asedau a gomisiynwyd yn ystod y flwyddyn	1,732	0	293	0	(2,025)	<b>0</b>
Gwarediadau a datgydnabod	0	0	0	0	(231)	<b>(231)</b>
Mynegeo ac ailbriso	0	0	0	0	0	<b>0</b>
Ailddosbarthu	0	0	0	0	333	<b>333</b>
<b>Ar 31 Mawrth 2019</b>	<b>10,069</b>	<b>2,354</b>	<b>13,003</b>	<b>477</b>	<b>5,076</b>	<b>30,979</b>
<b>Amorteiddiad</b>						
<b>Ar 1 Ebrill 2018</b>	4,770	32	6,103	221	0	<b>11,126</b>
Tâl a godwyd yn y flwyddyn	1,383	9	1,729	128	0	<b>3,249</b>
Gwarediadau a datgydnabod	0	0	0	0	0	<b>0</b>
Mynegeo ac ailbriso	0	0	0	0	0	<b>0</b>
Ailddosbarthu	0	0	0	0	0	<b>0</b>
<b>Ar 31 Mawrth 2019</b>	<b>6,153</b>	<b>41</b>	<b>7,832</b>	<b>349</b>	<b>0</b>	<b>14,375</b>
<b>Swm a gariwyd ar 1 April 2018</b>	<b>3,369</b>	<b>2,322</b>	<b>6,470</b>	<b>256</b>	<b>2,392</b>	<b>14,809</b>
<b>Swm a gariwyd ar 31 Mawrth 2019</b>	<b>3,916</b>	<b>2,313</b>	<b>5,171</b>	<b>128</b>	<b>5,076</b>	<b>16,604</b>
<b>Ariannu Asedau</b>						
Wedi'u perchnogi	3,916	2,313	5,171	128	5,076	16,604
<b>Swm a gariwyd at 31 Mawrth 2019</b>	<b>3,916</b>	<b>2,313</b>	<b>5,171</b>	<b>128</b>	<b>5,076</b>	<b>16,604</b>

Y swm a ddelir yn y Gronfa Ailbriso ar gyfer yr asedau hyn ar 31 Mawrth 2019 oedd £686k (£836k ar 1 Ebrill 2018)

### Comparative figures for the year ended 31 March 2018

	Trwyddedau meddalwedd	Trwyddedau eraill	Gwariant ar ddatblygu meddalwedd	Gwefan	Asedau sy'n cael eu hadeiladu	Cyfanswm asedau anniriaethol
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Cost neu Brisiad</b>						
<b>Ar 1 Ebrill 2017</b>	6,790	2,456	11,796	472	1,661	<b>23,175</b>
Ychwanegiadau	174	0	388	5	2,392	<b>2,959</b>
Asedau a gomisiynwyd yn ystod y flwyddyn	0	0	1,613	0	(1,661)	<b>(48)</b>
Gwarediadau a datgydnabod	(45)	0	(92)	0	0	<b>(137)</b>
Mynegeo ac ailbriso	0	0	0	0	0	<b>0</b>
Ailddosbarthu	1,220	(102)	(1,132)	0	0	<b>(14)</b>
<b>Ar 31 Mawrth 2018</b>	<b>8,139</b>	<b>2,354</b>	<b>12,573</b>	<b>477</b>	<b>2,392</b>	<b>25,935</b>
<b>Amorteiddiad</b>						
<b>Ar 1 Ebrill 2017</b>	3,359	83	4,699	95	0	<b>8,236</b>
Tâl a godwyd yn y flwyddyn	1,233	9	1,583	126	0	<b>2,951</b>
Gwarediadau a datgydnabod	(47)	0	(1)	0	0	<b>(48)</b>
Mynegeo ac ailbriso	0	0	0	0	0	<b>0</b>
Ailddosbarthu	225	(60)	(178)	0	0	<b>(13)</b>
<b>Ar 31 Mawrth 2018</b>	<b>4,770</b>	<b>32</b>	<b>6,103</b>	<b>221</b>	<b>0</b>	<b>11,126</b>
<b>Swm a gariwyd ar 1 April 2017</b>	<b>3,431</b>	<b>2,373</b>	<b>7,097</b>	<b>377</b>	<b>1,661</b>	<b>14,939</b>
<b>Swm a gariwyd ar 31 Mawrth 2018</b>	<b>3,369</b>	<b>2,322</b>	<b>6,470</b>	<b>256</b>	<b>2,392</b>	<b>14,809</b>
<b>Ariannu Asedau</b>						
Wedi'u perchnogi	3,369	2,322	6,470	256	2,392	14,809
<b>Swm a gariwyd at 31 Mawrth 2018</b>	<b>3,369</b>	<b>2,322</b>	<b>6,470</b>	<b>256</b>	<b>2,392</b>	<b>14,809</b>

Y swm a ddelir yn y Gronfa Ailbriso ar gyfer yr asedau hyn ar 31 Mawrth 2018 was £836k

## 8. Rhwymedigaethau ac offerynnau ariannol

### 8.1 Rhwymedigaeth ariannol

Mae'r rhwymedigaeth ariannol o £39,973k a adroddwyd yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol yn cynnwys £39,844k o rwymedigaeth o gytundebau gweithredu cronfeydd dŵr.

Yn 1989, er mwyn ei gwneud yn bosibl i breifateiddio ddigwydd, trafododd Llywodraeth EM gytundebau gweithredu cronfeydd gyda'r cwmnïau dŵr. Roedd y cytundebau hyn yn cynnwys taliadau sefydlog (wedi'u mynegeo yn flynyddol ar y Mynegai Prisiau Manwerthu) sy'n daladwy am byth i'r cwmnïau dŵr. Erbyn hyn mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am y taliadau i Dŵr Cymru Welsh Water.

Gan fod cyfanswm y rhwymedigaeth wedi cael ei chyfrifo fel bythol-daliadau ar sail cost amorteiddiedig ni fydd yn newid o flwyddyn i flwyddyn ac eithrio mewn achos annhebygol lle bydd y cytundeb yn dod i ben. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu adennill llawn gost cytundebau gweithredu cronfeydd dŵr, gan gynnwys y mynegeo blynyddol drwy ei daliadau ar gyfer tynnu dŵr.

Talwyd £5,729k i Ddŵr Cymru yn ystod 2018/19 (2017/18: £5,544k) ar gyfer y taliadau sefydlog wedi'u mynegeo. Mae'r rhain yn cael eu cynnwys gyda thaliadau eraill o dan y cytundebau gweithredu cronfeydd yn Nodyn 5

Mae rhwymedigaethau deddfwriaethol a gyflwynwyd yn ddiweddar mewn perthynas â safonau uwch ar gyfer gorlifannau, pibellau ac argaeau yn ogystal ag asedau sy'n dod i ddiwedd eu hoes ddefnyddiol, wedi arwain at Dŵr Cymru Welsh Water yn gweithredu rhaglen gyfalaf dros 8 mlynedd ar draws Clwyd, Dwyfor, Aled, Dyfrdwy, Dalgylchoedd Gwy a Tywi. Mae'r rhaglen hon o weithiau newydd wedi cynyddu costau'n sylweddol i lefelau digynsail sydd wedi arwain at CNC yn cytuno ar amserlen daliadau cynyddol gyda DCWW dros 10 mlynedd, am gyfanswm cost ragamcanol o £ 27.5m.

Trwy'r lyfnhau'r costau hyn ynghyd â thaliadau uwch y gellir eu rheoli ar gyfer y tynnu dŵr, mae'r cyfleuster hwn wedi galluogi i CNC ragweld Cyfrif Tâl Uned Safonol cynaliadwy dros gyfnod y llinell amser hon. Adroddir y gost o fewn cytundebau gweithredu cronfeydd dŵr yn Nodyn 5, ac adroddir y diffyg yn ystod y flwyddyn fel symiau taladwy tymor hir yn Nodyn 12. Adroddir yr incwm cyfatebol sydd i'w dderbyn o fewn costau tynnu dŵr yn Nodyn 6.1 a Symiau derbyniadwy tymor hir yn Nodyn 10.

### 8.2 Offerynnau ariannol

Gan fod gofyniad arian parod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei fodloni yn bennaf drwy gymorth grant, mae offerynnau ariannol yn chwarae rhan fwy cyfyngedig o ran creu a rheoli risg nag a fyddai'n berthnasol i gorff yn y sector nad yw'n gyhoeddus. Mae'r rhan fwyaf o offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau i brynu eitemau anariannol yn unol â gofynion prynu a defnyddio disgwylidig Cyfoeth Naturiol Cymru ac felly mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei amlygu i ddim ond ychydig o risg o ran credyd, hylifedd neu'r farchnad.

Mae Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) 9 yn cyflwyno model Colled Credyd Disgwylidig (ECL) newydd i amcangyfrif a chyfrif am y colledion credyd disgwylidig ar gyfer yr holl asedau ariannol perthnasol. Mae amcangyfrif CNC yn seiliedig ar ein profiad hanesyddol o golledion credyd dros y tair blynedd ariannol ddiwethaf, wedi'i ddiweddarau ar gyfer materion credyd hysbys yn y dyfodol. Aseswyd effaith y safon hon ar CNC fel un anfaterol.

## 9. Asedau ariannol

	31 Mawrth 2019	31 Mawrth 2018
	£'000	£'000
Forest holidays	425	95
Coedwig Llyn Efyrrwy	4,238	0
	<u>4,663</u>	<u>95</u>

Hyd at 1 Ebrill 2018, roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoli coedwig yn ardal Llyn Efyrrwy o dan gynllun coedwigo ar y cyd gyda Hafren Dyfrdwy (Hafren Trent Water). Cafodd yr ased yma ei gynnwys o fewn asedau Biolegol am werth teg o dan Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 41. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn derbyn incwm ac yn ysgwyddo'r costau, a gwnaed taliad blynyddol o 50% o'r gwarged gweithredu i Hafren Dyfrdwy. Ers 1 Ebrill 2018, mae Hafren Dyfrdwy wedi dod yn gyfrifol am reoli'r goedwig, casglu'r incwm ac ysgwyddo'r costau perthnasol. Erbyn hyn mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru rôl ymgynghorol o dan gytundeb y cynllun coedwigo ac mae'n derbyn 50% o'r gwarged gweithredu gan Hafren Dyfrdwy. Mae'r ased wedi'i ailddosbarthu ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru bellach yn cydnabod ased ariannol ar ei gyfer.

## 10. Dyledwyr masnachol a symiau derbyniadwy eraill

	31 Mawrth 2019	31 Mawrth 2018
	£'000	£'000
<b>O fewn blwyddyn</b>		
Dyledwyr masnachol	4,320	3,835
Colled credyd disgwylidig	(418)	(323)
Asedau contract - Masnachol ac arall	2,972	0
Incwm cronedig:	0	5,572
Cyllid Ewropeaidd a cyllid allanol arall	1,196	0
Taliadau	1,297	0
TAW derbyniadwy	2,713	2,617
Rhagdaliadau	2,430	1,692
Blaendaliadau	377	206
Derbyniadau eraill	180	222
<b>Cyfanswm</b>	<u>15,067</u>	<u>13,821</u>
<b>Ar ôl blwyddyn</b>		
Derbyniadau tymor hir	2,052	0
<b>Cyfanswm Dyledwyr masnachol a symiau derbyniadwy eraill</b>	<u>17,119</u>	<u>13,821</u>

Cyfrifwyd colledion credyd disgwylidig yn unol â Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) 9, fel y disgrifir yn Nodyn 8.2.

## 11. Arian parod a chyfwerthoedd arian

	31 Mawrth 2019	31 Mawrth 2018
	£'000	£'000
Balans agoriadol	43,539	26,801
Newid net mewn arian a chyfwerthoedd arian	5,486	16,738
<b>Cyfanswm</b>	<b>49,025</b>	<b>43,539</b>
Roedd y balansau canlynol yn cael eu dal ar 31 Mawrth		
Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth	46,594	35,078
Cyfrifon banc eraill	2,429	8,460
Arian mewn llaw	2	1
<b>Cyfanswm</b>	<b>49,025</b>	<b>43,539</b>

Mae arian parod a chyfwerthoedd arian yn cynnwys arian mewn llaw, darpariaethau ariannol (gweler Nodyn 1.9) a balansau cyfredol sy'n cael eu dal yng Nghyfrifon Banc y Llywodraeth a chyfrifon banc Barclays. Gellir eu trosi'n hawdd yn symiau diffiniedig o arian parod, ac maent yn agored i risg ddibwys o newidiadau mewn gwerth. Nid yw darpariaethau ariannol ar gael i'w defnyddio gan CNC. Dim ond ar ôl i'r gweithredwr tirlenwi dorri amodau'r drwydded y bydd CNC yn rhoi ystyriaeth briodol i dynnu'r ddarpariaeth sydd mewn lle.

## 12. Credydwyr masnachol a symiau taladwy eraill

	31 Mawrth 2019	31 Mawrth 2018
	£'000	£'000
<b>O fewn blwyddyn</b>		
Credydwyr masnachol cronedig	8,286	9,614
Incwm gohiriedig:	0	7,755
Cyllid Ewropeaidd a chyllid allanol arall	1,840	0
Taliadau	4,394	0
Rhwymedigaethau contract:		
Taliadau	564	0
Masnachol ac arall	730	0
Tâl gwyliau **	2,724	1,845
Credydwyr masnachol	1,875	1,671
Bondiau a blaendaliadau	1,446	1,421
Prydlesi cyllid (cyfredol)	12	81
Symiau taladwy eraill	172	177
Trethi a nawdd cymdeithasol	9	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>22,052</b>	<b>22,564</b>
<b>Ar ôl blwyddyn</b>		
Symiau taladwy tymor hir	2,052	0
Prydlesi cyllid (tymor hir)	426	406
<b>Cyfanswm Credydwyr masnachol a symiau taladwy eraill</b>	<b>24,530</b>	<b>22,970</b>

\* Mae'r cyfanswm ar 31 Mawrth 2018 ar gyfer croniadau credydwyr masnachol wedi'i ostwng £1,084k. Mae'r swm hwn, sy'n cynrychioli incwm gohiriedig ar brosiect LIFE Cyforgorsydd Cymru, bellach yn cael ei ddangos o fewn cyfanswm o £7,755k ar gyfer incwm gohiriedig. Hefyd, mae'r balans sy'n ddyledus o dan brydlesi cyllid wedi'i rannu rhwng y rhai sy'n gyfredol a'r rhai tymor hir, yn ôl pryd y mae'r swm yn ddyledus.

\* Newidiwyd y fethodoleg o gyfrifo tâl gwyliau cronedig yn 2018/19. Mae'r gyfradd gyflog ddyddiol bellach yn seiliedig ar ddiwrnodau gwaith yn hytrach na diwrnodau calendr.



## 13. Darpariaethau

	Costau ymadael yn gynnar £'000	Arall £'000	Cyfanswm £'000
<b>Balans ar 1 Ebrill 2018</b>	56	1,171	1,227
Darparwyd yn ystod y flwyddyn	3	201	204
Rhyddhawyd yn y flwyddyn	(1)	(4)	(5)
Defnyddiwyd yn y flwyddyn	(31)	(317)	(348)
<b>Balans ar 31 Mawrth 2019</b>	<b>27</b>	<b>1,051</b>	<b>1,078</b>

### Amcangyfrif o amseriad llifau arian wedi'u disgowntio

Yn ddyledus o fewn blwyddyn	16	1,051	1,067
Yn ddyledus rhwng un a phum mlynedd	11	0	11
<b>Cyfanswm</b>	<b>27</b>	<b>1,051</b>	<b>1,078</b>

Yn unol â gofyniad Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 37 (Darpariaethau, rhwymedigaethau amodol ac asedau amodol), lle mae hynny'n faterol berthnasol, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau sy'n codi o ddigwyddiadau yn y gorffennol lle mae rhwymedigaeth bresennol ar y dyddiad adrodd, mae'n debygol y bydd gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru setlo'r rwymedigaeth ac y gellir gwneud amcangyfrif ariannol yn ddibynadwy.

Mae darpariaeth ar gyfer costau gadael yn gynnar yn cynnwys taliadau iawndal blynyddol i gyn-staff a adawodd o dan raglenni ymddeol yn gynnar cyrff etifeddol.

Mae darpariaethau eraill yn cynnwys £673k o gynigion grant i ariannu gwaith sydd wedi ei wneud hyd at 31 Mawrth 2019, ond na fydd yn cael ei hawlio tan fis Mehefin 2019 a £378k ar gyfer hawliadau eraill. Disgwylir y bydd pob un o'r rhain yn cael eu talu o fewn y deuddeg mis nesaf. Adroddir ar ymrwymadau grant eraill yn nodyn 17 Ymrwymadau ariannol eraill.

Dangosir costau'r darpariaethau eraill ychwanegol yn nodyn 5. Mae cyfanswm y darpariaethau a nodwyd uchod yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol o dan rhwymedigaethau. Mae'r ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer y symudiad yn y golled credyd disgwylidig yn cael ei dangos yn nodyn 5, a chyfanswm y ddarpariaeth ar gyfer colled credyd disgwylidig yn nodyn 10 ac wedi ei gynnwys yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol o dan Symiau derbyniadwy.

## 14. Rhwymedigaethau pensiwn

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn aelod o ddau gynllun pensiwn, sef Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (CSPS) a Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS).

### Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

Mae Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (CSPS) yn agored i weithwyr newydd.

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil - Cynllun Pensiwn y Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyfra gydag oedran pensiwn arferol sy'n cyfateb i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwn, fe ymunodd pob gwas sifil a benodwyd o'r newydd a mwyafrif y rhai oedd eisoes mewn gwasanaeth ac alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn cymryd rhan yng Nghynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae gan y PCSPS bedair adran: 3 yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol (classic, premium neu classic plus) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un sy'n darparu buddion ar sail gyfra gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu a chaiff costau'r buddion eu talu gan arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiynau. Arhosodd aelodau presennol o'r PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai a oedd rhwng 10 mlynedd a 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Bydd buddion PCSPS pob aelod sy'n newid i alpha yn cael eu 'bancio', gyda'r rhai sydd â buddion cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS yn cael y buddion hynny wedi eu seilio ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd o fewn PCSPS neu alpha - fel y bo'n briodol. Lle bo gan y swyddog fuddion yn y PCSPS ac alpha y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun). Gallai aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant budd diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliad 'prynu ag arian' gyda chyfraniad cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau gweithwyr cyflogedig yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05% ar gyfer aelodau o classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha. Mae buddion mewn classic yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol yn daladwy wrth ymddeol. Ar gyfer premium, mae buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60ain o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i classic, nid oes unrhyw gyfandaliad awtomatig. Mae classic plus yn gynllun hybrid yn ei hanfod gyda buddion am wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n fras fel y cynllun classic a buddion am wasanaeth o Hydref 2002 wedi eu cyfrifo fel yn y premium. Yn nuvos mae aelod yn cronni pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy yn ystod ei gyfnod aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae cyfrif pensiwn a enillwyd yr aelod yn cael ei gredydu â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno o'r cynllun a chaiff y pensiwn croniedig ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiynau. Mae buddion mewn alpha yn cronni mewn ffordd debyg i nuvos, ac eithrio mai'r gyfradd gronol yw 2.32%. Ym mhob achos, gallai aelodau ddewis ildio (cyfnewid) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a osodir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn rhanddeiliaid. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 8% ac 14.75% (yn ddibynnol ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn rhanddeiliaid a ddewisir gan y gweithiwr o blith panel o ddarparwyr. Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu, ond os bydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfateb y rhain hyd at uchafswm o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% pellach o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant buddiant risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeol oherwydd salwch).

Y pensiwn croniedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd neu dros oedran pensiwn. Yr oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau classic, premium a classic plus, 65 ar gyfer aelodau nuvos, a'r uchaf o 65 neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer aelodau o alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd o fewn PCSPS neu alpha - fel y bo'n briodol. Lle bo gan y swyddog fuddion yn y PCSPS ac alpha y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun, ond noder y gallai rhan o'r pensiwn fod yn daladwy o wahanol oedrannau).

Mae manylion pellach am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar gael ar y wefan:

[www.civilservicepensionscheme.org.uk](http://www.civilservicepensionscheme.org.uk)

## Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL)

Ar 1 Ebrill 2013, cafodd gweithgareddau pensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (AAC) eu trosglwyddo i Cyfoeth Naturiol Cymru yn unol â Chynllun Trosglwyddo Corff Adnoddau Naturiol Cymru 2013 o dan Ddeddf Cyrrff Cyhoeddus 2011. Mae gweithwyr CNC a oedd yn weithwyr AAC yn parhau'n aelodau o Gronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd (EAPF) fel corff a dderbyniwyd.

Mae EAPF yn gweithredu cynllun pensiwn buddion diffiniedig statudol, a weinyddir yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 a Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau trosiannol, cynilion a newid) 2014. Gall y rhain gael eu diwygio dros amser. Mae mwy o fanylion am y gronfa pensiwn, gan gynnwys ei hadroddiad blynyddol a'r cyfrifon, ar wefan EAPF, [www.eapf.org.uk](http://www.eapf.org.uk).

Cyfanswm y tâl pensiwn ar gyfer CNC am y flwyddyn ariannol 2018/19 oedd £13,865 miliwn (£10,978 miliwn yn 2017/18). Cafodd y tâl pensiwn yn ymwneud â'r cynllun ei asesu yn unol â chynghor actwari cymwysedig annibynnol gan ddefnyddio'r dull uned amcanol o brisio i gyfrifo costau gwasanaeth.

Cynhaliwyd y prisiad actiwaraidd bob tair blynedd diweddaraf yr EAPF ar 31 Mawrth 2016. Roedd yr asedau a gymerwyd ar werth y farchnad (£2.7 biliwn) yn ddigon i dalu am 103% o werth y rhwymedigaethau o ran buddion gwasanaeth blaenorol a oedd wedi cronni i'r aelodau. Mae CNC wedi derbyn argymhelliad yr actiwari annibynnol mewn perthynas â chyfraniadau cyflogwyr yn y dyfodol. Bydd y prisiad actiwaraidd bob tair blynedd nesaf ar 31 Mawrth 2019 ac fe'i defnyddir i bennu cyfraddau cyfraniadau'r cyflogwr ar gyfer y cyfnod o dair blynedd sy'n dechrau 1 Ebrill 2020.

Mae'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol ar gyfer yr EAPF yn adrodd bod ganddo ddigon o asedau i gwrdd ag 103% o'i rwymedigaethau disgwylidig yn y dyfodol ar 31 Mawrth 2019 ar sail gyllido barhaus. Cyfrifir cyfran CNC o rwymedigaethau'r EAPF fel yr adroddwyd yn y datganiadau ariannol hyn gan ddefnyddio tybiaethau actiwariad, sy'n ofynnol gan IAS19, sy'n wahanol i'r rhai a ddefnyddiwyd yn adroddiad blynyddol yr EAPF. Mae hyn yn arwain at lefel ariannu gwahanol i'r hyn a nodwyd gan yr EAPF.

Y prif wahaniaeth yn y dybiaeth yw'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir i roi gwerth ar rwymedigaethau pensiwn. Mae cyfradd ddisgownt EAPF yn seiliedig ar enillion tymor hir bondiau llywodraeth y DU ac yn cymryd yn ganiataol lefel o orberfformiad o ran asedau yn y dyfodol gan y bondiau sy'n eiddo i'r EAPF. Mae'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir yn y datganiadau ariannol hyn, fel sy'n ofynnol gan IAS 19 yn seiliedig ar enillion bondiau corfforaethol o safon uchel, heb unrhyw ragdybiaeth ychwanegol am berfformiad asedau. Mae'r gyfradd ddisgownt gwirioneddol yn y datganiadau ariannol hyn, felly yn 1.1% yn is na'r gyfradd a ddefnyddiwyd yn natganiadau ariannol y EAPF. Mae'r gyfradd ddisgownt is yma yn arwain at werth uwch yn cael ei roi ar rwymedigaethau. Mae'r dadansoddiad sensitifwydd yn nodyn 14.2 yn dangos sensitifwydd rhwymedigaethau'r gronfa i wahaniaeth yn y gyfradd ddisgownt.

Mae nifer o ragdybiaethau yn cael eu gwneud fel rhan o broses y prisiad actiwariad. Nid yw'r tybiaethau actiwariad darbodus a ddefnyddir yn cynrychioli barn am yr hyn y gallai symudiadau cyflog yn y dyfodol fod. Tybiwyd y bydd pensiynau presennol ac yn y dyfodol sy'n cael eu talu yn cynyddu ar gyfradd o 2.1% y flwyddyn. Y cyfraniad amcangyfrifedig sy'n daladwy gan CNC, ac eithrio unrhyw gyfandaliadau dewisol, ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2020 fydd tua £0 gan bod y cyfraniadau arferol eisioes wedi eu talu.

Mae'r nodiadau isod yn nodi gofynion datgelu IAS 19 ar gyfer y flwyddyn gyfredol mewn perthynas â chyfranogiad CNC yn yr EAPF. Mae'r holl gyfrifiadau wedi'u gwneud gan actwari annibynnol cymwys ac fe'u seiliwyd ar y prisiad actiwariad diweddaraf o'r gronfa ar 31 Mawrth 2016 a ddiweddarwyd hyd at 31 Mawrth 2019. Mae'r tybiaethau sy'n sail i'r cyfrifiad o rwymedigaeth net ar 31 Mawrth 2019 yn cael eu defnyddio yn unig at ddibenion cyfrifyddu fel sy'n ofynnol o dan IAS 19. Nid oes unrhyw ofyniad i'r rhwymedigaeth net a adroddwyd gael ei fodloni fel cyfandaliad. Bydd cyfraniadau arian parod a delir gan CNC i'r gronfa pensiwn yn parhau i gael eu gosod drwy gyfeirio at dybiaethau y cytunwyd arnynt ym mhob prisiad actiwaraidd o'r cynllun a gynhelir bob tair blynedd.

Pan gafodd y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ei ddiwygio yn 2014, cymhwyswyd amddiffyniadau trosiannol i rai aelodau hyn o fewn deng mlynedd i'r oedran ymddeol arferol. Mae'r buddion a gronwyd gan yr aelodau hyn o 1 Ebrill 2014 yn amodol ar 'sail' sy'n golygu na allant fod yn is na'r hyn y byddent wedi'i dderbyn o dan y strwythur budd-daliadau blaenorol.

Ym mis Rhagfyr 2018, cadarnhaodd y Llys Apêl ddyfarniad bod amddiffyniadau trosiannol tebyg yng Nghynlluniau Pensiwn y Barnwyr a'r Diffoddwyr Tân yn anghyfreithlon ar sail gwahaniaethu ar sail oedran. Cyfeirir at hyn fel achos McCloud. Roedd disgwyl i oblygiadau'r dyfarniad fod yn berthnasol i'r CPLIL a chynlluniau gwasanaeth cyhoeddus eraill hefyd.

Ar 27 Mehefin 2019, gwrthododd y Goruchaf Lys roi caniatâd i'r Llywodraeth apelio yn erbyn achos McCloud mewn perthynas â gwahaniaethu ar sail oedran a diogelu pensiwn. Mae activari'r cynllun pensiwn wedi amcangyfrif fod effaith ar Cyfoeth Naturiol Cymru yn £3,001k ac adlewyrchir hyn yn y nodiadau isod.

## 14.1 Tybiaethau ariannol a thybiaethau o ran hirhoedledd

Y cyfnod a ddaeth i ben	31 Maw 19 % p.a.	31 Maw 18 % p.a.
Y gyfradd cynnydd mewn pensiwn	2.2%	2.1%
Y gyfradd cynnydd mewn cyflogau	2.5%	2.4%
Y gyfradd ddisgowntio	2.4%	2.7%

	Gwryw	Benywaidd
Pensiynwyr presennol	22.6 mlynedd	24.4 mlynedd
Pensiynwyr yn y dyfodol*	24.3 mlynedd	26.7 mlynedd

\* mae'r ffigurau'n rhagdybio aelodau 45 oed fel ar y dyddiad prisio ffurfiol diwethaf

## 14.2 Dadansoddiad o sensitifrwydd

Newid mewn tybiaethau ar 31 Mawrth 2019:	% bras o'r cynnydd i ymrwymiad y cyflogwr	Swm ariannol bras (£000)
Gostyngiad o 0.5% yn y Gyfradd Ddisgowntio Wirioneddol	12%	50,932
Cynnydd o 0.5% yn y Gyfradd Cynnydd mewn Cyflogau	2%	10,339
Cynnydd o 0.5% yn y Gyfradd Cynnydd mewn Pensiwn	9%	39,670

Yn ychwanegol at y prif ddadansoddiad sensitifrwydd ar y rhwymedigaethau cyffredinol, isod ceir dadansoddiad ychwanegol ar sensitifrwydd effaith amcangyfrifedig dyfarniad McCloud i lefel tybiedig codiadau cyflog yn y dyfodol. Mae effaith McCloud hefyd yn dibynnu ar ragdybiaethau eraill, er enghraifft oedrannau ymddeol a chyfradd tynnu'n ôl, ond dangosodd dadansoddiad blaenorol mai'r sensitifrwydd i gynydd mewn cyflogau oedd fwyaf arwyddocaol.

	Effaith amcangyfrifedig dyfarniad McCloud ar rwymedigaethau (o'i gymharu â rhagdybiaeth ganolog) £ 000
Cynydd mewn cyflogau cymedrig 0.5% p.a. yn is	(1,957)
Cynydd mewn cyflogau cymedrig 0.5% p.a. yn uwch	2,528

## 14.3 Hyd rhwymedigaethau buddion diffiniedig

Amcangyfrifwyd gan yr actwari yn ystod y prisiad bob tair blynedd diweddaraf ar 31 Mawrth 2016 bod hyd y rhwymedigaethau buddion diffiniedig (h.y. cyfartaledd pwysol yr amser hyd at dalu allan) ar gyfer aelodau o'r cynllun yn 20.4 mlynedd.

## 14.4 Gwerth Teg Asedau

Gwerth Teg Asedau ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2019

Categori o asedau	31 Mawrth 2019 (£000)				
	Dyfnwyd	Heb ei ddyfnny	Heb ei ddiffinio	Cyfanswm	%
<b>Gwarannau Ecwiti:</b>					
Stoc Gyffredin	62,656.0	0.0	0.0	62,656.0	17%
Stoc a Ffeirir	0.0	0.0	0.0	0.0	0%
Hawliau / Gwarantau	336.8	0.0	0.0	336.8	0%
Asedau Ecwiti Eraill	3,474.4	0.0	0.0	3,474.4	1%
<b>Gwarannau Dyledion:</b>					
Bondiau Llywodraeth y DU	0.0	36,018.1	0.0	36,018.1	10%
Bondiau Corfforaethol	0.0	31,184.3	0.0	31,184.3	8%
Arall	0.0	2,157.0	0.0	2,157.0	1%
<b>Cyfrngau Buddsoddiad Cyfunol:</b>					
Ecwitiau	0.0	79,765.8	0.0	79,765.8	21%
Bondiau	0.0	30,183.7	0.0	30,183.7	8%
Cronfeydd - Stoc Gyffredin	0.0	0.0	0.0	0.0	0%
Cronfeydd - Eiddo Tiro	58,510.7	13,342.5	0.0	71,853.2	19%
Cronfeydd - Cyfalaf Mentro	0.0	0.0	0.0	0.0	0%
<b>Cyfalaf Mentro a Phartneriaethau:</b>					
Partneriaethau ac Eiddo Tiro	0.0	46,166.2	0.0	46,166.2	12%
<b>Buddsoddiad arall:</b>					
Gwarannau wedi'u Staplo	0.0	0.0	0.0	0.0	0%
<b>Contractau Deilliadol:</b>					
Deilliadau Ecwiti - Dyfodolion	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Blaengontractau FX	0.0	(424.4)	0.0	(424.4)	(0.0)
<b>Arian parod a chyferwerth arian</b>					
Pob un	0.0	0.0	9,732.9	9,732.9	3%
<b>Cyfansymiau</b>	<b>124,977.8</b>	<b>238,393.3</b>	<b>9,732.9</b>	<b>373,104.0</b>	<b>100%</b>

Gwerth Teg Asedau ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2018

Categori o asedau	31 Mawrth 2018 (£ 000)				
	Dyfnwyd	Heb ei ddyfnny	Heb ei ddiffinio	Cyfanswm	%
<b>Gwarannau Ecwiti:</b>					
Stoc Gyffredin	82,482	166	0	82,648	24%
Stoc a Ffeirir	26	0	0	26	0%
Hawliau / Gwarantau	0	0	0	0	0%
Asedau Ecwiti Eraill	276	0	0	276	0%
<b>Gwarannau Dyledion:</b>					
Bondiau Llywodraeth y DU	0	33,902	0	33,902	10%
Bondiau Corfforaethol	0	29,442	0	29,442	9%
Arall	0	1,698	315	2,013	1%
<b>Cyfrngau Buddsoddiad Cyfunol:</b>					
Ecwitiau	0	0	40,940	40,940	12%
Bondiau	27,659	0	32,798	60,457	18%
Cronfeydd - Stoc Gyffredin	2,269	0	26,019	28,288	8%
Cronfeydd - Eiddo Tiro	422	1,763	9,360	11,544	3%
Cronfeydd - Cyfalaf Mentro	0	44	0	44	0%
<b>Cyfalaf Mentro a Phartneriaethau:</b>					
Partneriaethau ac Eiddo Tiro	0	42,558	0	42,558	12%
<b>Buddsoddiad arall</b>					
Gwarannau wedi'u Staplo	458	0	0	458	0%
<b>Contractau Deilliadol:</b>					
Deilliadau Ecwiti - Dyfodolion	(43)	0	0	(43)	0%
Blaengontractau FX	0	87	0	87	0%
<b>Arian parod a chyferwerth arian</b>					
Pob un	0	0	8,502	8,502	3%
<b>Cyfansymiau</b>	<b>113,548</b>	<b>109,659</b>	<b>117,934</b>	<b>341,141</b>	<b>100%</b>



## 14.5 Newid yng ngwerth teg asedau'r cynllun, y rhwymedigaeth o ran buddion diffiniedig a'r rhwymedigaeth net

Cyfnod yn diwedd 31 Mawrth 2019			
	Asedau	Ymrwymadau	(Rhwymedigaethau) / Asedau net
	£(000s)	£(000s)	£(000s)
Gwerth teg asedau'r cyflogwr	341,141	0	341,141
Gwerth presennol rhwymedigaethau wedi'u hariannu	0	373,625	(373,625)
Gwerth presennol rhwymedigaethau heb eu hariannu	0	0	0
<b>Y Sefyllfa Agoriadol ar 31 Mawrth 2018</b>	<b>341,141</b>	<b>373,625</b>	<b>(32,484)</b>
Cost y gwasanaeth			
- Cost gyfredol y gwasanaeth*	0	11,623	(11,623)
- Cost flaenorol y gwasanaeth (gan gynnwys cwtogiadau ac effaith McCloud)	0	2,242	(2,242)
- Effaith setliadau	0	0	0
<b>Cyfanswm cost y gwasanaeth</b>	<b>0</b>	<b>13,865</b>	<b>(13,865)</b>
Llog net			
- Incwm o log ar asedau'r cynllun	9,233	0	9,233
- Cost llog ar y rhwymedigaeth o ran buddion diffiniedig	0	10,163	(10,163)
- Effaith terfyn uchaf asedau ar log net	0	0	0
<b>Cyfanswm y llog net</b>	<b>9,233</b>	<b>10,163</b>	<b>(930)</b>
<b>Cyfanswm cost budd diffiniedig a gydnabyddir mewn Elw neu (Golled)</b>	<b>9,233</b>	<b>24,028</b>	<b>(14,795)</b>
Llifau arian parod			
- Cyfraniadau cyfranogwyr y cynllun	2,094	2,094	0
- Cyfraniadau'r cyflogwr	7,089	0	7,089
- Cyfraniadau o ran buddion heb eu hariannu	0	0	0
- Buddion a dalwyd	(7,050)	(7,050)	0
- Buddion heb eu hariannu a dalwyd	0	0	0
Effaith cyfuniadau busnes a gwarediadau	0	0	0
<b>Sefyllfa gau disgwylidig</b>	<b>352,507</b>	<b>392,697</b>	<b>(40,190)</b>
Ailfesuriadau			
- Newid mewn tybiaethau demograffig	0	0	0
- Newid mewn tybiaethau ariannol	0	36,495	(36,495)
- Profiad arall	0	0	0
- Enillion ar asedau ac eithrio symiau a gynhwyswyd mewn llog net	20,597	0	20,597
- Newidiadau i derfyn uchaf asedau	0	0	0
<b>Cyfanswm yr ailfesuriadau a gydnabyddir mewn Incwm Cynhwysfawr Arall (OCI)</b>	<b>20,597</b>	<b>36,495</b>	<b>(15,898)</b>
Gwahaniaethau cyfnewid	0	0	0
Gwerth teg asedau'r cyflogwr	373,104	0	373,104
Gwerth presennol rhwymedigaethau wedi'u hariannu	0	429,192	(429,192)
Gwerth presennol rhwymedigaethau heb eu hariannu	0	0	0
<b>Sefyllfa cau ar 31 Mawrth 2019</b>	<b>373,104</b>	<b>429,192</b>	<b>(56,088)</b>

\* Mae'r cost gwasanaeth cyfredol yn cynnwys lwfans ar gyfer costau gweinyddu o 0.6% o'r gyflogres.

## 14.5 Newid yng ngwerth teg asedau'r cynllun, y rhwymedigaeth o ran buddion diffiniedig a'r rhwymedigaeth net (Parhad)

Cyfnod yn diwedd 31 Mawrth 2018	Asedau	Ymrwymadau	(Rhwymedigaethau) / Asedau net
	£ 000	£ 000	£ 000
Gwerth teg asedau'r cyflogwr	323,540	0	323,540
Gwerth presennol rhwymedigaethau wedi'u hariannu	0	366,005	(366,005)
Gwerth presennol rhwymedigaethau heb eu hariannu	0	0	0
<b>Y Sefyllfa Agoriadol ar 31 Mawrth 2017</b>	<b>323,540</b>	<b>366,005</b>	<b>(42,465)</b>
Cost y gwasanaeth			
- Cost gyfredol y gwasanaeth *	0	10,978	(10,978)
- Cost flaenorol y gwasanaeth (gan gynnwys cwtogiadau)	0	0	0
- Effaith setliadau	0	0	0
<b>Cyfanswm cost y gwasanaeth</b>	<b>0</b>	<b>10,978</b>	<b>(10,978)</b>
Llog net			
- Incwm o log ar asedau'r cynllun	8,502	0	8,502
- Cost llog ar y rhwymedigaeth o ran buddion diffiniedig	0	9,590	(9,590)
- Effaith terfyn uchaf asedau ar log net	0	0	0
<b>Cyfanswm y llog net</b>	<b>8,502</b>	<b>9,590</b>	<b>(1,088)</b>
<b>Cyfanswm cost budd diffiniedig a gydnabyddir mewn Elw neu (Golled)</b>	<b>8,502</b>	<b>20,568</b>	<b>(12,066)</b>
Llifau arian parod			
- Cyfraniadau cyfranogwyr y cynllun	1,962	1,962	0
- Cyfraniadau'r cyflogwr	12,199	0	12,199
- Cyfraniadau o ran buddion heb eu hariannu	0	0	0
- Buddion a dalwyd	(6,710)	(6,710)	0
- Buddion heb eu hariannu a dalwyd	0	0	0
Effaith cyfuniadau busnes a gwarediadau	0	0	0
<b>Sefyllfa cau ddisgwyliedig</b>	<b>339,493</b>	<b>381,825</b>	<b>(42,332)</b>
Ailfesuriadau			
- Newid mewn tybiaethau demograffig	0	0	0
- Newid mewn tybiaethau ariannol	0	(8,200)	8,200
- Profiad arall	0	0	0
- Ennillion ar asedau ac eithrio symiau a gynhwyswyd mewn llog net	1,648	0	1,648
- Newidiadau i derfyn uchaf asedau	0	0	0
<b>Cyfanswm yr ailfesuriadau a gydnabyddir mewn Incwm Cynhwysfawr Arall (OCI)</b>	<b>1,648</b>	<b>(8,200)</b>	<b>9,848</b>
Gwahaniaethau cyfnewid	0	0	0
Gwerth teg asedau'r cyflogwr	341,141	0	341,141
Gwerth presennol rhwymedigaethau wedi'u hariannu	0	373,625	(373,625)
Gwerth presennol rhwymedigaethau heb eu hariannu	0	0	0
<b>Sefyllfa cau ar 31 Mawrth 2018</b>	<b>341,141</b>	<b>373,625</b>	<b>(32,484)</b>

\* Mae'r cost gwasanaeth cyfredol yn cynnwys lwfans ar gyfer costau gweinyddu o 0.6% o'r gyflogres.

## 15. Ymrwymïadau cyfalaf

	31 Mawrth 2019	31 Mawrth 2018
	£'000	£'000
<b>Eiddo, peiriannau a chyfarpar</b>		
Offer a pheiriannau	161	77
Offer trafndiaeth	12	82
Strwythurau gweithredol	1,186	1,311
Strwythurau cyhoeddus	13	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,372</b>	<b>1,470</b>
<b>Asedau anniriaethol</b>		
Technoleg gwybodaeth - trwyddedau meddalwedd	8	0
Technoleg gwybodaeth - datblygu meddalwedd	422	351
	<b>430</b>	<b>351</b>

## 16. Ymrwymïadau o dan brydlesi

Mae penderfynu a yw trefniant yn, neu'n cynnwys, prydles yn seiliedig ar sylwedd y trefniant hwnnw. Mae trefniant sy'n dibynnu ar y defnydd o ased penodol ac sy'n cyfleu'r hawl i ddefnyddio'r ased, yn cael ei ystyried fel prydles.

Mae prydles gyllid yn un sy'n trosglwyddo risgiau a gwobrwyon perchnogaeth ased i'r prydlesai i raddau sylweddol. Prydles weithredol yw unrhyw brydles nad yw'n brydles gyllid. Caiff prydlesi eu hasesu gan ddefnyddio'r meini prawf a nodir yn Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 17 (Prydlesi). Nid yw tir sy'n cael ei ddal o dan brydles gyllid yn cael ei ddibrisio.

Mae costau sy'n ymwneud â phrydlesi gweithredol yn cael eu codi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles ac yn cael eu dangos yn Nodyn 5.

Mae prydlesi cyllid yn cael eu cyfalafu ar y dechrau ar yr isaf o werth teg yr ased a brydlesir neu werth presennol y taliadau prydles lleiaf. Caiff dyled gyfatebol sy'n ddyledus i'r prydleswr ei chofnodi. Caiff ffioedd ariannol eu codi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Caiff cerbydau sy'n cael eu dal o dan brydles cyllid eu dibrisio dros dymor y brydles.

### 16.1 Prydlesi gweithredu

Nodir cyfanswm y taliadau prydles gofynnol y dyfodol o dan brydlesi gweithredu yn y tabl isod ar gyfer pob un o'r cyfnodau canlynol.

	31 Mawrth 2019			
	Tir	Adeiladau	Cerbydau	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Ymrwymïadau o dan brydlesi gweithredu yw:</b>				
O fewn blwyddyn	88	1,314	528	1,930
Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd	219	2,178	260	2,657
Ar ôl pum mlynedd	1,802	1,075	0	2,877
<b>Cyfanswm gwerth yr ymrwymïadau</b>	<b>2,109</b>	<b>4,567</b>	<b>788</b>	<b>7,464</b>

	31 Mawrth 2018			
	Tir	Adeiladau	Cerbydau	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Ymrwymïadau o dan brydlesi gweithredu yw:</b>				
O fewn blwyddyn	79	1,397	248	1,724
Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd	196	2,258	449	2,903
Ar ôl pum mlynedd	1,760	191	0	1,951
<b>Cyfanswm gwerth yr ymrwymïadau</b>	<b>2,035</b>	<b>3,846</b>	<b>697</b>	<b>6,578</b>

## 16.2 Prydlesi Cyllid

	31 Mwrth 2019		
	Tir	Cerbydau	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000
<b>Ymrwymadau o dan brydlesi cyllid yw:</b>			
O fewn blwyddyn	12	0	12
Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd	42	0	42
Ar ôl pum mlynedd	384	0	384
<b>Cyfanswm gwerth yr ymrwymadau</b>	<b>438</b>	<b>0</b>	<b>438</b>

	31 March 2018		
	Tir	Cerbydau	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000
<b>Ymrwymadau o dan brydlesi cyllid yw:</b>			
O fewn blwyddyn	13	68	81
Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd	41	0	41
Ar ôl pum mlynedd	365	0	365
<b>Cyfanswm gwerth yr ymrwymadau</b>	<b>419</b>	<b>68</b>	<b>487</b>

## 17. Ymrwymadau ariannol eraill

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymrwmo i gontractau na ellir eu canslo nas adroddir yn Nodyn 4 – Gwaith cyfalaf a wariwyd yn y flwyddyn, Nodyn 15 – Ymrwymadau cyfalaf a wariwyd yn y flwyddyn na Nodyn 16 - Ymrwymadau o dan brydlesi. Cyfanswm y taliadau eraill y mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymrwmo iddynt ar 31 Mawrth 2019 yw:

	31 Mawrth 2019	31 Mawrth 2018
	£'000	£'000
O fewn blwyddyn	16,802	11,606
Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd	13,522	16,712
Ar ôl pum mlynedd	172	268
<b>Cyfanswm</b>	<b>30,496</b>	<b>28,586</b>

## 18. Symiau derbyniadwy prydlesi

Caiff asedau (tir ac adeiladau) a brydlesir i bartïon allanol o dan brydles weithredu eu cyfalafu o dan y polisi cyfrifyddu asedau tymor hir fel yr amlinellwyd yn Nodyn 7. Cyfrifir am incwm prydles gweithredu ar sail llinell syth ac mae'r taliadau prydles lleiaf yn y dyfodol y gellir eu derbyn o dan brydlesi gweithredu na ellir eu canslo fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2019	* Ailddatganwyd 31 Mawrth 2018
	£'000	£'000
O fewn blwyddyn	8,900	9,088
Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd	34,511	34,870
Ar ôl pum mlynedd	158,980	167,721
<b>Total</b>	<b>202,391</b>	<b>211,679</b>

\* Ailddatganwyd gwerthoedd 31 Mawrth 2018 i gynnwys yr holl incwm a ragamcanwyd ar gyfer prydlesi ffermydd gwynt, gan fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoli'r prydlesi hyn ar ran Llywodraeth Cymru, a'r breindaliadau ar gyfer y Rhaglen Cyflenwi Ynni, Trydydd Parti, Hydro a phrydlesi eraill. Mae rhain yn ffrydiau incwm sy'n rhaid eu hildio i Lywodraeth Cymru ar ffurf taliadau ynni gwynt. O ganlyniad i'r newid hwn, mae cyfanswm gwerth y derbyniadau ar 31 Mawrth 2018 wedi cynyddu o £17,040k i £211,679k.

## 19. Rhwymedigaethau amodol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn datgelu rhwymedigaethau amodol yn unol â Safon Cyfrifo Rhyngwladol (IAS) 37 pan fo rhwymedigaeth bosibl yn bodoli sy'n dibynnu ar ba un ai yw digwyddiad ansicr yn digwydd yn y dyfodol neu a oes rhwymedigaeth bresennol yn bodoli ond nad yw'r taliad yn debygol, neu na ellir mesur y swm yn ddibynadwy.

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru y rhwymedigaethau amodol canlynol:

	31 Mawrth 2019	31 Mawrth 2018
	£'000	£'000
Hawliad Sifil	0	225
Hawliadau atebolrwydd gweithwyr a'r cyhoedd	174	151
Eraill	20	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>194</b>	<b>376</b>

### Hawliadau atebolrwydd gweithwyr a'r cyhoedd

Mae 7 cais atebolrwydd gweithwyr a'r cyhoedd wedi eu cyflwyno yn erbyn Cyfoeth Naturiol Cymru a datgelir y symiau uchod. Hawliadau am iawndal, anaf personol a chwynion gan weithwyr yw'r rhain.

### Hawliadau eraill

Mae'r £20k arall yn ymwneud â swm a allai fod yn ddyledus i CThEM am gyfraniadau yswiriant gwladol ychwanegol ar gyfer budd-dal tanwydd.

Nid yw'r tabl uchod yn cynnwys gwerthoedd ar gyfer y rhwymedigaethau amodol canlynol: -

### Archwiliad Cyllid a Thollau EM (CThEM)

Mae archwiliad CThEM o driniaeth Cyfoeth Naturiol Cymru o weithio oddi ar y gyflogres (IR35) ar y gweill a bydd yn parhau i 2019/20. Yn unol ag Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 37, datgelir rhwymedigaeth amodol anfesuradwy i gydnabod y posibilrwydd o rwymedigaethau diffyg cydymffurfio sy'n deillio o'r archwiliad.

### Hawliadau Gwerthiannau Pren

Mae CNC wedi derbyn gohebiaeth ar ran rhai cwmnïau pren mewn perthynas â'u contractau â CNC. Datgelir rhwymedigaeth amodol anfesuradwy i gydnabod y posibilrwydd o rwymedigaethau sy'n deillio o'r contractau hyn.

### Contractau Gwerthu Sefydlog a Mwy (SS +)

Stopiodd Cyfoeth Naturiol Cymru osod unrhyw gontractau gwerthu sefydlog a mwy (SS +) newydd o fis Rhagfyr 2018 ac maent bellach yn bwriadu cynnal trafodaethau gyda chwsmeriaid i ddileu'r rhwymedigaethau sifil ac ailblannu o'r holl gontractau parhaus.

### Mwynau

Mae gweithdrefnau ffurfiol wedi'u cyflwyno ar gyfer hawliad sifil gan drydydd parti ar gyfer y defnydd o gerrig gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac un o'i gyrff blaenorol. Mae'r amcangyfrif isaf ar gyfer costau cyfreithiol yn y dyfodol i CNC ar gyfer yr achos hwn yn llai na £100k, a'r amcangyfrif uchaf yw £2,286k. Yn ogystal, mae'r hawliad yn nodi ei fod am swm sy'n fwy na £200k. Nid oes unrhyw ffigwr pendant ynghylch lefel yr iawndal a allai fod yn daladwy pe bai CNC yn aflwyddiannus wrth amddiffyn yr hawliad wedi ei fesur eto gan yr hawlwr, ond safbwynt CNC yw y byddai yn y degau isel o filoedd. Yn 2017/18, datgelwyd rhwymedigaeth amodol o £225k mewn perthynas â'r achos hwn yn y tabl uchod.

Derbyniwyd ail gais tebyg, ond mae CNC wedi cytuno i ymestyn cytundeb digyfnewid gyda'r parti arall. Ni thrafodwyd unrhyw werthoedd mewn perthynas â'r ail hawliad hwn.

### Contractwr yn methdal

Mae CNC yn adolygu ei sefyllfa mewn perthynas â chontractau gyda Grŵp Dawnus Cyfyngedig neu ei is-gwmnïau a ddaeth i ben adeg gweinyddu'r grŵp ym mis Mawrth 2019. Mae'r sefyllfa derfynol yn amodol ar ddod i gytundeb â'r gweinyddwyr ar werth y gwaith a wnaed hyd at y dyddiad y cafodd y contractau eu terfynu. Roedd 8 prosiect cyfredol ar ddyddiad y terfyniad.



## 20. Effaith Brexit

Ar 29 Mawrth 2017, cyflwynodd Llywodraeth y DU ei hysbysiad i adael yr UE yn unol ag Erthygl 50. Dechreuodd y sbardun o Erthygl 50 ar broses negydu dwy flynedd rhwng y DU a'r UE. Ar 11 Ebrill 2019, cadarnhaodd y llywodraeth gytundeb gyda'r UE ar estyniad tan 31 Hydref 2019 fan bellaf, gyda'r opsiwn i adael yn gynharach cyn gynted ag y bydd cytundeb wedi'i gadarnhau. Mae CNC wedi dyrannu cyllid yn 2018/19 a 2019/20 i asesu a rheoli'r ymadawiad o'r UE.

## 21. Digwyddiadau ar ôl diwedd y cyfnod adrodd

Nid oes unrhyw ddigwyddiad i'w adrodd ar ôl y cyfnod adrodd.

## 22. Partion cysylltiedig

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, a ystyrir yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn mae CNC wedi cynnal trafodion perthnasol sylweddol â Llywodraeth Cymru fel rhan o'i fusnes arferol (cofnodir y cymorth grant a'r grantiau a gafwyd gan Lywodraeth Cymru yn y Datganiad o Ecwiti Trethdalwyr). Mae CNC wedi cael trafodion hefyd gydag endidau eraill yr ystyrir mai Llywodraeth Cymru yw eu rhiant-adran, sef Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol yng Nghymru, a thrafodion gydag adrannau eraill y llywodraeth a chyrrff eraill llywodraeth ganolog. Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r trafodion hyn ag Asiantaeth yr Amgylchedd, y Comisiwn Coedwigaeth a CThEM.

Yn ystod y flwyddyn cynhaliodd CNC, fel rhan o'i fusnes arferol, y trafodion canlynol â'r sefydliadau canlynol yr oedd gan Aelodau'r Bwrdd neu Aelodau Gweithredol neu bartion cysylltiedig eraill fuddiant ynddynt. Nid yw Aelodau'r Bwrdd na'r Aelodau Gweithredol yn ymwneud yn uniongyrchol â'r trafodion â'r partion cysylltiedig hyn. Rydym wedi dangos trafodion ar gyfer y flwyddyn lawn, gan gynnwys lle mae aelodau wedi ymuno neu wedi gadael yn ystod y flwyddyn.

Sefydliad	Aelod	Natur y berthynas	Cyfanswm taliadau	Cyfanswm incwm	Swm dyledus gan CNC ar 31 Mawrth 2019	Swm dyledus i CNC ar 31 Mawrth 2019
			£'000	£'000	£'000	£'000
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	Catherine Brown	Aelod Annibynnol	0	6	0	0
Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd	Ruth Hall	Aelod o'r Bwrdd yng Nghymru a'r Cyngor Cenedlaethol	0	27	0	0
	Julia Cherrett	Ymddiriedolwr				
Prifysgol Caerdydd	Steve Ormerod	Athro	36	9	0	0
Sefydliad Ymchwil Dŵr Prifysgol Caerdydd	Steve Ormerod	Cyd-gyfarwyddwr				
Arsyllfa Llyn Brianne Prifysgol Caerdydd	Steve Ormerod a'i briod	Prif Ymchwilwyr				
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	Sir Paul Williams	Cymrawd Mygedol	0	1	0	0
Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) yn cynnwys: Cydbwyllgor Cadwraeth Natur a Chwmni Cymorth (JNCC)	Madeleine Havard/ Steve Ormerod Nigel Reader	Aelod Bwrdd JNCC a Chyfarwyddwr Anweithredol ar gwmni cymorth JNCC  Aelod Annibynnol o Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg JNCC	12	0	0	0
Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) Pwyllgor Archwilio a Risg	Nigel Reader	Aelod ex-officio (fel Aelod Bwrdd Natural England a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg)				
Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion	Nigel Reader	Aelod Anweithredol o'r Bwrdd Rheoli ac Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg				

Sefydliad	Aelod	Natur y berthynas	Cyfanswm taliadau	Cyfanswm incwm	Swm dyledus gan CNC ar 31 Mawrth 2019	Swm dyledus i CNC ar 31 Mawrth 2019
Asiantaeth yr Amgylchedd	Steve Ormerod	Aelod o Grŵp Cyngori Gwyddoniaeth	4082	2,431	249	483
Groundwork Gogledd Cymru	Karen Balmer	Prif Weithredwr	9	0	9	0
Leonard Cheshire Disability	Elizabeth Haywood	Aelod Bwrdd ac Ymddiriedolwr	0	1	0	0
Cymdeithas Genedlaethol yr Ardaloedd o Harddwch Eithriadol	Howard Davies	Prif Weithredwr	5	0	0	0
Ymddiriedolaeth Cenedlaethol	Ruth Hall	Aelod o'r Cyngor	228	14	0	0
Natural England	Nigel Reader	Aelod Anweithredol o'r Bwrdd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio	148	0	76	151
Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru	Howard Davies	Ymddiriedolwr ac Is-lywydd Anrhydeddus	145	0	0	0
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	Rosie Plummer	Aelod bwrdd a benodwyd gan Lywodraeth Cymru	194	3	0	0
PLANED	Priod Madeline Havard	Ymddiriedolwr	3	0	0	0
Plantlife International	Rosie Plummer	Ymddiriedolwr	3	0	0	0
Refurbs Flintshire	Karen Balmer	Prif Weithredwr y grŵp	0	1	0	0
Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB)	Steve Ormerod	Is Lywydd	43	4	0	0
TGV Hydro Ltd	Chris Blake	Cyfarwyddwr	17	1	0	0
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (INSPIRE)	Andy Middleton	Cyfarwyddwr Cyswllt	0	2	0	0
Wild Ground	Karen Balmer	Prif Weithredwr y grŵp	6	0	0	0

# Atodiad 1 Adroddiad Amgylcheddol Corfforaethol

## Ein Gweledigaeth

Yn falch o arwain y ffordd at ddyfodol gwell i Gymru trwy reoli'r amgylchedd ac adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

## Ein Diben

Drwy'r ddeddf newydd, sef Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, rhaid i ni

- geisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy;
- gweithredu egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ...wrth gyflawni ein swyddogaethau. .

## Cyflwyniad

Mae ein system rheoli amgylcheddol (EMS) yn helpu i ddatblygu Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i fod yn sefydliad rhagorol drwy gynnal einhardystiad ISO14001:2015, ein hardystiad coedwig yn erbyn Safon Sicrwydd Coetiroedd y DU a thrwy leihau ein heffaith amgylcheddol a'n hól troed carbon ein hunain.

Dyma ein ffocws yn ystod eleni:

- reduce our carbon footprint – decarbonisation;
- cynnal ein hardystiadcoetir(Safon SicrwyddCoetiroedd y DU) i Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru rydym yn ei rheoli;
- gwella statws y nodweddion dynodedig, mynediad a dehongliad ar y safleoedd gwarchodedig rydym yn eu rheoli;
- ddatblygumecanweithiau sicrhau mai teithio llesol a chynaliadwy yw'r dewis a ffefrir gan staff CNC sy'n cymudoacar gyfer teithiau busnes priodol.

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud yn bennaf â chynaliadwyedd amgylcheddol, yn hytrach na gweithredoedd neu ganlyniadau cynaliadwyedd ehangach. Gellir dod o hyd i adroddiadau sy'n ymwneud â chynaliadwyedd yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon. Yn ystod y blynyddoedd i ddod, byddwn yn parhau i wella ein hadrodd amgylcheddol corfforaethol wrth weithio tuag at Adrodd Integredig.

## Crynodeb o Berfformiad

Eleni rydym wedi:

- cyrraedd ein targed i leihau ein hól troed carbon o 5% mewn perthynas â defnydd ynni mewn adeiladau a ddefnyddir gan staff a theithio busnes;
- cadw ardystiad coetir(Safon Sicrwydd Coetiroedd y DU) ar gyfer Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru rydym yn ei rheoli yn dilynarchwiliadau a gwiriadau annibynnol allanol;
- cwblhau75% o darged archwilio rheolaeth Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a sicrhau bod unrhyw gamau gwella a nodwydwedi'ugweithredu;
- nodi nifer ystaff sy'n cerdded, beicio ac yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus ar gyfercymudo a theithio busnes.

Tabl 1: Tabl sy'n crynhoi'r Adroddiad Amgylcheddol Corfforaethol

	Unedau	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
Allyriadau nwyon tŷ gwydr	Defnydd (tCO <sub>2</sub> e)	6,021	5,115	4,387	4,199
Ynni'r ystâd	Defnydd (miliwn kWh)	6.9	6.3	6.0	6.3
	Gwariant (£k)	657	776	618	583
Gwastraff yr ystâd	Cynhyrchwyd (tunnelli)	864	1,424	1,141	966
	Gwariant (£k)	205	225	273	218
Ddŵr yr ystâd <sup>1</sup>	Defnydd (miliwn (m <sup>3</sup> ))	78,395	76,283	50,908	40,115
	Gwariant (£k)	39	32	25	30

Mae Tabl 1 yn dangos newid perthynol ar gyfer meysydd allweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae rhagor o fanylion ynghylch pob un yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.


I grynhoi:

- gostyngodd allyriadau carbon yn 2018/19 o 4.3% o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol
- cynyddodd y defnydd o ynni yn 2018/19 o 3.8% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol
- gostyngodd y gwastraff a gynhyrchwyd yn 2018/19 o 15.3% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol
- gostyngodd y defnydd o ddŵr yn 2018/19 o 21.2% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol

## Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr

Mae ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr isod:

### Allyriadau carbon tCO<sub>2</sub>e CNC



Gostyngodd allyriadau carbon yn 2018/19 o 4.3% o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol.

**Cwmpas 1** cynyddodd allyriadau uniongyrchol o 1.3%, roedd hyn oherwydd y cynnydd yn y defnydd o nwy a thanwydd a ddefnyddir ar gyfer gwresogi.

**Cwmpas 2** gostyngodd allyriadau ynni anuniongyrchol o 18.2%, roedd hyn oherwydd y gostyngiad yn y trydan a ddefnyddir mewn adeiladau a feddiannir a gostyngiad yn ffactor nwyon tŷ gwydr DEFRA ar gyfer trydan.

**Cwmpas 3** cynyddodd allyriadau anuniongyrchol eraill o 3.5%, roedd hyn oherwydd cynnydd bychan yn y defnydd o gerbydau preifat, cerbydau llogi a milltiroedd awyr.

Tabl 2: Allyriadau nwyon tŷ gwydr

Allyriadau nwyon tŷ gwydr	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
Cwmpas 1: Allyriadau uniongyrchol (tCO <sub>2</sub> e)	2,999	2,835	2,466	2,499
Cwmpas 2: Allyriadau ynni anuniongyrchol (tCO <sub>2</sub> e)	2,048	1,662	1,317	1,077
Cwmpas 3: Allyriadau anuniongyrchol eraill (tCO <sub>2</sub> e)	974	617	603	624
<b>Cyfanswm gros allyriadau (tCO<sub>2</sub>e)</b>	<b>6,021</b>	<b>5,115</b>	<b>4,387</b>	<b>4,199</b>
<i>Tu hwnt i'r cwmpasau (h.y. biomas)</i>	253	220	208	187

Nodyn 1: Data heb ei wirio'n allanol - Sicrwydd Cyfyngedig.

Nodyn 2: Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr anuniongyrchol Cwmpas 3 eraill yn cynnwys: teithio ar drên, teithio mewn awyren, teithio fflyd lwyd, teithio ceir prydlas, teithio ceir llogi, dŵr a gwastraff.

Nodyn 3: Ni chaiff allyriadau Cwmpas 3 o brynu nwyddau a gwasanaethau, y defnydd o agregau mewn adeiladu a'r defnydd o bren eu cynnwys.



## Ynni

Mae ein holl ddefnydd o ynni (sy'n cynnwys trydan, nwy o'r prif gyflenwad, LPG, olew gwresogi a biomas) mewn adeiladau a ddefnyddir gan staff a rhai heb staff wedi cynyddu o 3.8% yn seiliedig ar ddata'r flwyddyn flaenorol.

Gostyngodd y defnydd o drydan mewn adeiladau a ddefnyddir gan staff o 4.5%, o ganlyniad i osod goleuadau LED yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Cynyddodd y defnydd o drydan mewn safleoedd lle nad oes goruchwyliaeth megis gorsafoedd pwmpio a mesur o 15.8%.

Roedd gostyngiad yn y biomas a chynnydd yn yr LPG yn bennaf oherwydd nad oedd y boiler biomas yn ein canolfan ymwelwyr ym Mwlch Nant yr Arian yn gweithio yn 2018/19.

Roedd ychydig o gynnydd yn y nwy o'r prif gyflenwad (6.0%) ac olew gwresogi (13.4%) a ddefnyddiwyd, roedd hyn yn bennaf oherwydd gaeaf oerach na'r arfer.

Cynyddodd yr ynni rydym yn ei gynhyrchu o ynni adnewyddadwy (paneli PV) o 54% o 71,806 kWh i 110,598 kWh.

Cynyddodd yr ynni rydym yn ei gynhyrchu o ynni (micro-hydro) o 63% o 35,050 kWh i 57,281 kWh.

Roedd yr arbedion allyriadau carbon yn sgil y defnydd o drydan yn uwch na'r disgwyl oherwydd gostyngiad pellach yn ffactor trosi nwyon tŷ gwydr DEFRA ar gyfer trydan yn y DU yn 2018. Roedd hyn oherwydd gostyngiad sylweddol yn y trydan a gynhyrchwyd â glo a chynnydd yn y nwy naturiol ac adnewyddadwy a gynhyrchir.

Tabl 3: Energy Defnydd o ynni

Defnydd adnoddau - ynni yr ystâd		2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
Ynni a ddefnyddiwyd:	Defnydd (kWh)	5,550,100	5,209,072	4,918,340	4,973,616
Safleoedd a ddefnyddir gan staff	Defnydd (tCO <sub>2</sub> e)	2,011	1,723	1,436	1,236
Ynni a ddefnyddiwyd:	Defnydd (kWh)	1,319,745	1,131,651	1,122,103	1,298,317
Safleoedd heb staff	Defnydd (tCO <sub>2</sub> e)	610	466	395	367
Ynni adnewyddadwy:	Cynhyrchu (kWh)	81,713	76,649	106,856	167,879
Wedi ei hunangynhyrchu	Defnydd (% of energy used)	1.4%	1.4%	2.2%	3.4%
<b>Ynni defnyddiwyd: Cyfanswm</b>	<b>Defnydd (kWh)</b>	<b>6,869,845</b>	<b>6,340,723</b>	<b>6,040,443</b>	<b>6,271,933</b>
	<b>Defnydd (tCO<sub>2</sub>e)</b>	<b>2,621</b>	<b>2,189</b>	<b>1,830</b>	<b>1,603</b>
	<b>Gwariant (£k)</b>	<b>657</b>	<b>777</b>	<b>618</b>	<b>583</b>

## Dŵr

Gostyngodd y defnydd cyffredinol o'r prif gyflenwad dŵr o 10,793 m<sup>3</sup>. Roedd hyn oherwydd gostyngiad yn y dŵr a dynnwyd i weithredu safle ein deorfa bysgod o 36,721 m<sup>3</sup> i 25,424 m<sup>3</sup>.

The mains water at our non-office sites decreased by 18 m<sup>3</sup> (0.3%) compared with the previous year.

Tabl 4: Defnydd Dŵr

Defnydd adnoddau – dŵr ar yr ystâd	Unedau	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
Dŵr a gyflenwr - defnydd swyddfeydd:					
Prif gyflenwr	Defnydd (m <sup>3</sup> )	6,830	5,923	5,555	6,047
Tynnu dŵr	Defnydd (m <sup>3</sup> )	2,011	15	22	32
Water supplied - Office use					
Mains supply	Defnydd (m <sup>3</sup> )	5,555	5,488	6,339	6,321
Abstraction	Defnydd (m <sup>3</sup> )	65,981	64,850	39,014	27,715
Dwysedd defnydd dŵr (ar gyfer swyddfeydd)	m <sup>3</sup> per FTE	3.4	3.4	3.4	3.3
<b>Dŵr a gyflenwir: Cyfanswm</b>	<b>Defnydd (m<sup>3</sup>)</b>		<b>76,283</b>	<b>50,908</b>	<b>40,115</b>
	<b>Defnydd (tCO<sub>2</sub>e)</b>	<b>27</b>	<b>26</b>	<b>18</b>	<b>14</b>
	<b>Gwariant (£k)</b>	<b>39</b>	<b>32</b>	<b>25</b>	<b>30</b>

## Teithio

Mae ein hanghenion teithio'n cynnwys: teithio i reoli safleoedd, ymateb i ddigwyddiadau amgylcheddol difrifol, cymryd samplau, delio â llifogydd, cyfarfodydd safle a theithio rhwng swyddfeydd.

Yn 2018/19, cynyddodd cyfanswm ein teithio busnes o 3.7%; fodd bynnag, gostyngodd yr allyriadau carbon cyfatebol yn sgil trafndiaeth o 0.8%, oherwydd cynnydd yn y cerbydau trydan a ddefnyddir i deithio, cerbydau bathodyn carbon isel a theithio ar drên.

Byddwn yn parhau i leihau'r teithio rhwng swyddfeydd gan ddefnyddio ein coeden penderfynu ar deithio a thrwy gynyddu'r defnydd o gynadledda skype, a fydd yn lleihau'r angen i deithio ymhellach.

Tabl 5: Manylion teithio

Teithio mewn cerbyd	Unedau	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
Cerbydau bathodyn	Milltiroedd a deithiwyd	5,833,839	6,064,812	5,440,945	5,562,246
	Gwariant (£k)	800	768	749	789
Cerbydau prydles	Milltiroedd a deithiwyd	1,649,345	191,730	0	0
	Gwariant (£k)	162 162	18	0	0
Cerbydau llwyd	Milltiroedd a deithiwyd	552,343	639,064	590,998	614,868
	Gwariant (£k)	244	287	266	277
Llogi	Milltiroedd a deithiwyd	256,654	322,505	261,039	277,390
	Gwariant (£k)	59	74	88	124
Trên	Milltiroedd a deithiwyd	865,693	864,366	938,418	993,213
	Gwariant (£k)	221	223	183	328
Awyr	Milltiroedd a deithiwyd	18,898	71,057	33,661	50,299
	Gwariant (£k)	4	19	5	7
Beic	Milltiroedd a deithiwyd	1,944	2,346	2,301	3,714
	Gwariant (£k)	< 1	< 1	< 1	< 1
Beic Modur	Milltiroedd a deithiwyd	4,475	2,447	1,735	1,155
	Gwariant (£k)	1	< 1	< 1	< 1
Trydan	Milltiroedd a deithiwyd				32,832
<b>Cyfanswm teithio mewn cerbyd</b>	<b>Milltiroedd a deithiwyd</b>	<b>9,183,191</b>	<b>8,158,327</b>	<b>7,269,097</b>	<b>7,535,717</b>
	<b>Defnydd (tCO<sub>2</sub>e)</b>	<b>2,629</b>	<b>2,249</b>	<b>2,019</b>	<b>2,002</b>
	<b>Gwariant (£k)</b>	<b>1,493</b>	<b>1,371</b>	<b>1,295</b>	<b>1,536</b>

## Lleihau a Rheoli Gwastraff

Cafwyd gostyngiad yn y cyfanswm gwastraff a waredwyd gan y sefydliad yn 2018/19 o 15.3%, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Cynyddodd yr allyriadau carbon yn ymwneud â gwastraff i'w waredu o 0.7% oherwydd cynnydd yn y gwastraff a aeth i'w dirlenwi.

Cynyddodd gwastraff a anfonwyd ar gyfer ei losgi (wedi'i ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi) am y drydedd flwyddyn yn olyn

Tabl 6: Gwastraff a Gynhyrchwyd

Gwastraff a gynhyrchwyd	Unedau	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
Gwastraff swyddfa Tirlenwi	Defnydd (tunnelli)	266	241	213	286
	Defnydd (tCO <sub>2</sub> e)	122	101	125	168
	Gwariant	25	22	25	25
Gwastraff swyddfa Ailgylchwyd / defnyddwyd	Defnydd (tunnelli)	451	934	600	431
	Defnydd (tCO <sub>2</sub> e)	10	20	13	9
Gwastraff swyddfa Llosgwyd	Defnydd (tonnes)	14	15	27	31
	Defnydd (tCO <sub>2</sub> e)	< 1	< 1	< 1	< 1
Gwastraff wedi'i dipio'n anghyfreithlon	Defnydd (tonnes)	133	234	301	218
	Defnydd (tCO <sub>2</sub> e)	32	65	135	98

## Caffael Cynaliadwy

Ein gweledigaeth ar gyfer caffael yw darparu arweinyddiaeth a chyfarwyddyd caffael effeithiol o blaid cenhadaeth a gwerthoedd Cyfoeth Naturiol Cymru ac i ymgorffori'r cysyniadau sylfaenol o gorff sy'n dysgu ac sy'n gosod Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn brif egwyddor ganolog.

Ein huchelgais ar gyfer caffael yw defnyddio ein pŵer masnachol yn ddoeth ac yn strategol, ac i gael ein cydnabod fel esiampl heb ei hail o gaffael ac o ymarfer masnachol arloesol, cynaliadwy a modern wrth i ni wneud ein gorau glas i sicrhau gwelliant parhaus yn ein perfformiad. Deallwn yr angen i gydymffurfio, ond mae'n bwysig i ni wneud y broses brynu mor hawdd â phosibl i staff. I wneud hyn, mae angen i ni ddatblygu perthnasau dibynadwy â staff ac i ymwneud â phenderfyniadau allweddol o fewn y sefydliad.

Gall "caffael" fel gweithred a gweithgaredd strategol, alluogi a dylanwadu'n bositif ar ganran sylweddol o bopeth mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei wneud. Gall gwneud penderfyniadau caffael gwybodus helpu i gyflawni ein rhaglenni gwaith, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau yn brydlon ac o fewn y gyllideb wrth i ni hyrwyddo effeithlonrwydd a chyfrannu at ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru.

Gall caffael effeithiol helpu i gyflawni ystod eang o agendâu economaidd-gymdeithasol (gan gynnwys cydraddoldeb ac amrywiaeth, economi lwyddiannus "leol", trydydd sector ffynnianus, grymuso cymunedau, gwerth am arian a rheolaeth adnoddau naturiol) a gall fod yn allweddol i Cyfoeth Naturiol Cymru wrth inni lwyddo i gyflawni'r saith nod llesiant.

## Newid mewn Ymddygiad

Fel rhan o'n gwaith i ymgorffori ein System Rheoli Amgylcheddol i ddiwylliant ein sefydliad, rydym wedi darparu nifer o gyrsiau hyfforddi i staff. Mae meysydd hyfforddi wedi cynnwys codi ymwybyddiaeth o'n gweithdrefnau amgylcheddol allweddol, rheoli gwastraff, ymateb i ddigwyddiadau a Safon Sicrwydd Coetiroedd y DU.

## Digwyddiadau amgylcheddol

Cafwyd 13 o ddigwyddiadau amgylcheddol oherwydd ein gwaith ni neu waith ein contractwyr. Mae hyn yn cymharu â phymtheg digwyddiad amgylcheddol yn ystod y flwyddyn flaenorol. Roedd un digwyddiad amgylcheddol categori uchel yn 2018/19 yn ymwneud â difyg cydymffurfiaeth posibl â thrwydded Rhywogaethau Ewropeaidd a Warchodir. Pan fydd digwyddiadau yn sgil ein gwaith (neu waith ein contractwyr) yn digwydd, rydym yn adolygu'r hyn sydd wedi digwydd, ac yn gweithredu i fynd i'r afael ag achos sylfaenol y digwyddiad.

## Llywodraethu ac Adrodd

Rydym yn adrodd ar ein hól troed carbon fel rhan o'n fframwaith perfformiad, sy'n cael ei adrodd gan y Tîm Gweithredol i'r Bwrdd (mewn sesiwn agored gyhoeddus) deirgwaith y flwyddyn.

Rydym yn casglu data sy'n cael ei ddefnyddio o fewn yr adroddiad cynaliadwyedd hwn trwy gyfuniad o ddarlleniadau mesuryddion (e.e. nwy, trydan), anfonebau (e.e. yr hyn a brynwyd ar gerdyn tanwydd), data cyflenwyr (e.e. milltiroedd trên) a data cyllid, gan ddefnyddio'r ffynhonnell/ffynonellau cywiraf sydd ar gael gennym. Rydym hefyd yn ceisio lleihau'r defnydd o unrhyw ddata a amcangyfrifir yn ein hadrodd, ac rydym yn gweithio i wella yn y maes hwn.

## Prosiect Carbon Bositif

Cafodd Prosiect Carbon Bositif CNC ei ariannu gan Lywodraeth Cymru i ddangos arweinyddiaeth wrth ddatgarboneiddio yn sector cyhoeddus Cymru a thu hwnt.

Yn ystod 2018/19, rydym wedi:

Datblygu Cynllun Galluogi sy'n nodi uchelgais CNC ar gyfer y sefydliad. Mae hwn wedi cael ei dderbyn a'i gymeradwyo gan y grŵp llywio prosiect, Bwrdd Rheoli Busnes Cyfoeth Naturiol, a bydd yn cael ei gyflwyno'n fuan i fwrdd CNC. Rydym yn datblygu Cynllun Gweithredu a fydd yn cyflawni'r Cynllun Galluogi hwn, gan raglennu a blaenoriaethu cyfleoedd lliniaru i'r sefydliad ar sail cynllun tair i bum mlynedd ar gyfer datgarboneiddio.

Cyflwyno cyfres o brosiectau datgarboneiddio yn cynnwys: chwephrosiect tir mawn ar ystâd CNC, adfer lefelau dŵr ar safleoedd corstir neu ffeniau wedi'u haddasu gan gynnwys Cors Bodeilio a Hafod Elwy; prosiectau bach i hwyluso teithio llesol neu effeithlonrwydd ynni yn ein swyddfeydd - megis gosod cawod newydd yn Threfynwy, beic trydan yn Maes-y-Ffynnon ac inswleiddiad to ychwanegol yng Nghlawdd Newydd.

Gweithio gyda ag arbenigwyr yn y diwydiant i wella ein sail dystiolaeth ar gyfer prosiectau datgarboneiddio yn y dyfodol, yn cynnwys:

- Asesiad strategol o'r potensial i gyflwyno cerbydau trydan aseilwaith gwefru ar draws ystâd y CNC, gan ystyried cyfansoddiad fflydpob swyddfa, manylion teithio o'r system archebu cerbydau a'r cysylltiadau trydanol ar safle. Mae'r gwaith hwn hefyd wedi cael ei hysbysu gan arolwg teithio staff sy'n rhedeg ar y cyd â'r tîm EMS a'r grŵp teithio llesol a dderbyniodd >900 ymateb.



- Aseidiadau ar safle o'r potensial am osodiadau ynni adnewyddadwy gwynt, dŵr a haul ar raddfafechan er mwyn cyflenwi pŵeri swyddfeydd a chanolfannau ymwelwyr CNC (a gafodd ei flaenoriaethu yn y gorffennolmewn dadansoddiad desg). Mae'r gwaith hwn yn cynnwys datblygu dyluniadau technegol ar gyfergosodiadau addawol ac archwilio cyfyngiadau o ran cysylltiadau â'r grid.

Parhau i gyhoeddi ac i rannu gwaith y prosiect, fel testun cyfeirio i sefydliadau eraill sy'n gwerthuso ac yn rheoli eu heffaith garbon ei hunain. Mae cyhoeddiadau'n cynnwys: yr adroddiad technegol "Cyfrifo statws carbon net CNC", sy'n manylu ar y dull a ddefnyddir i amcangyfrif allyriadau a lefelau dal a storio carbon y sefydliad; comisiynu adroddiadau tystiolaeth i asesu tir mawn a choetir CNC ac allyriadau nwyon tŷ gwydr ynghyd ag adolygiad strategol o garbon y fflyd; astudiaethau achos ar ein prosiectau arddangos a gwblhawyd yn ymwneud ag adfer tir mawn, cerbydau trydan a seilwaith gwefru, allyriadau caffael a gosod paneli solar ar asedau hydrometrig. Rydym yn parhau i gwblhau ein hardoddiad technegol ar liniaru sy'n pennu costau ac arbedion carbon yr holl gyfleoedd i ddatgarboneiddio a nodwyd ar gyfer y sefydliad.

Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i hysbysu datblygiad posibl dull adrodd ar allyriadau i'r sector cyhoeddus gan ddangos cynnydd tuag at gyrraedd yr uchelgais o fod yn garbon-niwtral erbyn 2030, yn cynnwys: drafftio arolwg ar gyfer cyrff sector cyhoeddus sy'n asesu dulliau adrodd cyfredol; cynnal contract i archwilio cryfderau a gwendidau'r dulliau adrodd a ddefnyddir; a rhannu ein deunyddiau ar stondin yn ystod lansiad cynllun carbon isel cyntaf Llywodraeth Cymru.

## Strategaeth y Dyfodol

Dros y tair blynedd nesaf, yn unol â'n strategaeth gorfforaethol ar gyfer 2017/22, rydym eisiau:

- Cyflwyno cynllun gweithredu carbon bositif 2019/22 a fydd yn cynnwys: adeiladau wedi eu hól-ffitio â PV haul, gostyngiad yn y tanwydd a ddefnyddir gan y ffly bathodyn drwy osod telemateg, datblygu seilwaith gwefru i gerbydau trydan, cynyddu milltired cerbydau trydan, dynodi a chyflwyno rhaglen o brosiectau tir maw
- Datblygu mecanweithiau i sicrhau mai teithio llesol a chynaliadwy yw'r dewis a ffefrir gan staff CNC sy'n cymudo ac ar gyfer teithiau busnes priodol
- Ceisio gostwng cymaint â phosibl y defnydd o blastig yn CNC yn cynnwys Plastigau Un-tro a pheccynnu
- Parhau i gynnal yr ardystiad coetir (Safon Sicrwydd Coetiroedd y DU) i Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru